



# PROM



**Dynes Dadeni'r Byd**  
**Rhyddid y Rhyngrwyd**  
**T H Parry Williams**  
**Tirwedd Moesegol**  
**Hanner Can Arlliw o Wyrdd**

A stained glass window depicting a scholar in a brown robe pointing to an open book held by a student. The scene is set within a large, arched window with intricate leaded glass patterns in shades of blue, green, and red. The scholar's hair is styled in a bun, and the student is looking up at the book. The overall style is reminiscent of traditional Gothic or medieval stained glass art.

Halls of Residence

Academic Posts

Sports Facilities

Bursaries

Academic Buildings

Scholarships

Throughout its history, **Aberystwyth University** has benefited from gifts left in the Wills of its alumni and friends. Legacies ensure that, for generations to come, Aber has the capacity to thrive as a place of learning and research and to enhance its global reputation.

.....

*"It's an easy and painless way of putting something back."*

1982 alumnus

*"Words can't express the gratitude I feel towards those who founded the Scholarship. Not only has it allowed me to remain financially secure throughout my studies but most importantly it has given me access to the brilliant academic environment at Aber."*

Current undergraduate student

To find out more about leaving a legacy to Aber, please contact:

Legacies Officer  
Development and Alumni Relations Office  
Aberystwyth University  
Aberystwyth  
SY23 3EB

Tel: 01970 621568

Email: [development@aber.ac.uk](mailto:development@aber.ac.uk)

[www.aber.ac.uk/supporters](http://www.aber.ac.uk/supporters)

# CYNNWYS

## ERTHYGLAU

10



### DYNES DADENI'R BYD

*Maya Angelou*

14



### RHYDDID Y RHYNGRWDYD

*What are we fighting for?*

18



### TARW DWRN

*un astudiaeth ymchwil fechan o drosglwyddiad clefyd yn troi'n feirrol*

20



### O FYFYRIWR I ATHRO MEWN DIWRNOD

*T H Parry-Williams a helynt y Gadair Gymraeg*

28



### HANNER CAN ARLLIW O WYRDD

*pham rydyn ni'n buyta rhai pethau*

## COLOFNAU

4.....	Yr Is-Ganghellor
23.....	Fy Aber: Coed Penglais
28.....	Cyweliad: Tirwedd Moesegol
38.....	Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
45.....	Ysgrifau Coffa
49.....	O Banty i Bentan
50.....	Cicio'r Bar

## NEWYDDION

6.....	Datblygiadau mewn Datblygu a Chysylltiadau Alumni
13.....	Taith Ofod Aberystwyth
22.....	Aber Dramor
24.....	Diolch: Thank you
34.....	Graddio a Chymrodyr 2014
40.....	Apwyntiadau a Gwobrau
43.....	Silff Lyfrau

Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth yw PROM.

Mae PROM ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os nad yw'r copi hwn yn eich dewis iaith, cysylltwch ag [alumni@aber.ac.uk](mailto:alumni@aber.ac.uk) neu 01970 621568 ac fe anfonwn gopi arall atoch.

Os ydych am dderbyn y newyddion alumni diweddaraf yn gyson o Brifysgol Aberystwyth, diweddarwch eich cyfeiriad e-bost cyfredol ar [www.aber.ac.uk/alumni/diweddarumanylion](http://www.aber.ac.uk/alumni/diweddarumanylion), dilynwch ni ar Twitter neu ymunwch â Cyswllt Aber neu ein grwpiau alumni ar Facebook a LinkedIn.

Gweler [www.aber.ac.uk/alumni](http://www.aber.ac.uk/alumni) i gael y dolenni.



*Barn yr awduron unigol a fynegir yn yr erthyglau, ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y deunydd a gyhoeddir yn gywir ac yn ddibynadwy, nid yw'r cyhoeddwr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw honiadau a wneir gan gyfranwyr.*

PROM 23 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth  
Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth  
Argraffwyd gan: McLays, Caerdydd

# CAUSE FOR CELEBRATION

*Here in Aber, we are celebrating a number of important announcements and events from the end of 2014.*

First, you may have read the excellent news that our proposed Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus is the first flagship project for the next tranche of European funding to Wales, receiving £20m to add to the £12m already pledged by the Biotechnology and Biological Sciences Research Council. Taking into account our own contribution, this will mean an investment of £40m at our Gogerddan campus, bringing much-needed jobs and growth to West Wales, and a big boost to the University's links with businesses. Local spin-outs, UK wide operations, and major multi-nationals all have research and development needs, and can benefit from the expertise, equipment and resolute seeking after solutions to research questions which are to be found in a research-led university like Aberystwyth.

December also brought the outcome of the Research Excellence Framework (REF) 2014. The REF (previously the RAE, much the same sport but played under slightly different rules) takes place around every 6 years, with all UK universities submitting the work of their researchers to be evaluated by specialist panels. It's a massive enterprise and a very high stakes game, which is especially important to us given the trend towards concentration of research funding in a select few, often very big, players. It's important to take into account the overall quality of research and its impact (the difference it actually makes); but also the proportion of eligible researchers who were submitted. All this together measures 'research power', and is vital in my view because some universities submitted just a small number of research stars, whereas a very substantial 76% of our eligible staff have contributed to our good results. Based on that research power calculation, I'm proud to say that Aber has conclusively broken into the UK top 50 for REF 2014, with a *Times Higher Education* ranking of 46 – and a massive 95% of our research falls into the top three categories, as internationally recognised or better, compared with 85% in 2008. There are particularly strong performances by International Politics, Geography and Agriculture, all of which can lay claim to top 10 positions in the UK – with a special mention for Computer Science, number 11 in the UK on that research power table. All this shows the real quality of our researchers; and current and future students can be confident they are being taught by colleagues who are doing that important research first-hand, not just reporting on other people's work.

So all in all, a great way to end 2014, and we celebrated at a superb event in the Old College, launching our Honorary Fellow Mary Lloyd Jones's twin exhibitions held in the Old College Quad and the Arts Centre, in her 80th birthday year.

You can read elsewhere in PROM about the new injection of vitality brought by our Director of DARO, Louise Jagger. I'm delighted to be working alongside Louise as we try to connect better with alumni, and develop a new focus on giving, as we did through our partnership with the Community Foundation in Wales for Philanthropy Week. I'm also part of a Universities UK group of Vice-Chancellor 'champions' of philanthropy, and am thoroughly enjoying working with Steve Lawrence, the current OSA President, and other OSA colleagues. It was a privilege to travel with Steve and Louise to Malaysia in November, where we have such a strong alumni presence, and we're hoping to repeat the experience in May in the US. At a time when we are working towards opening our first Aberystwyth University branch campus in Mauritius, contemplating graduation ceremonies in Malaysia, and have just opened offices in Shanghai and Dubai, you should expect a renewed focus on the international agenda in future PROMs and at alumni events – at which I look forward to meeting you or seeing you again, wherever in the world they might be held.



**Yr Athro April McMahon,  
Is-Ganghellor**



# DDOE A HEDDIW;

## DWYN I GOF 25 MLYNEDD O DDATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI YN ABER

*Mae Steve Lawrence, Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr a Chyfarwyddwr Materion Allanol cyntaf Aber, a Louise Jagger, cyfarwyddwr presennol Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yn rhannu eu meddyliau am bwysigrwydd cyn-fyfyrrwyr i ddyfodol Aber.*



### YR HANES

#### Steve:

Mae'n anodd credu bod 24 blynedd ers i mi ddechrau fy swydd newydd yn Aberystwyth – a phrofiad mwy brawychus hyd yn oed oedd edrych ar fy wyneb cymharol ifanc ar dudalennau rhifyn cyntaf un **PROM**, yn hydref 1991!

Dyma a oedd gennyf i'w ddweud yn y cyflwyniad i'r rhifyn cyntaf hwnnw:

'Agorodd Swyddfa Ddatblygu newydd CPC ei drysau ar 1 Hydref 1990, gyda briff eang i hyrwyddo'r Brifysgol a helpu i wynebu'r hinsawdd ariannol newydd a'r heriau sy'n wynebu addysg uwch yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hyn yn golygu'n rhannol rannu'r newyddion da am gyraeddiadau academiaidd nodedig Aber a'r rhaglenni ymchwil parhaus a chyffrous, ond gyda'r amcan pendodol o annog buddsoddiad annibynnol... Mae'n golygu hefyd adnabod y cyfleoedd fydd ar gael i'r sefydliad yn ystod y degawd sydd i ddod wrth i GPC baratoi ar gyfer ehangu niferoedd ei fyfyrwyr yn sylweddol – yn bwysicaf oll, ein nod yw creu hinsawdd lle bydd alumni a chyfeillion y Brifysgol yn dymuno chwarae rhan gadarnhaol yn nyfodol yr alma mater'.

Mewn amryw ffyrdd, mae'r farn honno yn un mor berthnasol heddiw ag yr oedd bryd hynny ac fel Llywydd presennol

Cymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr rwy'n arbennig o falch o gyfraniad eithriadol y Gymdeithas, ers ei sefydlu yn 1892, i fywyd y 'Coleg'.

#### Louise:

Rwyf innau hefyd yn falch o fod yn un o gyn-fyfyrrwyr Aber, ac o allu cydweithio â Chymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr a'n holl gefnogwyr i helpu i wireddu uchelgais y Brifysgol i roi'r profiad gorau posibl i'r myfyrwyr sydd yma heddiw ac i alumni'r dyfodol.

Mae rhywbeth unigryw yn clymu alumni Aber at ei gilydd ac ansawdd gwahaniaethol i'r profiad o berthyn i alumni Aber. Ni allaf ei esbonio'n well na dyfynnu un o Is-Lywyddion Cymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr yn y 1980au, Siobhan White, a ddywedodd: 'I adored it with an intensity and passion that will never leave my soul'. (O gyhoeddiad canmlwyddiant Cymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr yn 1992).

Rwy'n ymwybodol iawn fod y cariad dwfn hwn at y Brifysgol yn dyddio'n ôl i gefnogaeth hollbwysig teuluoedd cyffredin o Gymru a roddodd geiniogau ar blatiau casglu capeli oherwydd eu bod yn dymuno gweld prifysgol yng Nghymru, ar gyfer Cymru. Roedd lle i roddion mwy hefyd, ac un o'r mwyaf sylweddol ohonynt oedd 87 erw o Fferm Penglais a brynwyd ac a roddwyd i'r Coleg gan gyn-fyfyriwr, Joseph Davies Bryan, yn 1929.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i chwarae rhan enfawr ym mywyd y Brifysgol ac rwyf wedi cael y pleser o gwrdd â nifer o

aelodau. Mae PROM yn rhoi'r cyfle i mi gadw mewn cysylltiad â'r rhai hynny nad wyf wedi eu cyfarfod, a gwahodd adborth ar ein cynlluniau a'n gweithgareddau.

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn rhoi yn hael o ran eu gwybodaeth, eu dylanwad a'u rhwydweithiau yn ogystal, ac mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni symud i farchnad gystadleuol i fyfyrwyr a chyllid yn y sector Addysg Uwch.

## YMESTYN YN FYD-EANG

**Steve:**

Bron ers y cychwyn cyntaf, bu Aber yn ffodus o ddenu myfyrwyr o bob cwr o'r byd, a'n gwnaeth yn fwy cosmopolitan ac yn gyfoethocach ein diwylliant. Yn eu tro, mae cenedlaethau o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cydnabod Aberystwyth fel canolfan ysgolheigaidd ragorol sy'n ddiogel ac yn groesawgar; un o brif rinweddau Aber yw enw da ei staff a'i thrigolion lleol am estyn croeso cynnes i bobl o wledydd eraill.

Bu Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn arbennig o lwcus yn cynnal cysylltiadau cryf ag alumni mewn nifer o wledydd. Yr enghraifft orau, efallai, yw Malaysia – mae cangen y Gymdeithas yn Kuala Lumpur yn fawr, yn llawn egni, yn greadigol, ac yn ymroi'n llwyr i ledaenu'r neges fod Aberystwyth yn lle gwych i astudio.

**Louise**

Profiad arbennig i ni'n dau oedd cael mynd i Malaysia ym mis Tachwedd eleni i ddathlu cyflwyno Cymrodoriaeth Anrhydeddus i gyn-fyfyriwr, EUB Tuanku Muhriz, a chael bod yn bresennol mewn cinio a drefnwyd er anrhydedd iddo gan Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr ym Malaysia. (Mwy o'r hanes yma ar dudalen 36)

Mae amrywiaeth ein cyn-fyfyrwyr yn gryfder mawr ac yn rhywbeth i'w ddathlu. Rwy'n gwybod eich bod chi wedi gwneud llawer i ddatblygu ein cysylltiadau ag alumni rhyngwladol ac mae hynny'n parhau yn flaenoriaeth uchel i'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni heddiw. Yn 2014 cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer alumni yn UDA, Tsieina, Iwerddon, Mauritius, Canada, Taiwan a Brunei. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i'r alumni sy'n gwirfoddoli i fod yn gynrychiolwyr eu gwledydd er mwyn cadw'r cysylltiad yn fyw â mwy na 10,000 o alumni mewn 90 o wledydd a chefnogi staff Aber ar ymweliadau rhyngwladol.

## DYNGARWCH

**Steve:**

Mae Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr wedi chwarae rhan sylweddol wrth godi arian dros y 100 mlynedd diwethaf. Cafwyd yr ymdrech fawr gyntaf yn 1918 pan ddechreuodd y Gymdeithas godi arian i ddathlu Jiwbilf'r Coleg yn 1922. Codwyd dros £5,000 (a oedd yn llawer o arian bryd hynny) ac ym Medi 1921 cyhoeddodd y Gymdeithas iddi benderfynu prynu'r Ystafelloedd Cynnull i'w defnyddio gan undeb y myfyrwyr, er cof am sefydlwyr y Coleg a'r myfyrwyr hynny a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cafwyd mwy o ymgyrchoedd wedi hynny a chyflwynwyd symiau sylweddol o arian i ddatblygu Campws Penglais a chodi'r Neuadd Chwaraeon gyntaf ar y safle newydd. Yn fwy diweddar, talodd y Gymdeithas am labordy iaith newydd, ac mae canghennau lleol wedi cefnogi ysgoloriaethau myfyrwyr dros nifer o flynyddoedd. Os ystyriwch chi hefyd yr hyn y mae aelodau'r Gymdeithas yn ei gyfrannu'n bersonol (yn cynnwys nifer o gymynroddion sylweddol), fe welwch fod gan y Gymdeithas reswm da dros ymfalchïo yn ei chefnogaeth i Aber.

**Louise:**

Fel elusen, mae gan y Brifysgol bwrpas moesol i godi arian er budd myfyrwyr heddiw a myfyrwyr y dyfodol a'r gymuned ehangach. Rwy'n ymwybodol o'r ddyled enfawr sydd arnom i'r bobl sy'n cyfrannu ac yn cael pleser cyson o lefel y gefnogaeth a ddangosir gan 50,000 o alumni a chyfeillion drwy ystod gynyddol o weithgareddau codi arian, yn cynnwys ein Cronfa Flynyddol sy'n codi dros £100,000 bob blwyddyn ar gyfer ysgoloriaethau, lles a phrosiectau arbennig. Eleni, profiad gwerthfawr iawn fu gweld y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, corff dylanwadol sy'n hyrwyddo a datblygu dyngarwch yng Nghymru, yn cydnabod ein traddodiad hir o gefnogaeth ddyngarol.

Diolch i haelioni ein cyn-fyfyrwyr a'n cefnogwyr, mae'r Brifysgol yn parhau i arwain mentrau i ehangu mynediad a chyfranogiad i addysg uwch yng Nghymru, gan adeiladu ar ei hanes fel un o'r sefydliadau cyntaf i dderbyn myfyrwyr benywaidd. Oherwydd cefnogaeth ddyngarol, mae gan Aber un o'r rhaglenni ysgoloriaethau a bwrsariaethau gorau yn y DG, ac mae'r rhaglen wedi ehangu eto yn ddiweddar, diolch i ddwy rodd hael.

## ANGHENION Y DYFODOL

**Steve:**

Roedd nifer ohonom yn lwcus oherwydd amseriad ein haddysg uwch, pan oedd grantiau ar gael yn hawdd. Mae myfyrwyr Aberystwyth yn y dyfodol yn haeddu'r cyfleoedd gorau posibl a chael mwynhau'r un ymdeimlad o gymuned a cholegoldeb a gafodd eu rhagflaenwyr.


Wrth raddio, bydd ein myfyrwyr presennol yn derbyn croeso cynnes gan Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Yn ei thro, bydd y Gymdeithas yn parhau i gefnogi'r Brifysgol yn yr un ffordd frwdfrydig a chynhyrchiol a fu'n gwneud ers 1892, ac, wrth wneud hynny, bydd yn helpu i sicrhau bod profiad myfyrwyr heddiw yr un mor eithriadol ag yr oedd yn y gorffennol!

**Louise:**

Wrth gydweithio â chydweithwyr ac alumni yng Nghymru, y DG ac ar draws y byd, rwy'n ymwybodol iawn mai'r un yw uchelgais, angerdd a phenderfyniad alumni a'r Brifysgol i yrru Aber yn ei blaen.

Dyma sydd wedi ein helpu i roi trefn ar ein syniadau cychwynnol ar gyfer yr ymgyrch ddyngarol fwyaf inni ei threfnu ers y dyddiau cynnar, sef datblygu'r Hen Goleg fel canolfan addysgiadol a diwylliannol ryngwladol fydd o arwyddocâd economaidd-gymdeithasol i'r gymuned ehangach.

Byddwn hefyd yn lansio nifer o fentrau gwirfoddoli a choi arian yn 2015 ac yn edrych ymlaen at ddathlu 100 mlynedd o Ddaearyddiaeth yn Aber yn 2017 a chanmlwyddiant yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf yn y byd yn 2019.

Rwy'n awyddus i glywed barn alumni ar bob agwedd ar waith y Brifysgol a dysgu sut y gallwn wella ein gweithgareddau. Mae'n hawdd iawn cysylltu â ni, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, neu drwy gwrdd â ni yn Aber, neu wrth i ni ymweld â Chaerdydd a Llundain neu fannau eraill o amgylch y byd. Mae Steve a minnau yn awyddus i sicrhau bod Aduniad Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn 2015 yn un arbennig, felly cofiwch roi gwybod i ni os ydych chi'n gallu dod atom i fwrw'r Sul ar 27 Mehefin 2015. 

## CAMPWS MAWRISIWS

**Ym mis Mawrth 2014 cyhoeddodd y Brifysgol ei huchelgais i agor campws newydd yn Mawrisiws.** Bydd y campws newydd yn dechrau addysgu myfyrwyr o Hydref 16, 2015, 143 o flynyddoedd i'r diwrnod ar ôl i'r myfyrwyr cyntaf ddechrau ar eu hastudiaethau yn Aberystwyth. Deon y campws Mawrisiws yw Dr David Poyton sydd eisoes yn adnabyddus i lawer o gyn-fyfyrwyr y Gyfraith rhyngwladol. Bydd y cyrsiau cyntaf mewn Rheolaeth a Busnes, gyda chyrtsiau yn y Gyfraith a Chyfrifiadureg yn cael eu datblygu yn y dyfodol.

Bydd myfyrwyr ar gampws Mawrisiws y Brifysgol yn mwynhau'r un statws â'u cyfoedion yn Aberystwyth, a byddant yn derbyn graddau Prifysgol Aberystwyth ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Bydd cyfle hefyd yn y dyfodol i fyfyrwyr sy'n astudio yn Aber dreulio amser ar gampws Mawrisiws os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r campws yn cael ei adeiladu yn Quartier Militaire, 12km o'r brifddinas Port Louis a bydd yn cynnwys preswylfeydd myfyrwyr. Wrth sefydlu cangen campws ym Mauritius, Prifysgol Aberystwyth fyddai'r brifysgol dramor uchaf ei safle i weithredu yn y wlad.



*Argraff artist o'r campws preswyl a gynlluniwyd yn Quartier Militaire*

## ABERYSTWYTH YMYSG GOREUON Y BYD

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymddangos ymysg 200 o sefydliadau gorau'r byd mewn 4 o'r 30 pwnc sydd wedi eu cynnwys eleni yn y QS World University Rankings.**

Mae Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y 100 uchaf, ac wedi dringo o safle yn y 150 uchaf yn 2013.

Mae Gwleidyddiaeth yn ymddangos yn y 150 uchaf, ac wedi codi o fod yn y 200 uchaf yn 2013, ac mae Amaethyddiaeth a Choedwigaeth wedi cadw ei le ymhlith y 150 uchaf.

Mae Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn ymddangos yn y 150 uchaf am y tro cyntaf.

Mae rhestr QS World University Rankings yn ôl pwnc yn cyfuno gwybodaeth o arolygon enw da academiaidd a chan gyflogwyr, a nifer y cyfeiriadau o bapurau academiaidd.

Dyweddodd yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr Athrofa Daearyddiaeth Hanes a Gwleidyddiaeth: "Rwy'n falch iawn bod ymdrechion cydweithwyr yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeare ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol wedi cael eu cydnabod, ac wedi'u canmol yn y gynghrair nodedig hon o brifysgolion o bob rhan o'r byd."

Dyweddodd yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol: "Rydym yn hynod falch o safon yr ymchwil ac addysgu yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, a bod y QS World University Rankings yn cadarnhau ein sefyllfa ymhlith y mwyaf blaenllaw yn y byd. Mae'n arbennig o dda nodi bod Aberystwyth yn dal ei thir ac yn gwella ei safle fel sefydliad pwysig yn rhyngwladol."

Ar gyfer pedwerydd rhifyn y QS World University Rankings yn ôl pwnc gwerthuswyd 2,838 o brifysgolion, rhestrwyd 689 sefydliad yn ôl safle, dadansodwyd 130 miliwn o gyfeiriadau academiaidd a gwiriwyd 10,639 o raglenni.

Cyhoeddwyd y canlyniadau ar [www.topuniversities.com](http://www.topuniversities.com).

## TACKLING CRIME IN RURAL COMMUNITIES

**The Department of Law and Criminology is working with Dyfed-Powys Police to develop a new Centre for Rural Policing and Justice.**

The project will work with universities and other partners to look at the particular needs of the rural villages and towns, and how they can be policed.

Head of the Department Professor John Williams, explains: "Rural policing is a

neglected area of research. Very often assumptions are made about crime in rural areas, not least that crime does not happen in peaceful rural Wales. Rural areas are not all idyllic and crime does take place in rural communities."

"Urban policing models do not necessarily fit neatly into rural areas, although most models of policing are based on urban areas. An evidence base is needed to ensure that rurality is factored into policing models.

"The Centre will have an important role to play in providing such evidence and the Department looks forward to working with it in raising the profile of rural policing."

Full story: [www.aber.ac.uk/en/news/archive/2014/01/title-145241-en.html](http://www.aber.ac.uk/en/news/archive/2014/01/title-145241-en.html)



*Yr Athro John Williams*

## CAN'T FIND THIS IN THE FILE



## MAPIO NEWID HINSAWDD

**Yn ystod y ganrif nesaf bydd angen i blanhigion ac anifeiliaid addasu neu symud er mwyn dod o hyd i'w hinsawdd ddelfrydol mewn ymateb i gynhesu byd-eang.**

Mewn ymchwil a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Nature, mae'r academydd o Brifysgol Aberystwyth, Dr Pippa Moore, ynghyd â thim rhyngwladol o wyddonwyr yn cyhoeddi mapiau byd-eang sy'n dangos pa mor gyflym ac i ba gyfeiriad mae hinsoddau lleol yn symud.

Mae'r astudiaeth newydd hon yn cyfeirio at ffordd symlach o edrych ar newidiadau yn yr hinsawdd a'u heffeithiau tebygol ar fiamrywiaeth.


"Mae'r mapiau yn dangos i ble y bydd yn rhaid i blanhigion ac anifeiliaid symud er mwyn parhau o fewn eu cilfachau thermol presennol a thrwy hynny ddilyn newid yn yr hinsawdd," meddai Dr Pippa Moore o IBERS.

"Ar draws y Derynas Gyfunol, fel yng Nghymru, mae rhywogaethau eisoes yn ymateb i dymheredd cynhesach drwy ymestyn eu hardaloedd. Mae ein canlyniadau yn awgrymu y bydd cilfachau thermol yn ffurfio mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, arfordir Gogledd Cymru a Bae Lerpwl gyda chynnydd tymor byr o bosib mewn bioamrywiaeth rhywogaethau sydd wedi mudo yn sgîl newid hinsawdd. Ar y llaw arall, bydd cilfachau thermol mewn ardaloedd megis Môr y Gogledd yn diflannu gan olygu y bydd rhaid i rywogaethau sy'n sensitif i hinsawdd sy'n cynhesu symud neu addasu, gan arwain o bosibl at leihau bioamrywiaeth ac adrefnu ecosystemau," dywedodd Dr Moore.


Gallwch weld beth sy'n digwydd yn eich iard gefn drwy lawrlwytho ffeiliau Google Earth o'r wefan:

[www.sams.ac.uk/michael-burrows](http://www.sams.ac.uk/michael-burrows)

*Map o Ewrop yn dangos pa mor gyflym ac i ba gyfeiriad y mae hinsoddau lleol yn symud*



## TYMHEREDDUCHELYNEFFEITHIO AR FFRWYTHLONDEB



*Cnewyllyn cell sy'n cael meiosis ar dymheredd uchel*

Mae gwyddonwyr yn IBERS Prifysgol Aberystwyth wedi canfod protein sy'n hanfodol ar gyfer ffrwythlondeb gwrywaidd mewn planhigion sy'n tyfu mewn tymheredd uchel.

Gall tymheredd organau atgenhedlu mewn dynion gael effaith andwyol ar ffrwythlondeb ac yn yr

astudiaeth hon, mae'n ymddangos fod yr un peth yn wir am blanhigion. Gall newid cymharol fychan mewn tymheredd effeithio'n sylweddol ar allu llawer o gnydau i gynhyrchu hadau.

Gallai'r ymchwil o bosibl gael effaith sylweddol yn y ras i ddarparu digon o fwyd ar gyfer poblogaeth sy'n tyfu yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd.

Stori llawn: [www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/02/title-145848-cy.html](http://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/02/title-145848-cy.html)

## PŴER Y PLACEBO


**Dangosodd Dr Chris Beedie, Darlennydd mewn Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn Athrofa'r Gwyddorau Dynol ym Mhrifysgol Aberystwyth sut y gall tabledi plasebo wella perfformiad ym myd chwaraeon ar raglen wyddoniaeth y BBC, Horizon; darlledwyd The Power of the Placebo ar BBC 2 ar 17 Chwefror.**



*Dr Chris Beedie*

Mae ymchwil Dr Beedie yn archwilio rôl emosiynau a chredoau mewn ymddygiad dynol. "Mae ein canfyddiadau ymchwil yn awgrymu y gall placebo gyflawni lefelau perfformiad tebyg i'r rhai sy'n deillio o gyffuriau," meddai Dr Beedie, "Yn fyr, mae'r meddwl yn chwarae gymaint â'r corff pan fydd athletwr yn defnyddio cyffuriau."

Stori llawn: [www.aber.ac.uk/en/news/archive/2014/02/title-146509-en.html](http://www.aber.ac.uk/en/news/archive/2014/02/title-146509-en.html)



DYNAS  
DADENI'R  
BYD

*gan Dr Helena Grice*

*Ddwywaith ym mis Mai 2014 roedd Dr Maya Angelou – bardd llawryfog yr UDA, enillydd Medal Lincoln, enillydd gwobr Grammy deirgwaith, cyn-ymgyrchydd hawliau sifil, dynes dadeni'r byd ('global renaissance woman' yn ei geiriau ei hun) ac awdur mwy na 30 o lyfrau poblogaidd – ar dudalennau blaen y papurau newydd. Ar 28 Mai 2014, cyboeddodd ei mab Guy drwy ei gwefan ei bod wedi marw yn ei chwsgr yn ei chartref yn 86 mlwydd oed, yn dilyn salwch byr. Ymblith y rhai a dalodd deyrnged iddi oedd yr Arlywyddion Obama a Clinton, y cyflwynydd teledu Oprah Winfrey, yr awduron Toni Morrison a Wole Soyinka, a'r gantores gospel Shirley Caesar. Cafodd ei hangladd ei ffrydio'n fyw ledled y byd, a'r Arlywydd Clinton a Michelle Obama ymblith y galarwyr ynddo.*

**E**nilodd Maya ei streipiau gwleidyddol yn nyddiau gwyllt brwydrau Hawliau Sifil yn ne'r Unol Daleithiau yn y 1960au, a hynny ochr yn ochr â dau gawr y mudiad hawliau sifil yn yr UDA. Bu hi'n cynorthwyo Malcolm X i sefydlu ei fudiad ymgyrchu Organization of African American Unity yn 1964, a gweithiodd gydag ef hyd nes iddo gael ei lofruddio. Bu hefyd yn gydlynnydd y gogledd i Martin Luther King a'i fudiad ymgyrchu ef Southern Christian Leadership Conference, hyd nes y cafodd yntau ei lofruddio yn 1968. Gorymdeithiodd hi ochr yn ochr â'r ddau ohonynt. Roedd ei hargyhoeddiad gwleidyddol wedi para gydol ei hoes, yn ogystal â'i hymrwymiad absoliwt i ymgyrchu, ei chred barhaus yng ngrym trawsnewidiol straeon a'i gwytnwch yn sgil adfyd, boed hwnnw'n bersonol neu'n wleidyddol. Mae cerdd rymus ac ysbrydoledig Maya, Still I Rise, yn nodweddiadol wrth fynegi'r credo hwn gan hefyd geisio cynnig ymgeledd a chryfder i'r darllenwyr. Roedd hi'n fardd dawnus a chynhyrchiol yn ogystal ag yn hunangofiannydd. Darllenodd Maya ei cherdd On the Pulse of Morning ar achlysur sefydlu'r Arlywydd Bill Clinton yn 1993, cerdd yr oedd hi wedi'i chyfansoddi'n arbennig ar gyfer y digwyddiad.

Mae hi'n fwyaf adnabyddus, wrth gwrs am ei hunangofiant aml-gyfrwl, sy'n cynnwys y gyfrwl gyntaf rhyfeddol, I Know Why the Caged Bird Sings (1970). Cafodd y gyfrwl hon ei hysgrifennu gydag anogaeth ei ffrind a'i mentor llenyddol, James Baldwin (awdur ei hunangofiant ffuglennol ei hunan Go Tell It on the Mountain) ac mae'n stori sy'n sôn am ddod i oed mewn ardal giaidd o hiliol yn ne'r UDA cyn y Rhyfel, sef yn Stamps, Arkansas. Yn ei naratif mae Angelou yn ymdrin â phynciau anodd sy'n cynnwys hiliaeth, tlodi, cam-drin rhywiol, rhywioldeb a salwch hir. Arhosodd Caged Bird ar restr gwerthwyr gorau'r New York Times am fwy na dwy flynedd ar ôl ei gyhoeddi gyntaf, ac mae wedi'i ailargraffu 52 gwaith (sawl argraffiad yn hanner miliwn o gopiâu ar yr un pryd), a chafodd ei enwi ar restr y cylchgrawn Time yn 2011 o'r 100 llyfr mwyaf dylanwadol. Mae sawl cyfrwl o'i heiddo, yn enwedig Caged Bird a Gather Together in My Name (1974), wedi cael eu defnyddio gan addysgwyr a gweithwyr cymdeithasol yr Unol Daleithiau i addysgu strategaethau adferiad a gwytnwch i blant sydd wedi dioddef cam-drin hiliol neu rywiol. Y diweddaraf yn ei chylch hunangofiant oedd Mom and Me and Mom, a gyhoeddwyd yn 2013, a Maya yma wedi dychwelyd at y thema o fod yn fam, thema y soniwyd amdani gyntaf yn Caged Bird.

Mae pob un o'r saith cyfrwl yn cyfateb yn fras i ddegawd o fywyd Maya. Mae'n anodd peidio â meddwl bod cwblhau ei chylch stori Mom and Me and Mom flwyddyn cyn ei marwolaeth yn arwyddocaol rywsut, gan fod y llyfrau yn wirioneddol wedi bod yn waith ei bywyd, yn ogystal â'i bywyd mewn gwaith. Roedd ganddi allu rhyfeddol i oresgyn a symud ymlaen o'r nifer fawr o ddigwyddiadau trawmatig a oedd wedi britho ei bywyd – cael ei threisio yn saith oed gan y dyn a fyddai'n fuan yn llys-dad iddi, yr encilio trawmatig i fudandod, blynyddoedd o ymlafnio fel mam sengl, cyfnod yn butain – profiadau sydd wedi'u nodweddu gan gyfres o newid enw: ei geni yn "Marguerite Johnson" ond yn cael ei galw yn "Ritie", wedyn yn "My" ac yna yn y diwedd yn "Maya".

Dan law awen Maya Angelou, caiff heriau bywyd eu trawsnewid i fod yn fomentau o lenyddiaeth hudol. Pan ofynnais iddi yng Ngŵyl y Gelli yn 2002 sut yr oedd hi'n teimlo,

roedd ei hateb yn hollol nodweddiadol o'r persbectif cadarnhaol hwn, ac yn nodweddiadol ohoni fel bardd tragwydd. Eisoes yn fenyw mewn gwth o oedran, plygodd ei phen i un ochr ac atebodd braidd yn wylaidd: "I'm fine as wine in the summertime".

Trafodais effaith Maya Angelou gyda chyn-fyfyriwr i mi, Jessica Shivji, a raddiodd gyda BA dosbarth cyntaf mewn Llenyddiaeth Saesneg yn 2012. Dyma atgofion Jess: "Roedd fy nghysylltiad cyntaf â Dr Maya Angelou yn ddamwain hapus; prynodd un o fy ffrindiau gorau gopi o I Know Why the Caged Bird Sings i mi ar fy mhen-blwydd yn 20 oed. Treuliais haf 2011 yn teithio yn ôl ac ymlaen i Aberystwyth gydag Angelou yn fy mag, yn methu â stopio darllen ei stori ddiddorol. Erbyn i mi gyrraedd modiwl Dr Helena Grice "Post-war Women's Life Writing", roeddwn wedi fy nhrwytho yng nghyfrwl gyntaf bywyd Angelou, ac eisoes yn bwriadu ysgrifennu fy nhraethawd hir amdani".

Rwyf wedi dysgu geiriau Angelou yma yn Aberystwyth ers i mi gael fy mhenodi yn 1998. Mae ei gwaith yn bwnc sy'n dragwyddol boblogaidd, ond yn fwy na hynny, yn aml mae'r profiad o ddarllen Caged Bird yn cael effaith fawr iawn ar y bobl ifanc sy'n dod ar ei draws am y tro cyntaf. Yn ogystal â bod yn ysbrydoledig, mae myfyrwyr ar adegau wedi dweud wrthyf fod darllen ei stori wedi bod yn bersonol therapiwtig. Gall darllen llyfr fel Caged Bird

feithrin ymdeimlad cryfach o hunanhananiaeth, neu gall hyd yn oed brocio unigolyn i oresgyn eu hanawsterau seicolegol neu eu brwydrau personol eu hunain. Dyma Jess eto:

"Dydi dweud bod Angelou wedi fy ysbrydoli ddim yn dweud ei hanner hi; mae meddwl am ei dyfalbarhad yn sgil ddiodeff tloidi, cam-driniaeth rywiol a hiliaeth ac yna codi i fod yn llais cenhedlaeth, bob amser yn gwneud i mi deimlo'n hynod fach. Ar lefel bersonol iawn roedd anallu Angelou yn ifanc i weld ei hun yn brydferth oherwydd lliw ei chroen yn rhywbeth a oedd yn taro tant â'r ferch gymysg ei hil yr arferwn innau fod, yn ferch a oedd wedi'i magu ymhell o berfeddion De yr Unol Daleithiau, ond yn un a oedd yn gallu adnabod y dieithrio a'r boen yn naratif merch arall".

Felly, trueni o'r mwyaf yw y bydd y newidiadau a orfodwyd yn ddiweddar ar feysydd llafur ysgolion nawr yn gadael I Know Why The Caged Bird Sings allan. Ddiwrnod union ar ôl y cyhoeddiad am ei marwolaeth y mis Mai hwnnw, ailymddangosodd Maya Angelou yn y papurau newydd cenedlaethol pan adroddwyd ar 29 Mai y bydd Maya Angelou ynghyd â Harper Lee (awdur To Kill a Mockingbird) a John Steinbeck (awdur Of Mice and Men) i gael eu gollwng o feysydd llafur TGAU Saesneg. Mae hwn yn newid sydd wedi'i gondemnio eang ac yn ymdrech yn ôl pob sôn gan yr ysgrifennydd addysg Michael Gove i seisnigo astudiaethau llenyddol mewn ysgolion. Ymhlith y nifer o ffigyrau amlwg a leisiodd eu siom am hyn oedd Toni Morrison, sydd hefyd yn awdur Affricanaidd Americanaidd ac sydd wedi ennill y Wobr Nobel, gan iddi ddweud wrth gynulleidfa yng Ngŵyl y Gelli ar yr un diwrnod ei bod yn disgwyl i Mr Gove ddifaru ei benderfyniad. Esboniodd Jess pam ei bod yn credu ei bod mor werthfawr i bobl ifanc ddarllen Caged Bird:

"Yn y pen draw, mae stori Dr Maya Angelou yn un am oreesi. Mae ei ffydd ddiwyro mewn dynoliaeth ar ôl cymaint o ddiodeffaint yn wers y byddai'n beth doeth i'r mwyaf breintiedig yn ein plith ei chofio a ninnau mor aml yn hel meddyliu am y pethau negyddol yn ein bywydau. Dylai gwytnwch a doethineb rhyfeddol Angelou aros ar y cwrcwlmw am genedlaethau i ddod er mwyn ein hysbrydoli a'n darostwng ni oll, a'n hatgoffa ni pa mor lwcus yr ydyn ni a'n hatgoffa o'r hyn y gallem fod".

Ni fyddai dadleuon o'r fath yn syndod i Maya ei hun fodd bynnag, gan fod Caged Bird wedi bod ar y brig fel un o'r llyfrau sydd wedi'i wahardd fwyaf yn yr Unol Daleithiau. Mae'r cwynion wedi ymwneud yn bennaf â'r portreadu eofn yn y llyfr o gam-drin rhywiol ac, weithiau, yr amgyffrediad fod y llyfr yn bleidiol i gyfunrywioldeb. Efallai y dylem adael i Dr Angelou gael y gair olaf, mewn sylw a wnaeth yn 2011:

"Mae bob amser yn drueni gen i fod pobl yn gwahardd fy llyfrau... sawl gwaith mae fy llyfrau yn cael eu gwahardd gan bobl sydd byth yn darllen dwy frawddeg. Rwy'n teimlo trueni dros y person ifanc na chaiff byth eu darllen".

I'm fine as wine in  
the summertime

Mae Dr Helena Grice yn Uwch Ddarlithydd yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Ymhlith ei diddordebau ymchwil y mae llenyddiaethau Americanaidd ethnig, ysgrifennu gan fenywod, cofiannau a hunangofiannau, a theori ffeministaidd. Mae Helena ar Fwrdd Golygyddol *Textual Practice a Minerva: Women and War*, ac yn aelod o Fwrdd Cyngori *Melus*. Mae hi'n adolygydd cyson ar gyfer *Journal of American Studies*, *English a Melus* ac wedi trafod ei gwaith, drwy wahoddiad, ar y rhaglen *Woman's Hour* ar Radio 4.



# TAITH OFOD ABERYSTWYTH

**B**u Dr Mark Neal, arbennigwr roboteg yn yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg, yn helpu disgyblion o Ysgol Gymraeg Aberystwyth i lansio eu taith ofod eu hunain o'r maes chwarae ym mis Mehefin 2014.

Roedd y dechnoleg ar gyfer y daith a ddatblygwyd gan Dr Neal yn cynnwys balŵn tywydd llawn heliwm gyda chapsiwl polystyren yn dal dau gamera, dau olrheinwyr GPS a chyfrifiadur bach a wnaed â llaw i fesur uchder, tymheredd a llwybr y balŵn a throsglwyddo'r wybodaeth yn ôl i'r ddaear drwy ddolen di-wifr.

Gan gyrraedd uchder o dros 30,000 metr, darparodd yr offer ddelweddau treigl amser trawiadol, gan i'r balŵn ddringo i ymyl pellaf atmosffer y ddaear.



© Mark Neal, Prifysgol Aberystwyth

## AMBA YN ACHREDU GRADDAU MEISTER MEWN RHEOLAETH

Mae wyth rhaglen gradd Meistr mewn Rheolaeth (MSc) ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi eu hachredu'n llawn gan AMBA, y Gymdeithas MBA. A further four SMB Masters programmes at the University have had their accreditation renewed. Mae pedair rhaglen Meistr arall yn y Brifysgol wedi cael eu hachrediad wedi eu hadnewyddu.



Esboniodd yr Athro Steven McGuire, Cyfarwyddwr Ysgol Rheolaeth a Busnes yn Aberystwyth; "Gyda chymaint o raddau MSc a MBA ar gael, mae ansawdd y cyrsiau yn hanfodol. Mae'r anrhydedd AMBA yn cynrychioli stamp o ansawdd i'r Ysgol, y Brifysgol, ei rhaglenni, addysgu, cyfleusterau ac ymchwil. Golyga'r achrediad hwn fod graddedigion yn derbyn cymhwyster sy'n cael ei gydnabod rhyngwladol, sy'n gwella gwerth eu gradd a'u dyfodol fel rheolwyr ac ymarferwyr proffesiynol."

Mae achrediad AMBA yn cynrychioli'r safon uchaf o gyflawniad mewn addysg busnes ôl-raddedig.

Derbyniodd yr Ysgol ennill sawl canmoliaeth gan banel AMBA, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd ac ymroddiad y staff academaidd a gweinyddol, y cyfleusterau sydd ar gampws Llanbadarn. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y panel hefyd am y buddsoddiad sylweddol a wnaed yn y gefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol ac offer addysgu newydd a sefydlu bwrdd ymgynghorol o gynfyfyrwyr llwyddiannus.

Mae AMBA yn achredu rhaglenni mewn dros 200 o ysgolion busnes mewn mwy na 80 o wledydd. Mae achrediad AMBA yn cynrychioli y safon uchaf o gyflawniad mewn addysg busnes ôl-raddedig, ac yn rhoi hygredd a statws rhyngwladol ysgolion busnes.

Aberystwyth yw'r unig Brifysgol yng Nghymru i gael achrediad a dderbyniwyd.

## BODDHAD UCHEL

Mae'r ymchwil diweddaraf gan i-Graduate yn dangos bod Prifysgol Aberystwyth yn mwynhau cyfraddau boddhad uchel iawn ymysg ein myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd.

Rhestrwyd Prifysgol Aberystwyth yn gyntaf yn y byd gan y myfyrwyr am "Rheoli ymchwil", yn 7fed yn y byd am "tiwtoriaid personol" (95.4%), 4ydd yn y DG am "gymorth ariannol" ac ymysg y 10 uchaf yn y byd am "ddiogelwch".





# RHYDDID Y RHYNGRUYD

– BETH YDYM YN BRWYDRO DROSTO?

*gan Dr Madeline Carr*

*Ddwy flynedd yn ôl i'r haf hwn, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig fod Rhyddid Rhyngrwyd yn hawl dynol cyffredinol. Mae hefyd yn elfen bwysig o bolisiau tramor yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig, Awstralia, Canada a'r UE. Er gwaethaf hyn, mae cryn dipyn o drafodaeth yn parhau am Ryddid y Rhyngrwyd yn fyd-eang – ac nid yw mor syml â gwrthwynebiadau gan wledydd awdurdodaidd lle mae'r rhyddid i lefaru wedi'i gyfyngu. Yn wir, mae ystyried Rhyddid y Rhyngrwyd yn codi nifer fawr o gwestiynau diddorol a chymbleth yngbhlch sut yr ydym yn credu y dylai'r Rhyngrwyd gael ei hymgorffori yn ein bywydau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a phreifat.*

## RHYDDID I WNEUD BETH, YN UNION?

**M**ae Rhyddid y Rhyngwrwd yn un o'r termau hynny a all fod yn eithaf anodd i'w drafod yn feirniadol. Fel 'heddwch' neu 'ddemocratiaeth', mae'n anodd dychmygu beth allai fod o'i le neu beth ei gellid ei herio ynghylch Rhyddid y Rhyngwrwd. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'r term yn golygu pethau gwahanol yn dibynnu ar bwy sy'n ei ddefnyddio. Yn gyffredinol, pan fydd pobl yn siarad am Ryddid y Rhyngwrwd, maent yn aml yn golygu'r hawl i gael mynediad i wybodaeth heb ei sensro na'i hidlo ar y Rhyngwrwd a'r hawl i wneud hynny yn breifat – heb wyladwriaeth y llywodraeth, o leiaf (ymddengys fod casglu corfforaethol ar ein data fel petai'n llai o bryder).

Pan fydd llywodraethau yn cyfeirio at Ryddid y Rhyngwrwd yn eu dogfennau polisi tramor, maent yn tueddu i ganolbwyntio ar y ffyrdd y gall y Rhyngwrwd hybu mwy o ryddid gwleidyddol a thryloywder mewn gwladwriaethau sy'n llai democrataidd ac agored na hwy. Maent yn rhoi pwyslais ar yr elfen hawliau dynol, ond maent hefyd yn sylfaenol yn ei weld fel mecanwaith i drawsnewid gwladwriaethau yn wleidyddol o'r gwaelod i fyny drwy rymuso pobl gyffredin. Yn amlwg mae'r dehongliad hwn yn wynebu rhywfaint o wrthwynebiad gan lywodraethau sy'n dehongli hyrwyddo ar Ryddid y Rhyngwrwd fel busnesu yn eu gwleidyddiaeth fewnol.

Mae dehongliad y Cenhedloedd Unedig ei hun yn eithaf cyfyngedig. Mae'n diffinio Rhyddid y Rhyngwrwd fel cadw'r un hawliau ar-lein ag a geir all-lein. Felly, os yw rhai mathau o fynegiant rhydd neu brotest wleidyddol yn hawl yn y byd ffisegol, yna mae'n ddyletswydd ar wladwriaethau i sicrhau y gall eu dinasyddion wneud hynny ar-lein yn ogystal. Yr awgrym yma yw os nad yw pobl yn cael rhyddid mynegiant all-lein, yna bod cyfyngiad yn rhan o broblem ehangach y mae angen mynd i'r afael â hi - efallai ar wahân i dechnoleg y Rhyngwrwd.

Yn ogystal, mae dehongliad y Cenhedloedd Unedig o Ryddid y Rhyngwrwd yn mynnu bod yn rhaid i lywodraethau hyrwyddo mynediad iddi. Mae hyn wedi bod yn ddadleuol oherwydd mynna rhai pobl fod mynediad i'r Rhyngwrwd fel hawl dynol yn dod ymhell ar ôl mynediad at angenrheidiau eraill megis dŵr glân a gofal meddygol. Wrth gwrs ei fod, ond mae gan fynediad i'r Rhyngwrwd oblygiadau i gynifer o hawliau dynol eraill fel addysg ac ymwybyddiaeth wleidyddol sy'n golygu ei fod yn fwy arwyddocaol nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf.

## OND ARHOSWCH: MAE'N GYMHLETH...

Hyd yn oed o ganiatáu ar gyfer y syniadau gwahanol ynghylch yr hyn y mae Rhyddid y Rhyngwrwd yn ei olygu, mae ei weithredu a'i roi ar waith yn anodd. I raddau helaeth, mae hyn oherwydd bod y byd wedi'i drefnu ar sail gwledydd sydd (fel arfer) â ffiniau clir. Cynsail canolog cysylltiadau rhyngwladol yw bod llywodraeth gwlad â ffin benodol yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n gyfreithiol neu'r hyn a ganiateir o fewn y ffiniau hynny, ac oni bai am amgylchiadau eithriadol (fel hil-laddiad), nid yw gwledydd eraill yn ymyrryd â'r penderfyniadau a'r dyfarniadau hynny. Yn ystod

globaleiddio mae'r symud a'r rhyngweithio ar draws ffiniau wedi dwysáu'n arw, ac mae'r gwahaniaethau clir hynny wedi dod yn fwyfwy aneglur.

Roedd yn rhaid cael cryn gydweithredu rhyngwladol a chydlynu rhwng llywodraethau o ran technolegau cyfathrebu eraill megis y system ffôn. Mae'n rhaid i bawb gytuno, er enghraifft, mai +44 fydd y cod deialu rhyngwladol ar gyfer y Deyrnas Unedig – ac nid ar gyfer unrhyw wlad arall. Fodd bynnag, yn wahanol i'r ffôn, y cynnwys ynddo'i hun yw'r wir broblem i Ryddid y Rhyngwrwd. Mae'r cynnwys yn gryn broblem i syniadau am Ryngrwrd fyd-eang a'r syniad hwn o fyw o fewn ffin diriogaethol. Mae rhai gwledydd yn gwahardd cynnwys penodol megis pornograffi tramgwyddus, llenyddiaeth derfysgol, cerddoriaeth wedi'i hatgynhyrchu heb drwydded neu memorabilia Natsïaidd. Mae eraill yn cyfyngu ar gynnwys a allai hyrwyddo tensiynau gwleidyddol, crefyddol neu ethnig. Y peth yw, fodd bynnag, yw bod gan wahanol gymunedau gwleidyddol syniadau hollol wahanol ynghylch pa fath o gynnwys y dylid cyfyngu arno a'i reoleiddio. Ac i ryw raddau o leiaf, rydym yn disgwyl gallu gwneud y penderfyniadau hynny a chael ein llywodraeth i'w gorfodi.

I fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau ar-lein megis chwilotwyr (Google, Microsoft, Yahoo), safleoedd rhwydweithio cymdeithasol (Facebook, Twitter, YouTube) a storio (Dropbox), mae cadw at ddeddfau cenedlaethol ar un pryd â chynnal egwyddorion Rhyddid y Rhyngwrwd yn elfen hanfodol ond anodd iawn ar eu busnes. Mae'r cymhlethdod hwn yn aml yn cael ei gwtogi yn y cyfryngau i ddau bosibilrwydd syml yn y dyfodol: un Rhyngwrwd unedig sy'n cynnig yr un profiad i bob defnyddiwr waeth pa wlad y maent yn byw ynddi neu Ryngrwrd dameidiog neu wedi'i 'balcaneiddio' sy'n benodol i bob gwlad. Yn amlwg, y cyntaf sy'n cael ei ffafrio gan fusnesau gan ei fod yn golygu peidio â gorfod teilwra eu gwasanaethau wrth iddynt groesi ffiniau – a hwnnw'n waith drud.

Ond mae'n mynd yn ddyfnach na hynny – mae cymryd rhan mewn sensoriaeth yn ergyd i enw da'r cwmnïau hyn ac yn tansellio eu rhinweddau o fod yn 'agored, libertaraidd ac am ddim'. Felly, mewn ffordd, maent yn cael eu dal yng nghanol ein hamwysedd ni ynglŷn â sut yr ydym am i wybodaeth a phreifatrwydd gael eu llywodraethu ar-lein. Ar adegau mae'r cwmnïau hyn yn wynebu dewis rhwng torri cyfraith y wlad y maent yn gweithredu ynddi neu dorri disgwyliadau nifer fawr o'u cwsmeriaid sy'n disgwyl iddynt gynnal egwyddorion Rhyddid y Rhyngwrwd ymhle bynnag y maent yn gwerthu eu gwasanaethau.

Mae chwilio'r ffordd rhwng y ddau eithaf hyn yn waith beunyddiol i ymgyrchwyr hawliau dynol, darparwyr gwasanaeth ar-lein, cyfreithwyr, academyddion, corfforaethau amlwladol, llywodraethau a chyrrff anllywodraethol. Ond dylai hefyd fod yn broses y mae pobl gyffredin yn rhan ohoni. O ystyried bod goblygiadau'r Rhyngwrwd yn treiddio mor ddwfn i'n bodolaeth bersonol, mae'n bwysig iawn bod cymdeithas sifil yn chwarae rôl fwy pendant a gweithredol wrth benderfynu sut y bydd y dechnoleg hon yn datblygu ac yn cael ei hintegreiddio yn y dyfodol.



## FFORWM LLYWODRAETHU RHYNGRWDYD Y CENHEDLOEDD UNEDIG YN ABERYSTWYTH

Un o'r cyfleoedd allweddol i drafod y carfanau cystadleuol hyn sydd aml yn gwrthdaro yw Fforwm Llywodraethu Rhynggrwyd y Cenhedloedd Unedig (UNIGF) – sydd bellach yn ei nawfed flwyddyn. Mae Fforwm Llywodraethu Rhynggrwyd y Cenhedloedd Unedig yn gyfarfod blynyddol sy'n dwyn ynghyd wneuthurwyr polisi, academyddion, cynrychiolwyr cymdeithas sifil, y sector preifat a'r gymuned dechnegol i drafod sut y dylai'r Rhynggrwyd gael ei llywodraethu a'i datblygu. Yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, fe'i hystyriwn yn hanfodol ein bod yn darparu addysg sy'n archwilio'r materion hyn yn llawn ac mewn ffordd sy'n galluogi myfyrwyr i herio sefyllfaoedd derbyniol a meddwl yn feirniadol amdanynt. Fel rhan o'n rhaglen ddysgu, rydym wedi sefydlu Prifysgol Aberystwyth yn 'ganolfan o bell' i'r cyfarfodydd hyn yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Drwy ffrydio byw ar y we, mae myfyrwyr wedi gallu rhyngweithio â'r cyfranogwyr ac aelodau'r panel yn y cyfarfod byd-eang pwysig hwn trwy wrando yn fyw ac yn bwysicach efallai, trwy roi cwestiynau ger bron y panel – yn union fel pe baent yn yr un ystafell.

I bobl sy'n astudio cymhlethdodau llywodraethu'r rhynggrwyd yn fyd-eang, nid oes llawer o brofiadau sy'n gallu amlygu'r agendâu sy'n cystadlu, y dadleuon sydd ohoni a'r manwro gwleidyddol, mor rymus â chymryd rhan yn weithredol mewn cyfarfod fel hyn. Drwy integreiddio'r cyfarfod i'n rhaglen ddysgu rydym wedi gallu dangos i'r myfyrwyr y posibilïadau sydd iddynt gymryd rhan yn llawn yn y sgwrs fyd-eang hynod o bwysig hon. Yn hytrach na darllen yn oddefol am faterion megis rhyddid, llywodraethu a diogelwch y Rhynggrwyd, mae myfyrwyr sy'n ymwneud â chanolfan o bell fforwm UNIGF yn datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb drwy gymryd rhan ynddi. Rydym yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o bobl a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth, yn y sector preifat ac mewn sefydliadau anllywodraethol ac a fydd yn cyfrannu at y ffordd y mae'r Rhynggrwyd yn tyfu ac yn datblygu. Mae UNIGF wedi bod yn ffordd hynod effeithiol o ennyn diddordeb myfyrwyr yn y pwnc ac o ymestyn eu dealltwriaeth a'u dadansoddiad o'r materion sy'n ymwneud â Rhyddid y Rhynggrwyd.

## FELLY, BETH YDYN NI'N BRWYDRO DROSTO?

Er bod technoleg yn amlwg yn sylfaenol i ddadleuon am y Rhynggrwyd, mae deinameg pŵer enfawr ar waith yn y dadleuon gwleidyddol byd-eang hyn ynghylch beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol ar y Rhynggrwyd, ynghylch y ffordd y mae llywodraethau yn llunio technoleg y Rhynggrwyd i'w dibenion eu hunain ac ynghylch y graddau y mae gwleidydd sydd â safbwyntiau gwahanol am y cynnwys, yn enwedig, yn gorfod addasu i'r rheiny sydd â'r pŵer i osod yr agenda ynghylch hyn. Pan fydd llywodraethau yn integreiddio Rhyddid y Rhynggrwyd i'w polisiâu tramor, maent yn gwneud hynny yn rhannol o barch tuag at hawliau dynol cyffredinol. Ond mae'n amhosibl anwybyddu'r manteision hynod wleidyddol a ddaw o wthio safbwyntiau'r Gorllewin ynghylch mynediad at wybodaeth, cynnwys, preifatrwydd a diogelwch, ar wladwriaethau sydd â strwythurau gwleidyddol, sefydliadau a phrosesau gwahanol.

Felly, pan fydd llywodraethau yn gwrthwynebu rhai elfennau o Ryddid y Rhynggrwyd, nid yw bob amser mor syml â cham-drin hawliau dynol. Er enghraifft, drwy wahardd cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yr UDA, megis Facebook ac YouTube, mae Tsieina wedi creu gofod ar gyfer diwydiant cyfryngau cymdeithasol Tsieinaidd hynod lwyddiannus. Mae TenCent, sy'n darparu cyfres o wasanaethau yn Tsieina ac yn gynyddol mewn gwleidydd eraill, erbyn hyn yn werth bron cymaint â Facebook yn fyd-eang. O ran buddiannau Tsieina, mae'n rhaid ystyried hyn yn ganlyniad da iawn a darganfu arolwg Pew diweddar nad yw'r mwyafrif llethol o ddinasyddion Tsieina yn galaru cael gwared ar Google o'u byd ar-lein.

Yn y bôn, mae'n rhaid i ni fod yn barod i edrych yn fanwl ar y ffactorau sy'n achosi gwrthdaro o ran Rhyddid y Rhynggrwyd a bod yn barod i'w trafod yn gytbwys. Mae hyd yn oed y defnydd o'r gair 'rhyddid' yma yn ddadlennol. Mewn gwirionedd, nid mater syml o ryddid ydyw hyn, ond mae'n ymwneud â diwyllïannau, gwerthoedd, normau a syniadau yn mynd benben â'i gilydd ac mae'n fater a fydd yn ffurfio sawl agwedd ar ein bywydau gryn dipyn yn y degawd i ddod. Mae'n bwysig sylweddoli nad pethau wedi'u 'dyfeisio' a'u gosod yn eu lle yw technoleg, llywodraethu a diogelwch y Rhynggrwyd ond yn hytrach maent oll yn brosesau ac arferion sy'n cyson newid a datblygu. Mae'r Rhynggrwyd yn waith ar y gweill, ac mae'n ddyletswydd arnom ni ein hunain i ddod i wybod am y penderfyniadau a'r arferion sy'n cael eu gosod yn eu lle nawr a mynd i'r afael â'r rheiny – a'r cam cyntaf yw bod yn glir ynghylch pa fath o Rhynggrwyd y dymunwn ei chael. ■



Mae Dr Madeline Carr yn Ddarlithydd Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Dimensiwn Seiber. Cyn hyn, bu'n dysgu mewn prifysgolion yn Awstralia a Siapan. Bu Madeline yn gwneud gwaith ymgynghorol ar faterion sieiberddiogelwch a thechnoleg rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer Rheolaeth Cyd-Fyddinoedd Byddin Awstralia, Seneddwr Awstralia a nifer o sefydliadau'r sector preifat. Mae Madeline yn cydlynu'r Ganolfan Ymchwil Cysylltedd Seiber yn Aberystwyth, a sefydlwyd i fod yn ganolbwynt gwaith ymchwil i bynciau yn ymwneud â Gwleidyddiaeth Ryngwladol a thechnoleg newydd.



# TARO DWRM:

PEIDIWCH Â CHYFFWRDD  
EIN DWYLO MARWOL...

*gan Dave Whitworth  
a Sara Mela*

*...neu sut y bu i  
un astudiaeth  
ymchwil fechan  
o drosglwyddiad  
clefyd droi'n  
feiol*

## PRYDER YNGLŶN Â CHLEFYDAU

**M**ae clefydau trosglwyddadwy megis fflw, HIV, Ebola ac arch-fygau ysbytai yn sialens fyd-eang sylweddol. Yn y maes gofal iechyd mae ymdrechion ar droed i ddifa'r cyfryngau heintus ble bynnag mae hynny'n bosibl ac i leihau eu lledaeniad, er enghraifft drwy ddiheintiad, nyrsio ataliol a hylendid dwylo da. Ond mae clefydau trosglwyddadwy yn bwysig hefyd mewn cymdeithas – mae clefydau a geir yn y gymuned yn lladd >60,000 o bobl yn Unol Daleithiau America yn unig bob blwyddyn. Fodd bynnag, er gwaethaf y risg gynhenid o gael ein heintio, rydyn ni bob amser o'n gwirfodd yn lledaenu germau pobl eraill dros ein dwylo i gyd bob tro rydyn ni'n ysgwyd llaw.

## EGINYN SYNIAD

Ceir cryn amrywiaeth o gyfarchion drwy gyffyrddiad corfforol ac fe fuon ni'n rhyw wagystyried a fyddai natur y cyfarchiad yn cael effaith ar drosglwyddiad germau. Er syndod i ni doedd dim yn y llenyddiaeth feddygol ynglŷn â chyfarchion amgen. Yn wir, doedd dim ond llond dwrn o bapurau yn ymwneud â throsglwyddiad clefydau drwy gyfrwng ysgwyd llaw, a'r rhai hynny'n cael eu cydbwysu gan bapurau oedd yn pwysleisio'r manteision o gael clinigwyr i ysgwyd llaw eu cleifion.

Felly fe gynllunion ni gyfres o arbrofion a oedd yn nodedig am eu cost (tua gwerth £5 o ymweithredyddion a 35 o oriau gwaith) a'u symylrwydd (gellid bod wedi cynnal yr arbrofion yn ddiogel yn y labordy garej mwyaf cyntefig). Ein prif arloesiad oedd creu model labordy o gyfarchiadau cyffyrddol. Roedden ni'n dau yn gwisgo menyg, gydag un maneg yn drwch o facteria, yna roedden ni'n cyfarch ein gilydd ac yna'n rhifo'r bacteria a drosglwyddyd. Yn ôl y disgwyl, gwelwyd bob bwrw dyrnau yn trosglwyddo llawer iawn yn llai o facteria nac ysgwyd llaw, ac mai ysgwyd llaw cadarn, maith oedd y rhai gwaethaf am drosglwyddo bygiau.

## HAIN Y CYFRYNGAU

Roedden ni'n tybio y gallai'r pwnc fod â digon o apêl gyffredinol i dynnu sylw papurau newydd lleol, felly pan dderbyniwyd ein hastudiaeth ar gyfer ei chyhoeddi yn yr American Journal of Infection Control (AJIC), fe gysyllton ni'n syth a thîm cyfryngau Prifysgol Aberystwyth. Lluniwyd datganiad i'r wasg, a gwnaed ffilm fer am yr astudiaeth a'r casgliadau a'u cylchredeg i'r wasg gydag embargo caeth yn gwahardd eu defnyddio nes y byddai'r astudiaeth wedi ei chyhoeddi. Y tu ôl i'r llenni, dechreuodd timau cyfryngau Aberystwyth a AJIC ar eu dewiniaeth. Ac yna aeth popeth braidd yn wallgof.

Cyn dyddiad yr embargo dechreuwyd derbyn ceisiadau am gyfweiliad oddi wrth asiantau newyddion megis Associated Press, ac ar sodlau hynny gan newyddiaduron cenedlaethol a rhyngwladol a newyddion ar-lein (e.e. USA Today, The Daily Mail, Al Jazeera, y BBC a CNN). Roedd y cyfweiliadau yn alwadau ffôn byrion ar y cyfan oddi wrth newyddiadurwyr oedd yn ceisio gwirio'r ffeithiau ar gyfer eu herthyglau. Yna daeth ceisiadau am gyfweiliadau byw ar y radio, ac felly erbyn y diwrnod pan oedd yr embargo yn dod i ben roedd gennyn ni raglen bur lawn o gyfweiliadau yn ein wynebu.

Yr wythnos honno roedd y stori yn ymledu fel tân gwyllt. Yn fuan roedden ni wedi colli cyfrif o'r cyfweiliadau a'r ceisiadau i wireddu ffeithiau a dyfyniadau. Roedd hi'n amlwg bod rhai newyddiadurwyr yn edrych ar onglau arbennig ac yn canolbwyntio ar agweddau arbennig o'r stori, ac roedd hi'n ymddangos bod pob un ohonynt eisieu i ni ddyflau am bethau nad oedden ni'n gymwys i wneud. Er gwaethaf hynny, dim ond un neu ddau o gyfraniadau yn y wasg oedd yn mynd dros ben llestri. Roedd y mwyafrif ohonynt yn rhoi barn gytbwys ac yn cymryd yr astudiaeth o ddifrif – yn fwy o ddifrif o bosibl na'n hagwedd ni pan yn ymgymryd â'r ymchwil.

Erbyn i bethau ddechrau tawelu, roedd Google yn dangos i'n hastudiaeth gael ei hadrodd mewn nifer syfrdanol o wledydd a chan gyflwynwyr newyddion niferus yn y mwyafrif o wledydd. Mae gweld eich hun ar y rhyngwryd yn union o dan lun o'r Arlywydd Obama yn dal i fod yn deimlad pur chwithig, ac mae clywed eich hun wedi eich trosleisio i'r Ffrangeg ar gyfer TF1 hefyd yn braidd yn annisgwyl.

And then it all went a bit bonkers.

## AMRYWIADAU NEWYDD YN YMDDANGOS

Wrth i glefydau trosglwyddadwy ymledu byddant yn aml yn mwtadu, a dyna a ddiwyddodd i'n stori ni.

Aeth y galwadau yn llai aml, ac roeddynt yn dod oddi wrth gylchgronau wythnosol ac yna rhai misol. Daeth y stori i sylw cylchgronau ffyrdd o fyw a rhai busnes oherwydd pwysigrwydd ysgwyd llaw fel dyfais ddiwylliannol. Ar ben hynny roedd rhai erthyglau newyddion yn cynnwys storïau am ymatebion i'n hastudiath wreiddiol. Er enghraifft gwaharddwyd ysgwyd llaw yn Nigeria mewn ymdrech i atal lledaeniad Ebola.

Bu rhai athletwyr ym mhentref atletwyr Chwaraeon y Gymanwlad yn dioddef gyda Norofeirws, a chawsom ein holi ynglŷn â'r tebygrwydd mai ysgwyd llaw oedd yn gyfrifol am hynny.


Derbyniwyd cais oddi wrth gwis oriau brig yn gofyn i ni wireddu cwestiwn roedden nhw am ei ofyn i'r

cystadleuwyr ynglŷn â'n hastudiaeth, cafwyd asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus yn holi am gefnogaeth cynnyrch ac amryw o sylwadau/ymholiadau oddi wrth weithwyr proffesiynol gofali iechyd a'r cyhoedd lleig. Bu pobl yn gwneud ffilmiau

am y mater ac yn eu rhoi ar 'You Tube' a blogiau. Dim ond un neu ddau o eitemau oedd yn wrthwynebol, sy'n rhyfeddol o feddwl am ledaeniad byd-eang y stori.

## Y DWYMYN YN GOSTEGU

Uchelbwyntiau personol oedd cael ein cyfweld ar gyfer sioe Americanaidd ddadleol y DJ Howard Stern, ac ymddangos ar Newsround CBBC. Ac mae'n dal yn rhyfeddod bod pobl ar awars y byd o ganlyniad i'n hastudiaeth fach syml ni yn meddwl am ledaeniad clefydau trosglwyddadwy. Beth allai gael mwy o effaith a chyrraedd cyn belled – dau syniad sy'n llonni calon pob rheolwr prifysgol. Diolch i'r drefn ond nid yw holl sylw'r cyfryngau wedi mynd i'n pennau. Dichon y bydd hanes yn ein labelu fel y ddau a roddodd ddiwedd ar yr arfer o ysgwyd llaw. Does gennyn ni ddim gwrthwynebiad i roi ein llofnod i bobl, dim ond iddynt adael i ni ddefnyddio ein hysgrifbinnau ein hunain.

Bydd Sara Mela yn cychwyn ar ei thaith darlithio drwy'r byd ar ôl cwblhau ei thraethawd PhD. Gellir gweld Dave Whitworth bron bob dydd yn theatrau darlithio Aberystwyth – ewch i UCAS a threfnu i astudio ar gyfer gradd mewn Biocemeg yn Aberystwyth. Rydych chi'n gwybod mai dyna hoffech chi ei wneud. 

Mae Dave Whitworth yn Uwchddarlithydd yn Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Daeth i Aberystwyth yn 2008 ar ôl graddio mewn Biocemeg ym Mhrifysgol Rhydychen, a PhD ym Mhrifysgol Warwick. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar gyfathrebiad rhwng bacteria ac ar ddeall sut y mae ymddygiad organeb yn caei ei bennu gan ei genom. Graddiodd Sara Mela gyda BSc mewn Swoleg a Micro-bioleg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2011. Treuliodd flwyddyn mewn diwydiant rhwng graddau, yn edrych ar iechyd coluddion dynol a microbiota. Er ei bob ar hyn o bryd yn gweithio ar gyfer PhD mewn ymddygiad pryfed, mae Sara'n parhau i ymddiddori mewn microbiolog.

# O FYFYRIWR I ATHRO MEWN DIWRNOD

## *T H Parry-Williams a helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-1920 gan Dr Bleddyn Huws*



Cofrestrodd T H Parry-Williams fel gwrthwynebydd cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yntau ar y pryd yn ddarlithydd cynorthwyol yn Adran y Gymraeg yn Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, fel y'i gelwid yr adeg honno. Bu Cadair y Gymraeg yn wag am gyfnod o bum mlynedd ar ôl marw'r Athro

Edward Anwyl yn 1914, ond pan ddaeth diwedd y rhyfel aethpwyd ati i hysbysebu'r swydd.

Penderfynodd Cyngor y Coleg yn 1919 greu dwy gadair yn yr Adran, y naill mewn llenyddiaeth a'r llall mewn iaith, a hynny wedi i deulu Is-Lywydd y Coleg, David Davies AS o Landinam, gyflwyno rhodd o £100,000 i'r Coleg er mwyn galluogi llenwi cadeiriau a adawyd yn wag yn ystod y Rhyfel. T Gwynn Jones, y bardd a'r llenor a'r ysgolhaig a oedd yn Ddarllenydd yn yr Adran Gymraeg, a benodwyd i'r gadair mewn llenyddiaeth, ac fe argymhellwyd penodi T H Parry-Williams i'r gadair mewn iaith. Byddai'r penodiad wedi'i wneud yn ddigon didrfferth oni bai i rai pobl leisio eu gwrthwynebiad i ymgeisyddiaeth T H Parry-Williams oherwydd ei safiad fel heddychwyr yn ystod y Rhyfel. Protestiodd amryw ganghennau o Gymrodryd y Rhyfel Mawr ynghyd â nifer o drigolion tref Aberystwyth a lofnodd ddeiseb yn erbyn ei benodi, ac yr oedd ambell aelod o gyngor y Coleg hefyd yn ffyrnig-wrthwynebus i'w gais. Yr oedd y bobl hyn o blaid penodi Timothy Lewis i'r gadair iaith yn lle Parry-Williams.


Yr oedd Timothy Lewis hefyd yn ddarlithydd cynorthwyol yn yr Adran Gymraeg, ond yn wahanol i'w gyd-weithiwr iau, Parry-Williams, fe wirfoddolodd ef ar gyfer y fyddin ym mis Hydref 1915 o dan gynllun recriwtio'r Arglwydd Derby. Mae'n debyg i 350,000 o ddynion ymuno â'r fyddin trwy Gynllun Derby, ac fel math o abwyd dywedid wrthynt na fyddai gwŷr priod ond yn cael eu galw petai'r cyflenwad o ddynion sengl yn cael ei ddihysbyddu. Yr oedd Timothy Lewis erbyn 1915 yn ddyn priod ers pedair blynedd, a ganwyd

merch iddo ef a'i wraig ym mis Gorffennaf 1916, ryw dri mis cyn iddo gael ei alw i wasanaethu yng Nghatrawd Brenhinol y Gynnuau Mawr, y Royal Gunners Artillery. Bu'n ymladd yn y brwydrau yng Ngwlad Belg a Ffrainc, lle cafodd ei anafu. Bu ym mwrwydrau'r Somme ac Ypres ac yr oedd yn agos iawn at Hell Fire Corner yn 1917. Trwy gydol y cyfnod y bu'n y fyddin, parhâi i dderbyn cyfran o'i gyflog gan y Coleg, sef y swm a oedd yn weddill ar ôl tynnu'r arian a gâi fel milwr.

Un arall a dderbynai gyfran o'i gyflog tra oedd yn y fyddin oedd Oscar Parry-Williams, brawd iau T H Parry-Williams, a oedd, cyn cael ei alw i fyny, yn glerc yn swyddfa Cofrestrydd Coleg Aberystwyth. Ymunodd ef â Chorfflu Meddygol y Fyddin ym mis Chwefror 1916, a derbyn clod mawr am ei waith fel clerc yn swyddfa cyfarwyddwr Corfflu Meddygol y Fyddin Brydeinig yn Ffrainc. Yr oedd dau frawd arall Parry-Williams, Willie a Wynne, hefyd wedi ymuno â'r lluoedd, Willie fel aelod o'r fyddin Americanaidd, ar ôl iddo ymfudo i America a dod drosodd i ymladd gyda'r Cynghreiriaid yn Ffrainc, a Wynne fel aelod o'r Ffiwsilwyr Cymreig.

Cafwyd ymgyrch yn y wasg yn erbyn penodi T H Parry-Williams. Ymosodai rhai gohebwyr arno oherwydd ei safiad yn ystod y Rhyfel, a bwridd amheuaeth ar ei deilyngdod fel ysgolhaig. Ymhlith y rhai mwyaf ffyrnig yn ei erbyn yr oedd y newyddiadurwr a'r dramodydd Beriah Gwynfe Evans, a'r ysgolhaig Cymraeg, Gwenogvryn Evans, a oedd yn aelod o Gyngor Coleg Aberystwyth. Fe ddaeth yn amlwg fod gan y ddau hyn eu rhesymau personol dros ffafrio Timothy Lewis: Beriah Gwynfe Evans oedd ei dad-yng-nghyfraith ac yr oedd Gwenogvryn yn gyfaill agos iddo. Credai'r ddau bod ymgais fwriadol wedi bod gan yr hyn a alwent yn 'glic pasiffistaidd' yn Aberystwyth i gadw Timothy Lewis allan o'r Gadair Gymraeg.

Byth oddi ar i Edward Anwyl gyhoeddi ei fod yn gadael Aberystwyth yn 1913, bu Beriah wrthi'n hybu ymgais ei fab-yng-nghyfraith am gael llenwi'r gadair, a bu'n ceisio perswadio ei gyfaill E T John, Aelod Seneddol Dwyrain Dinbych hyd at 1918,



i ddefnyddio'i ddylanwad i bwysu ar Brifathro'r Coleg ac ar aelodau o'r Cyngor er mwyn canfasio cefnogaeth i Timothy. Mae modd gweld yn y gyfres o lythyrau hynod ddadlennol a anfonodd Beriah at ei gyfaill o wleidydd pa mor daer yr oedd dros deilyngdod ei fab-yng-nghyfraith i etifeddu'r Gadair Gymraeg, a hynny'n bennaf oherwydd cryfder ei gymwysterau fel ysgolhaig Celtaidd. Ystyriai Beriah ei fod ben ac ysgwydd uwchlaw Parry-Williams, ac felly hefyd Gwenogvryn Evans, a honnai i Joseph Vendryes, cyn-Athro Parry-Williams ym Mhrifysgol y Sorbonne ym Mharis, ddweud hyn am ei gyn-ddisgybl: 'Dr Parry-Williams

... I have no love of that 'conscience' that refuses to defend the State that protects it, and is eager to snatch the bread out of the mouth of a better man who was first in occupation.

has published nothing to interest a scholar'. Gan ei fod ddeng mlynedd yn hŷn na Pharry-Williams, yr oedd gan Timothy Lewis beth mantais arno. Yr oedd ganddo o leiaf dair cyfrol ysgolheigaidd safonol i'w enw, tra nad oedd gan Barry-Williams ond un, sef rhan o'i draethawd doethuriaeth ar seinyddiaeth y Gymraeg a'r Llydaweg a gyhoeddwyd gan wasg Honoré Champion ym Mharis yn 1913.

Pan ddaeth yn amser i Gyngor y Coleg ystyried y rhestr fer am swydd Athro'r Gymraeg ym mis Medi 1919, a phan ddatgelwyd bod nifer o wrthwynebiadau cryfion wedi eu cyflwyno yn erbyn penodi T H Parry-Williams, penderfynodd aelodau'r Cyngor ohirio penodi tan fis Mehefin 1920. Oherwydd yr amgylchiadau hyn, penderfynodd T H Parry-Williams beidio ag adnewyddu ei gytundeb fel darlithydd cynorthwyol yn yr Adran a chofrestru fel myfyriwr blwyddyn gyntaf er mwyn astudio gwyddoniaeth yn y Coleg fel paratoad ar gyfer mynd i astudio meddygaeth

yn ysbyty Barts yn Llundain. Cafodd lwyddiant ysgubol yn ei arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn ac ennill ysgoloriaeth lawfeddygol werth £20. 'Aberystwyth surprise' oedd y pennawd yn y Western Mail pan adroddwyd am y newydd hwn, a bu cryn ymateb yng ngholofn lythyrau sawl papur newydd gan gefnogwyr a gelynyon Parry-Williams fel ei gilydd.

Cythraddwyd Henry Parry-Williams, tad T H Parry-Williams, gymaint gan yr ymosodiadau annheg ar ei fab yn y wasg, yn enwedig yn y wasg leol yn Arfon, fel yr ysgrifennodd gyfres o lythyrau cyfrinachol at y newyddiadurwr dylanwadol o Gaernarfon, Edward Morgan Humphreys, a oedd yn olygydd y Genedl Gymreig a'r North Wales Observer and Express. Yr oedd yn awyddus iawn i gyflwyno safbwynt y teulu ynghylch helynt y Gadair Gymraeg, ac ateb rhai o'r cyhuddiadau maleisus ac enllibus a gyhoeddwyd yn erbyn ei fab yn y wasg. Mae'r llythyrau hyn – nad ydynt wedi eu trafod gan neb o'r blaen – yn taflu goleuni newydd a diddorol ar agwedd T H Parry-Williams at yr helynt ar y pryd, a hefyd ar safbwynt ei dri brawd a fu'n gwasanaethu yn y fyddin. Teimlai'r tri yn ddig am fod pobl yn ymosod ar eu brawd mawr ac yn ei fychanu fel ysgolhaig. Does dim tystiolaeth fod T H Parry-Williams ei hun wedi ymateb yn gyhoeddus i'r ymosodiadau arno: canolbwyntiodd ar ei waith fel myfyriwr yn astudio Ffiseg, Cemeg, Bywydeg a Swoleg yn ystod sesiwn academiaidd 1919-20. Pwysleisiai ei dad yn yr ohebiaeth at Edward Morgan Humphreys fod ei fab wedi ei ryddhau gan y Tribiwnlys Apêl yn erbyn consgripsiswn oherwydd ei safiad fel gwrthwynebydd cydwybodol, a hefyd oherwydd ei fod yn cyflawni gwaith o bwysigrwydd cenedlaethol fel darlithydd prifysgol.

Datgela Henry Parry-Williams fod cryn gefnogaeth i'w fab ymhlith staff a myfyriwr y Coleg, a bod deiseb wedi'i chasglu gan fyfyrwr a oedd yn gyn-filwr yn pwysu am gael Parry-Williams yn ei ôl fel darlithydd. Datgela hefyd beth oedd rhesymau ei fab dros ildio'i swydd fel darlithydd a chofrestru fel myfyriwr. Nid pwdu a wnaeth fel yr honnid gan rai, ond penderfynu newid cwrs ei yrfa cyn y byddai'n rhy hwyr iddo

wneud hynny. Yr oedd yn 32 oed ar y pryd, ac ofnai, pe byddai'n oedi rhagor, y byddai'n rhy hen i hyfforddi'n feddyg. Yn wir, yr oedd wedi bygwth gadael y Coleg i fynd i astudio meddygaeth yn ôl yn 1915 cyn iddo gael ei ddarbwylllo gan y Llywydd, Syr John Williams, y dylai aros yn ei swydd er mwyn dangos nad yn ofer yr ymddiriedodd y Coleg ei ffydd yn ei ddoniau fel addysgwr ac ysbrydolwr ieuencid pan roddodd droedle iddo fel darlithydd yn y lle cyntaf. Rhywbeth arall a ddatgelir gan Henry Parry-Williams yw fod Joseph Vendryes wedi gwrthod rhoi tystlythyr i'w fab, er iddo ofyn amdano, am na wirfoddolodd ar gyfer y fyddin a mynd i gynorthwyo'r Ffrancwyr yn awr eu hangen.

Pan ailhysbysebwyd y Gadair Gymraeg ym Mehefin 1920 cyflwynodd Timothy Lewis a T H Parry-Williams geisiadau am yr eildro, ac er bod Cymrodyr y Rhyfel Mawr ac eraill yn dal i brotestio yn erbyn penodi'r heddychwr, T H Parry-Williams a benodwyd i swydd Athro a Phennaeth Adran y Gymraeg yn y diwedd. Fel gwobr gysur, cynigiwyd swydd Darllenydd mewn llenyddiaeth Geltaidd a phaeliograffeg i Timothy Lewis. Daeth pennod ddigon anodd ac anghysurus yng ngyrfa T H Parry-Williams i ben, ac fe arhosodd yn Athro a Phennaeth nodedig ar yr Adran nes iddo ymddeol yn 1952. 📖



**Mae'r Dr Bleddyn Huws yn Uwch Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg. Yn ogystal â dysgu barddoniaeth yr oesoedd canol diweddar, llenyddiaeth cyfnod y Dadeni a chwrs Cymraeg Proffesiynol, mae ei ddi-ddordebau ymchwil yn cynnwys barddoniaeth yr oesoedd canol; genres y Cywyddwyr; llenyddiaeth cyfnod y Dadeni; llenyddiaeth werinol yr ugeinfed ganrif a llenyddiaeth Gymraeg ddiweddar. Mae Bleddyn yn gyd-olygydd Dwned, cylchgrawn hanes a llên Cymru'r oesoedd canol.**

# ABERDRAMOR

*Yn 2014, fel yn y blynyddoedd cyn hynny, aeth cynrychiolwyr o Aber i bob rhan o'r byd i gwrdd ag alumni rhyngwladol ac adnewyddu cyfeillgarwch.*

Ar un daith ddiweddar, a chofiadwy iawn, urddwyd Ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz ibni Almarhum Tuanku Munawir, yr unfed ar ddeg Yang di-Pertuan Besar o Negeri Sembilan, Malaysia, yn Gymrawd Anrhydeddus; graddiodd yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth yn 1970. Ar ôl gadael Aber, gwnaeth gyfraniad pwysig i fywyd masnachol a busnes Malaysia, a

chydabuwyd ei lwyddiant yn y byd busnes yn eang ym Malaysia a thu hwnt.

Yn ogystal â'i diddordebau proffesiynol, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi cyfrannu'n fawr at achosion elusennol ac ef yw Noddwr Brenhinol Clwb Alumni Prifysgol Aberystwyth Malaysia, un o'r clybiau alumni mwyaf bywiog a gweithgar yn y byd. Dathlodd y Clwb Alumni Gymrodoriaeth Ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz drwy gynnal cinio tei ddu ar gyfer tua 300 o gyn-fyfrwyr, dirprwyaeth o Brifysgol Aberystwyth a gwsteion enwog eraill. Cyfrannodd Cymdeithas Myfyrwyr Malaysia Prifysgol Aberystwyth at y dathliadau drwy anfon fideo o longyfarchiadau a ffilmwyd yn Aber, ac, yn ei dro, recordiodd Dato Sharil Tarmizi, Llywydd Cymdeithas Alumni Malaysia 2014, fideo o gyfarchion i fyfrwyr Malaysia heddiw!



Brunei

Drannoeth, cynhaliwyd derbyniad ar gyfer dirprwyaeth Aber yn y palas brenhinol, lle bu'r Athro John Williams yn rhannu atgofion melyn o Aber gyda Ei Uchelder Brenhinol.

Cynhaliwyd nifer o dderbyniadau alumni llwyddiannus ledled y byd yn 2014, yn Toronto, Efrog Newydd a Washington DC yng Ngogledd America, ac yn Brunei a Taiwan yn y Dwyrain Pell, a Dulyn ac Athen yn Ewrop.

Mae rhagor o deithiau rhyngwladol ar y gweill ar gyfer 2015 a byddem wrth ein bodd yn gweld cynifer ohonoch â phosibl, felly cofiwch ddiweddarau eich manylion drwy Gyswllt Aber, ein bas-data ar-lein, neu drwy gysylltu â ni ar [datblygu@aber.ac.uk](mailto:datblygu@aber.ac.uk) er mwyn inni fedru eich gwahodd i rannu ychydig o brofiad Aber, ble bynnag y byddwch. 📖



His Royal Highness Tuanku Muhriz ibni Almarhum Tuanku Munawir

# FY ABER: COED PENGLAIS

*Harry Taylor a raddiodd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn disgrifio ei hoff ran o Aberystwyth:*



**M**eewn sawl ffordd mae Coed Penglais yn un o'r llecynnau prin iawn hynny, y math o le na fyddwch yn digwydd taro arno ond unwaith neu ddwy yn ystod eich oes. Mae'n un o'r manau syml hynny, mainc ar ymyl Gwarchodfa Natur Penglais, (na, doeddwn innau chwaith ddim yn ymwybodol o fodolaeth y fath beth!) y gellir ei gyrraedd o Heol-y-Bryn, ond mae'n cynnig un o'r golygfeydd a gafodd y lleiaf o sylw ond sydd er hynny'n un o'r rhai mwyaf syfrdanol i mi ddod ar ei thraws. Mae'r llethr serth iawn y mae'n sefyll arno yn rhoi golwg ddihafal o'r llwyfan uchel uwch ben Aberystwyth, golwg unigryw tua'r de i lawr arfordir Ceredigion, tua'r Llyfrgell Genedlaethol, dros y dref ac os byddwch yn ymestyn eich gwddf yn ddigon pell, gallwch gael cip ar y camera obscura ar Graig-glais. Ar y fainc hon, mae bron y cyfan o Aberystwyth wedi ei daenu o'ch blaen, mae brob i bawb rydych chi'n eu hadnabod yn Aberystwyth, pawb rydych chi wedi eu cwrdd, eu hoffi, eu casáu, eu caru neu eu ffeiddio yno yn union o flaen eich llygaid. Mae cael rhywle o'r fath mor agos, ond sydd er hynny'n teimlo mor bell i ffwrdd yn cymryd cryn amser i ddygymod ag ef.

Fe ddigwyddais i daro ar y llecyn hwn yng nghwmni ffrindiau yn ystod fy ail flwyddyn, mynd yno gyda'r hwyr a chael fy rhyfeddu gan y panorama hwyrol oedd o flaen fy llygaid, goleuadau'r dref yn goleuo manau nodedig y dref, y Pier, yr Hen Goleg, Pont Trefechan, y mân drefi ar hyd yr arfordir yn tywynnu'n gynnes yn y pellter, a gwynder disglair bron mewn cymhariaeth y Llyfrgell Genedlaethol sydd ond prin i'w ganfod y tu ôl i chi. Fodd bynnag dim ond pan ddychwelais yno gyda chyfaill i mi a oedd ar y pryd yn Gadeirydd Cyfryngau Myfyrwyr Aberystwyth a minnau yn Olygydd The Courier, y daeth y lle mor bwysig i mi'n bersonol.

Un noson ar ôl diod neu ddau (does dim rhyfedd bod cymaint o straeon Aberystwyth yn dechrau fel yna) gofynnais iddo a

hoffai ddod i weld "golygfa". Cytunodd gyda pheth sgeptigaeth ac ar ôl rhai munudau o gerdded yn y tywyllwch dudew, roedden wedi cyrraedd y fan. Roedd yntau wedi ei syfrdau i'r un graddau â minnau, ac o hynny ymlaen daeth yn lle i ystyried a myfyrio. Bob noson, byddai straen a phwysau rhedeg papur newydd a chyfundrefn cyfryngau myfyrwyr tra'n astudio ar gyfer gradd a cheisio byw bywyd personol cytbwys yn cael eu mynegi; câi problemau eu gwyntyllu, câi problemau eu datrys a byddai problemau o'r fath yn diflannu'n fuan. Roedd daearyddiaeth y tir yn golygu ein bod yn sefyll yn llythrennol ar yr ymyl dibyn, codwm bur annymunol ac, yn drosiadol, rhwng gwewyr olaf bod yn fyfyrwyr ac oedolaeth. Roedd pawb a ddaeth i fyny yno gyda ni yn ymateb yn yr un modd, parchedig ofn yr olygfa oedd yn eu haros, boed hi'n ddydd neu'n nos.

Yn ystod y cyfnod llawer rhy gyfarwydd o geisio rhoi cychwyn ar ymchwil ddifrif ar gyfer fy nhraethawd estynedig byddwn yn mynd i eistedd i fyny yno yn ystod dyddiau heulog anaml ond rhyfeddol Aberystwyth wrth i'r gwanwyn droi yn haf. Treuliwn oriau yno heb sylweddoli erioed eu bod wedi gwibio heibio. Yn syml iawn roedd yn rhoi cefnogaeth i mi yn fy nhrydedd flwyddyn, gallu eistedd yno a rhoi'r byd yn ei le tra oedd y dref yn gorwedd islaw; roedd gallu treulio ychydig oriau digyffro heb neb na dim i darfu arnaf yn amhrisiadwy. Am rywle nad yw, beth bynnag am yr olygfa, yn ddim ond mainc mewn gwarchodfa natur, cafodd gryn effaith ar fy mlwyddyn. A'r peth gorau i gytd? Flwyddyn yn ddiweddarach dydw i erioed wedi ymlwybro i fyny'r llethr sy'n arwain tua'r fan a gweld bod rhywun arall yn eistedd ar "fy mainc i". Yn debyg ddigon i "Ystafell Anghenion" Hogwart, mae yno bob amser pan fyddaf ei hangen, a hir y parhaed felly. [R](#)

# DIOLCH: THANK YOU

*Mae hanes sefydlu prifysgol yn Aberystwyth yn un o uchafbwyntiau dyngarwch Cymreig modern a rhoddodd gychwyn ar draddodiad rhyfeddol o haelioni tuag at y Brifysgol a'i myfyrwyr.*

**D**athlodd Cymru ddyngarwch yn ei holl ffurfiau ar ddechrau Tachwedd gydag wythnos o ddigwyddiadau a gweithgareddau dan arweiniad Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Ymunodd Aber yn y dathlu drwy ddweud "diolch" yn gyhoeddus i'w holl gymwynaswyr, ddoe a heddiw, am eu cefnogaeth. Gwisgodd myfyrwyr a staff sy'n cael eu cefnogi mewn rhyw ffordd gan ddyngarwch (bwsariaethau, ysgoloriaethau a swyddi dysgu neu ymchwil sy'n cael eu hariannu) ruban porffor wedi ei addurno â'r geiriau "Diolch! Thank You!" Roedd rhoddion eraill wedi eu haddurno gyda rubanau a neges o ddiolch; o'r Hen Goleg ei hun i dir Campws Penglais, roedd hyd yn oed y dreiniau a'r sylfeini wedi eu hariannu gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth cyn i'r adeiladu ddechrau.

Roedd yr holl weithgarwch hwn yn amlygu i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr hanes maith a hyglod dyngarwch yn Aber, sydd â'i wreiddiau yng nghefnogaeth hael y cyfoethog a'r tlawd a weithiodd yn ddiflino i ddarparu prifysgol yng Nghymru. Mae'r traddodiad hwn yn parhau heddiw\* gyda chefnogaeth cyn-fyfyrwyr a chyfeillion ar gyfer ystod eang o weithgareddau drwy'r rhaglen rhoi flynyddol, rhoddion unigol a chymynroddion. Dyma gwplw o rai amlwg diweddar:

## CYMNRODD DR OWEN PRICE

Mab i deulu o amaethwyr Cymreig a ddaeth i astudio economeg amaethyddol yn Aberystwyth gyda'r bwriad o weithio i wella bywydau cymunedau amaethyddol fel ei gymuned ef ei hun oedd Owen Price. Gweithiodd i'r amcan hwn o amgylch y byd gyda chwmnïau megis ICI a Banc y Byd a pharhaodd y genhadaeth hon ar ôl ei farw yn 2012 drwy gyfrwng cymynrodd sylweddol i ariannu cyfleoedd ymchwil yn Aberystwyth. Eleni mae dau fyfyrwr PhD, Ilse Skujina a Rhys Jones, yn bwrw ymlaen

â'i waith mewn swyddi a gefnogir gan Gronfa Ysgoloriaeth Owen Price i ymchwilio i genomau adarol a'u cysylltiad â hirhoedledd a llyngyren yr iau a llyngyr y rwmn, mater o bwys i iechyd anifeiliaid sy'n cnoi eu cil.

Meddai Rhys; "Rydw i'n hynod o ddiolchgar am fod yn dderbynydd ysgoloriaeth Owen Price. Byddaf yn edrych ar y ffordd yn mae llyngyr iau a rwmn yn cystadlu i heintio malwoden letyol ryngol, yn ogystal ag edrych ar y gydberthynas rhwng lefelau llyngyr rwmn a llyngyr iau ar ffermydd Cymru. Defnyddir y data i wneud peth modelu ar fynychder y parasitiaid hyn yn y dyfodol. Fy ngobaith yw y bydd y gwaith y byddaf yn ymgymryd ag ef yn arwain at ganlyniadau a fydd yn gyfraniad positif i etifeddiaeth Owen Price."

Meddai Ilse; "Mae Ysgoloriaeth Owen Price nid yn unig wedi fy ngalluogi i ddilyn fy llwybr gyrfa dewisol ac wedi agor drysau ar lefel gwbl newydd o gyfleoedd y mae PhD yn eu cynnig, ond mae hefyd yn cynnwys y potensial i ddylanwadu ar y gymuned wyddonol fyd-eang drwy gynyddu dealltwriaeth gyffredinol o heneiddio. Gall hyd yn oed ddarparu offer newydd ar ein cyfer i frwydro yn erbyn clefydau dirywiol cysylltiedig â henaint."

Mae'r ddau yn edrych ymlaen at adeiladu ar weledigaeth ryngwladol Owen Price a sicrhau bod y gwaith a hyrwyddwyd ganddo yn ystod ei oes yn parhau i fod o fudd i gymunedau amaethyddol ledled y byd yn y dyfodol.



Ilse Skujina



Diolch i haelioni alumni Aberystwyth yn cyfrannu at y Gronfa Flynyddol, mae'r Brifysgol wedi gallu sefydlu Cronfa Caledi sy'n agored i unrhyw fyfyrwr yn Aberystwyth, beth bynnag fo'i dras na'i gefndir, yn y gred na ddylai argyfwng ariannol rwystro myfyrwyr talentog rhag cwblhau eu haddysg yn Aberystwyth. Gweinyddir y gronfa gan y Gwasanaeth Cynorthwyo Myfyrwyr ac mae'n cynnig cynorth ariannol i fyfyrwyr a all wynebu argyfwng ariannol difrifol a hynny heb fod unrhyw fai arnynt. Yr amcan yw darparu cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi go iawn o ganlyniad i ffactorau na ellid eu rhagweld megis newid mewn amgylchiadau personol neu argyfwng gartre sy'n arwain at atal eu cefnogaeth ariannol dros dro. Mae'r Gronfa Caledi yn parhau i fod yr un sy'n cael y gefnogaeth orau o'n holl brosiectau Cronfa Flynyddol, ac meddai George Jones sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Cynorthwyo Myfyrwyr gyda myfyrwyr sydd angen cymorth, "Mae'r achosion lle rydyn ni wedi helpu myfyrwyr yn eu sefyllfaoedd yn siarad drostynt eu hunain. Heblaw am y gronfa hon byddai llawer o fyfyrwyr wedi gorfod gadael y Brifysgol am resymau ariannol, neu wedi methu â dychwelyd adref pan ddigwydd rhyw argyfwng teuluol annisgwyl. Mae'r gronfa yn rhwyd ddiogelwch i fyfyrwyr sy'n wynebu problem na fyddent yn gallu ei datrys heb gymorth ariannol."

## EIN GWIRFODDOLWYR

Tybir yn aml mai rhywbeth ariannol yw tarddiad dyngarwch, ond mae Aberystwyth yn ddiolchgar hefyd i gefnogwyr sy'n cyfrannu mewn ffyrdd llai diriaethol. Mae Alumni ac eraill yn cymryd cryn ran yn ein gweithgareddau beunyddiol, er enghraifft yn gweithredu fel mentoriaid i fyfyrwyr cyfredol a rhai sydd newydd adael; yn rhedeg gweithdai ac ymweliadau ar gyfer myfyrwyr i gefnogi eu hastudiaethau neu i wella eu cyfleoedd am yrfa; yn cynnal teithiau maes; yn aelodau gweithgar o fyrdau ymgynhorol adrannau; yn helpu gyda pholisïau ac yn cyfrannu budd eu gwybodaeth, ac yn aelodau o Gyngor y Brifysgol gan weithio i ddarparu trefn lywodraethol dda i'r sefydliad. Mae amrywiaeth eang o bobl yn ymwneud â phob un o'r gweithgareddau hyn a rhagor, ond maent i gyd yn cael eu nodweddu gan eu bywydau llwyddiannus prysur ond maent er hynny'n hapus i ychwanegu ymdrechion gwirfoddol er mwyn sicrhau bod Aberystwyth yn para i fod yn lle rhyfeddol, bywiog a llwyddiannus i astudio ynddo.

Mae Aberystwyth yn ymfalchio yn ei hanes hir a pharhaus o gefnogaeth ddyngarol yn ei holl ffurfiau, ac yn ddiolchgar amdani, ac rydyn ni wrth ein bodd yn manteisio unwaith eto ar y cyfle i ddweud "DIOLCH I CHI!" wrth ein holl gefnogwyr.

\* Gweler yr Adroddiad Rhoddion Blynyddol amgaeddig gyda'r argraffiad hwn o'r cylchgrawn **PROM** am ragor o fanylion am y rhoddion i Aberystwyth a dderbyniwyd eleni. Os hoffech wybod rhagor am gyflwyno rhoddion o bob math i Aberystwyth, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni neu **see our web pages at [www.aber.ac.uk/alumni](http://www.aber.ac.uk/alumni)** 📄

# RHWYDWAITH CYFLEOEDD ABER

## Y CYNLLUN eFENTORA YN ABER

**Mae cynllun eFentora Aberystwyth yn rhan o Rwydwaith Cyfleoedd Aber ac mae'n cael ei ariannu gan y Gronfa Flynyddol.** Mae eFentora yn digwydd ar lwyfan ar-lein sy'n cael ei reoli gan y Brifysgol ac sy'n galluogi cyn-fyfyrwyr Aber i gynnig mentora ac arweiniad gyrfaoel i fyfyrwyr a graddedigion ifainc heddiw.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ymateb i'n cais am fentoriaid yn gynharach eleni. Mae eich gwaith yn cefnogi ein myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau yn amhrisiadwy ac rydym yn sylweddoli bod ein myfyrwyr yn elwa'n sylweddol gan y bobl hynny a fu unwaith yn troedio'r un llwybrau.

Rydym yn falch o rannu gyda chi lwyddiant y cynllun peilot cyntaf gyda myfyrwyr yr Athrofa Daeryddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y mentoriaid a'r rheiny fu'n cael eu mentora. Yn ôl y myfyrwyr, agwedd fwyaf cadarnhaol y cynllun oedd y gallu i gysylltu, cyfnewid a chwrrd, mewn ambell achos, â graddedigion Aber y gorffennol.

Meddai **Jim Poole** (Pennaeth Uned Fusnes y Deyrnas Gyfunol yn Omnis Consulting Inc.): "Rwyf wedi mwynhau pob eiliad hyd yn hyn, ac mae'r ffaith fy mod i'n fentor ar rywun sydd mor awyddus a brwdfrydig yn help". Trefnodd gyfarfod ar gyfer y sawl y mae'n ei mentora yn Swyddfa'r Cabinet er mwyn cefnogi ei gwaith academaidd; rhywbeth y byddai wedi bod yn anodd iawn iddi ei drefnu ei hun, "Rwy'n credu ei bod hi wedi cael rhai o'r cyflwyniadau academaidd a drefnais ar ei chyfer (yn UDA yn arbennig) yn ddefnyddiol hefyd."

Bellach, rydym wrthi'n trefnu lansiad y cynllun eFentora ar draws amryw o adrannau'r Brifysgol ac yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr a graddedigion diweddar yn ymwneud â'r cynllun.

Mae **Sneha Dawda** (Myfyrwraig Israddedig Gwleidyddiaeth Ryngwladol) yn rhannu ei phrofiad o'r cynllun eFentora: "Roedd hi'n fanteisiol iawn i mi'n bersonol i fod yn rhan o gynllun mentora gan y gwnaeth egluro rhai o'r dirgelion ynghylch gyrfaoedd a llwybrau posibl. Roedd o fudd eithriadol i'm hastudiaethau gan fy mod i bellach wedi cynnal gwaith ymchwil sylfaenol, diolch i fy mentor! Byddai'n wych i weld israddedigion y dyfodol yn elwa o'r system."

Os hoffech wybod mwy am y cynllun neu wirfoddoli i fod yn fentor, cysylltwch â [datblygu@aber.ac.uk](mailto:datblygu@aber.ac.uk) neu ewch i [www.aber.ac.uk/cy/development/aon](http://www.aber.ac.uk/cy/development/aon)



*Mae'r Hyfforddai Graddedig, Lilian Chuchu, yn gweithio i ymestyn y gwasanaeth efentora drwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni.*

# CEINDER CELF FOTANEGOL

**A**r ôl i ddŵr ollwng mewn seler y llynedd, daethpwyd o hyd i gasgliad o siartiau wal hardd a hynod ddiddorol a luniwyd â llaw, rhai yn dyddio yn ôl rhyw 120 o flynyddoedd. Maent yn dangos sut mae dysgu'r gwyddorau wedi trawsnewid dros y blynyddoedd. Mae'r llun ar y tudalen hwn yn dod o un ohonynt, ac mae un arall i'w weld ar glawr y rhifyn hwn o PROM.





# TIRWEDD MOESEGOL



*Ar Awst 1af 2014, daeth yr Athro Kate Bullen yn Gyfarwyddwr Moeseg a Chydraddoldeb cyntaf Prifysgol Aberystwyth. Bu John Gilbey yn siarad gyda hi am ei rôl a'i pherthynas â hi.*

*gan John Gilbey*  
(gilbey@bcs.org.uk)

**N**i throediodd Kate Bullen lwybr uniongyrchol tuag at fywyd academiaidd; rhoddodd gychwyn ar ei gyrfa drwy dderbyn hyfforddiant mewn radioleg therapiwtig yn Ysbyty Felindre yng Nghaerdydd. “Bûm yn gweithio yno am gyfnod byr wedi i mi raddio, ac yna mewn amryfal fannau cyn dychwelyd i Gymru. Dechreuais holi cwestiynau lletchwith megis ‘ddylen ni fod yn gwneud mwy i gefnogi ein cleifion?’ Dydw i ddim yn credu fy mod yn defnyddio’r term ‘cefnogaeth seicolegol’ bryd hynny, ond roeddwn i’n sicr yn dweud ‘oni ddylen ni fod yn gwneud mwy i ddarparu’r math o gefnogaeth sydd ei gwirioneddol angen ar ein cleifion a’u teuluoedd?’

“Cefais ddamwain yn y gwaith a rhoddodd hynny ddiwedd ar fy ngyrfa glinigol gan na allwn bellach godi pobl a’u symud o gwmpas, felly roedd yn rhaid i mi ddefnyddio fy ymenydd yn hytrach na nerth bôn braich! Euthum i Abertawe ac ennill fy ngradd yno, ac roedd hynny’n gyfrwng i achub fy mhwyll yn gyfangwbl. Fe wirionais ar athroniaeth a seicoleg, ac ym mlwyddyn olaf fy ngradd bûm ar gwrs seicoleg athronyddol – ac roedd hynny’n wych. Enillais radd anrhydedd yn y dosbarth cyntaf a mynd ymlaen i wneud PhD.”

“Roeddwn i’n cwblhau fy PhD ac yn barod yn dysgu tipyn yn yr Adran Seicoleg ac yn y Dyniaethau Meddygol, fel cymrawd addysgu. Yn 2000 daeth lle gwag ar y pwyllgor moeseg ymchwil ar gyfer yr awdurdod iechyd lleol, a gofynnwyd i mi a fyddai gennyf ddi-ddordeb mewn ymuno, ac rwyf yn dal i wneud hynny hyd

heddiw. Bûm yn gwneud hynny am ddeng mlynedd yn Abertawe a dod yn is-gadeirydd, a nawr rwy’n gweithredu fel aelod arbenigol ar Bwyllgor Moeseg Ymchwil Cymru (Wales REC 3). Mae’n hynod o symbylol yn ddeallusol, ac rwy’n ei wirioneddol fwynhau.”

## **Sut rydych chi’n cydbwysu’r posibilrwydd o welliannau i’r boblogaeth yn gyffredinol gydag anghenion y rhai oedd yn ymwneud â’r treial?**

“Mae hyn yn broblem ddyrys bob tro. Rydyn ni’n cydbwysu’r costau a’r budd i bobl drwy’r amser. Rydyn ni hefyd yn pwysu a mesur y niwed a allai ddeillio o ddefnyddio’r broses ymchwil honno – ac nid i’r amgylchedd meddygol yn unig y mae hynny’n gymwys, mae’n wir yn achos unrhyw waith ymchwil. Yma yn y Brifysgol mae gennyn ni bortffolio eang iawn ac mae ystyriaeth foesebol yn achos pob ymchwil a wneir.” “Mae ystyriaethau moesebol yn perthyn i bob gweithgarwch ymchwil – ond nid yw’n gymwys yn yr un ffordd. Mae rhai agweddau ar ystyriaeth foesebol y mae gofyn i bawb feddwl amdanynt: megis gwyrddio data; megis sicrhau bob y cyhoedd yn cael mynediad at ein canlyniadau – ein bod yn eu lledaenu. Mae hyn yn berthnasol i bawb drwy’r Brifysgol: Ffugio, atgynhyrchu – mae bod yn onest yn yr hyn rydych yn ei wneud yn elfen foesebol sylfaenol sy’n berthnasol i bawb.” “Rhaid i ni hefyd feddwl am y cyfranogr dynol – oherwydd mae’n rhaid i ni feddwl am y person sy’n mynd i’r berthynas ymchwil honno. Mae’n berthynas rhoi; maent yn rhoi i chi rywbeth ohonynt eu hunain. Mae’n weithred anhunanol; yr

unig wobwr a gaiff pobl fel rheol yw'r ymdeimlad cynnes aneglur oddi fewn i chi am eich bod wedi gwneud rhywbeth hyfryd i rywun arall. Rhaid i chi feddwl am y person hwn sy'n mynd i mewn i'r 'swigen' ymchwil fel y cyfranogwr. Dylent ddod allan o'r swigen honno mor ddianaf neu mor ddigyfnewid ag yr oeddynt pan aethant i mewn. Yn ddefnyddol fe ddylai bod rhyw fudd ond fan lleiaf ni ddylai unrhyw niwed fod wedi ei wneud." "Rhaid i ni feddwl am ddifrod corfforol, difrod seicolegol, risg i enw da'r unigolyn. Rhaid i ni feddwl hefyd pa amddiffyniad sydd ar gael i'r person hwnnw ar ôl hynny. A oes unrhyw beth rydw i wedi ei wneud yn mynd i'w gadael yn teimlo'n anghyfforddus? Ac mae hynny'n arbennig o bwysig pan ydych chi'n edrych ar waith ansoddol – megis holiadur ynglŷn â delwedd corff, dyweder." "Mae gofyn i bwyllgorau moeseg ymchwil prifysgolion edrych ar y niwed potensial i'r ymchwilydd yn ogystal. Oherwydd gallai eich bod yn mynd i le sy'n berygl i gasglu eich data – asesiad risg unwaith eto. Rhaid i ni hefyd ystyried y niwed i enw da'r brifysgol: 'A yw hyn yn rhywbeth rydyn ni eisiau bod yn gysylltiedig ag ef? Sut y gallai hyn ddatblygu? Pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, beth yw'r goblygiadau i'r brifysgol?"

#### **A yw hyn yn gwrthdaro o gwbl yn erbyn rhyddid academiaidd? Onid yw hon yn llinell arbennig o gul?**

"Mae academyddion yn awyddus iawn i amddiffyn eu rhyddid academiaidd – a da o beth yw hynny. Mae'n rhaid ymestyn ffiniau er mwyn cynhyrchu gwybodaeth newydd. Dyna, yn fy nhyb i, yw'r union beth i'w wneud. Ond mae'n rhaid i chi hefyd fod yn ymwybodol o'r ffaith bod yna ganlyniadau – a chanlyniadau anfwriadol ar brydiau – yn deillio o'r gwaith maent yn cynnig ymgymryd ag ef."

#### **Sut y rheolir hyn mewn amgylchedd prifysgol?**

"Mae gofyn i bwyllgor moeseg gael ystod o arbenigedd ynghyd â chynrychiolwyr lleyg ychwanegol. Mae'r aelodau lleyg yn cynrychioli'r dyn neu'r ddynes gyffredin. Maent yn anhygoel o bwysig, oherwydd un o'r materion allweddol mewn moeseg ymchwil yw cydsyniad deallus – rhaid i bobl wybod beth y gofynnir iddynt ei wneud. Os nad yw'n gwneud synnwyr i aelodau'r pwyllgor, ac yn arbennig i'r aelodau lleyg, yna rhaid i chi ddweud wrth eich ymchwilydd, 'Maddeuwch i ni, ond mae'n rhaid i chi newid hyn.'" "Anaml iawn y maes moeseg yn ddu a gwyn - fel rheol mae'n dod mewn gwahanol arlliwiau o lwyd. Yr hyn sy'n bwysig i ni yma yn y Brifysgol, gan fod moeseg ymchwil wedi ei dominyddu gan yr agwedd feddygol, yw galluogi pobl i weld bod moeseg ymchwil yn ymwneud â phawb. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r bobl hynny sy'n casglu data am gyfranogwyr dynol."

#### **Sut rydych chi'n gweld yr 'ymbrello' moeseg ymchwil ar gyfer Aberystwyth?**

"Yr hyn sy'n bwysig i'r brifysgol hon, oherwydd bod ganddi ystod mor amrywiol o ymchwil, yw ei bod yn peri mewn gwirionedd i bobl fod yn ymwybodol bod a wnelo moeseg ymchwil â hwy – a hefyd ei bod yn broses hyrwyddol: rwy'n herio unrhyw un i ddweud nad yw eu tipyn gwaith wedi ei wella gan y ffaith eu bod wedi eistedd i lawr a meddwl am y materion moesegol, oherwydd mae'n gwirioneddol beri i chi ystyried beth yn union rydych chi'n ei wneud a pham rydych chi'n gofyn y cwestiynau rydych chi'n eu gofyn."

#### **Tebyg i adolygiad cymheiriaid yn y broses cyhoeddi?**

"Mewn llawer ffordd mae'n rhagflaenydd neu'n ategiad i adolygiad cymheiriaid, yn edrych yn hollol benodol ar y materion moesegol sy'n tanategu'r gwaith. Mae'n ymwneud â datblygu ymwybyddiaeth foesegol a llythrenedd moesegol ym mhawb. Ac wrth ddweud 'pawb', rwy'n golygu o fyfyrwyr i fyny, oherwydd rwy'n credu ei fod yn fater recriwtio o bwys yn ogystal. Os gallwn gael yn gymhwysedd craidd i'n holl raddedigion eu bod yn foesegol ymwybodol, a'u bod yn ymwybodol o onestrwydd proffesiynol pan fyddant yn symud ymlaen i fyd gwaith. Mae'n ymwneud â newid diwyllianol: byddwch yn gwneud gwell gwaith o ganlyniad." "Mae moeseg yn dod yn rhan gynyddol bwysig o dirwedd ymchwil. Mae concordat ar gyfer unplygrwydd ymchwil sydd wedi ei gychwyn gan Gyngor Ymchwil y Deyrnas Unedig (RCUK) ac mae prifysgolion yn ymuno ag ef. Mae'n rhoi dyletswyddau a chyfrifoldebau ar brifysgolion i gael polisïau a gweithdrefnau, mecanweithiau, i wneud i'r pethau hyn ddigwydd, ac rydyn ni'n ufuddhau i'r gofynion hyn. Yn ogystal â'r agwedd lywodraethol, mae'r egwyddor y dylen ni fod yn awyddus i wneud hyn – mai ymddwyn mewn dull moesegol yw'r peth priodol i'w wneud."

#### **A yw ochr cydraddoldeb y rôl yn deillio'n uniongyrchol o hynny? 'Priodoldeb cydraddoldeb'?**

"Ydyw. Y ffordd y byddwn i'n edrych arni yw mai moeseg yw'r gyrrwr – mae cydraddoldeb yn rhan o hynny. Nid â moeseg ymchwil yn unig y mae â wnelo'r rôl newydd, mae'n ymwneud â'r ffordd rydyn ni'n gweithio'n gyffredinol fel prifysgol yn nhermau safiad moesegol a'n gwerthoedd yn yr holl feysydd rydyn ni'n gweithredu ynddynt. Sut rydyn ni'n ymddwyn yn nhermau cydraddoldeb – nid yn unig yn nhermau cydymffurfio – yr hyn rydyn ni'n ei wneud mewn modd ystyrlon gyda chydaddoldeb yn un o'n gwerthoedd sylfaenol." "Y rôl yw gweithredu fel pwynt canolog arweinyddiaeth yn y Brifysgol i edrych ar yr holl faterion hyn. Credaf ei bod yn wirioneddol hanfodol nad yw hyn yn cael ei ystyried fel rhyw fath o chwiw academiaidd – mae'n rhywbeth sy'n ymwneud â phob un ohonom, oherwydd ein bod ni i gyd yn rhan o'r strwythur hwn sef Prifysgol Aberystwyth. Mae hyn yn berthnasol i bob un ohonom."

#### **A oes Cyfarwyddwyr Moeseg mewn prifysgolion eraill yn y DU?**

"Nag oes mewn gwirionedd. Dyma un o'r pethau diddorol am yr hyn mae'r Brifysgol yn ei wneud, mae'n torri tir newydd mewn llawer ffordd. Mae gan bobl eraill rannau o'r swydd wedi eu lleoli mewn mannau gwahanol, ond cyn belled ag y gwyddon ni nid os neb gyda'r ddwy rôl hyn mewn rôl sbesiffig, ganfyddadwy. Mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yma yn rhywbeth cyffrous ac arloesol." "Nid oes unrhyw ran o'ch bywyd nad yw moeseg yn ei gyffwrdd mewn rhyw ddull neu fodd. Nid oes unrhyw ran o weithrediad y Brifysgol nad yw'n cael ei effeithio ar ryw lefel gan ryw fath o ymrwymiad moesegol. Fe ddylen ni, fel sefydliad, fod yn foesegol lythrennog ac yn ymwybodol foesegol yn ein holl weithredoedd. Rydw i'n benderfynol y bydd yr holl fyfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyriaethau moesegol yn ein cymuned. Fy amcan yw bod goblygiadau moesegol yn cael eu hystyried yn awtomatig yn rhan o'n gweithgareddau beunyddiol." 📌

**Awdur a ffotograffydd sy'n byw a gweithio yn Aberystwyth yw John Gilbey. Ymddangosodd ei waith yn y cyfnodolyn gwyddonol *Nature*, papur newydd y *Guardian*, *New Scientist*, *Times Herald-Tribune*, *Times Higher Education* a nifer o gyhoeddiadau eraill.**



# HANNER CAN ARLLIW O WYRDD

Vanilla

*Bywyd rhyw lled gonfensiynol ein cnydau a pham rydyn ni'n bwyta rhai pethau gan Professor John Warren*

**F**e honnir yn aml ond yn apocryffaid bod gan Esgimos hanner cant o eiriau i ddisgrifio eira. Yn agosach at y gwir, er mai'n anaml iawn y clywir ei ddyfynnu yw'r sylw bod yna 45 o eiriau am arlliwiau o wyrdd yn iaith Gwlad yr Iâ. Yn wir yn y mwyafrif o ieithoedd mae llawer mwy o eiriau i wahaniaethu rhwng arlliwiau gwahanol o wyrdd nag yn achos unrhyw liw arall. Y rheswm am hyn yw ein bod yn byw ar blaned sy'n cael ei dominyddu gan y lliw gwyrdd, lle mae grymoedd detholiad naturiol wedi rhoi i'n rhywogaeth lygaid sy'n arbennig o sensitif i oleuni yn sector werdd y sbectrwm. Pan gynigir ffotograffau o dirluniau iddynt, bydd pobl yn ffafrio'r delweddau gwyrdd cryfaf. Mae rhesymau biolegol da dros y duedd hon ac mae'r fioleg hon yn cael ei hadlewyrchu yn ein dyfeisiau electronig sy'n cynnwys neu'n cyflwyno delweddau lliw. Er mwyn gallu cynrychioli'r byd mewn modd y gall bodau dynol ei adnabod, mae gofyn i ddyfeisiadau megis teledu a chamerau gynnwys rhagor o dderbynyddion gwyrdd nag o rai ar gyfer arlliwiau eraill.

Dichon na fydddech yn meddwl hynny, ond mae bodau dynol wedi esblygu fel botanegwyr gyda galluoedd craff i wahaniaethu rhwng rhywogaethau planhigion. Mae'r gallu i wahaniaethu rhwng arlliwiau o wyrdd cynnill eu gwahaniaeth, yn dalent sy'n gwella eich gallu i oroesi yn y gwyllt yn fawr. Os bwyteuoch y planhigyn anghywir, ceuoch eich gwenwyno. I'r gwrthwyneb mae arlliwiau mwy llachar o wyrdd yn tueddu i ddynodi gwerthoedd maethol uwch. Felly nid yw'n rhyfedd bod ein planhigion cnwd yn rueddu i fod yn wyrdd arbennig o lachar, a bod caeau amaethyddol yn wyrdd mwy llachar na'r cefn gwlad eangach. Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith bod llawer o berthnasau gwyllt ein cnydau i'w cael ar hyd arfordiroedd a gorlifdiroedd. Mae'r cynefinoedd hyn yn hynod o ffrwythlon yn naturiol, gan eu bod yn derbyn cyflenwad rheolaidd o faetholion drwy garedigrwydd carthion adar y môr neu lifogydd o waddodion bras. Mae dosraniad arforol gan fresych gwyllt, moron, betys gwyllt, asbaragws, pys, cêl ac amryfal aelodau o deulu'r bigoglys, tra mae llawer o rawnfwydydd yn ymagartrefu mewn dyffrynoedd afonydd ffrwythlon.

Nid y ffaith bod planhigion cnwd yn tueddu i fod yn wyrdd llachar ac yn hynod o ffrwythlon yw'r unig ffactorau y tu ôl i benderfyniad ein hynafaid i amaethu rhywogaethau arbennig o blanhigion. Ceir tua 400,000 rhywogaeth o blanhigion ar y ddaear. Fodd bynnag, dim ond tua 200 ohonynt rydyn ni'n eu bwyta yn rheolaidd, sy'n hafal i lai na 1% o'r hyn sy'n bosibl. Felly beth sydd mor arbennig ynglŷn â'n planhigion cnwd? Mae'n ymddangos bod yr ateb i'r cwestiwn pan rydyn ni'n bwyta'r planhigion rydyn ni'n eu bwyta yn gysylltiedig â'u bywyd rhyw yn hytrach nag ar yr ateb mwy



Artichoke




*Yr Athro John Warren working on one of his botanical illustrations which are featured on these pages*

amlwg – am ein bod yn osgoi'r rhai gwenwynig. Y gwir yw bod llawer o gnydau pwysig yn cynnwys cemegau gwenwynig, enghreifftiau clasur yw tatws, tomatos, casafa, hyd yn oed gwenith os nad ydych yn gallu dygymod â glwten. Mae saig genedlaethol Jamaica sef 'akees' yn gwenwyno'n farwol rai o ddinasyddion y wlad yn rheolaidd.

Mae'r dystiolaeth fwyaf grymus bod bywyd rhyw planhigyn yn cyfyngu ar ei allu i gael ei amaethu i'w chael gan y tegeirian. Mae 20,000 rhywogaeth o degeirianau ar gael. Hwyl yw'r mwyaf o ran rhywogaeth o'r holl deuluoedd o blanhigion ac eto dim ond un ohonynt sy'n cael ei dyfu ar gyfer bwyd. Mae'r ffaith nad ydym yn defnyddio tegeirianau ar gyfer bwyd yn dipyn o syndod o gofio bod gan lawer ohonynt gloron gwraidd llawn startsh. Yn hanesyddol byddai cloron tegeirianau gwyllt yn cael eu berwi i wneud diod llawn startsh a elwid yn 'salep' ac a oedd yn fwyd stryd cyffredin a oedd ar gael yn Llundain ac sy'n dal i gael ei yfed yn Nhwrcki. Ystyrid bod grym afrodisaidd mewn 'salep', roedd y gred hon yn gysylltiedig â'r ffaith bod cloron tegeirian yn tyfu yn barau fel rheol, ac roedd hynny yn ei dro yn gysylltiedig a tharddiad y gair 'orchid' o'r gair Groeg am geilliau.

Mae'r rheswm pam na thyfir tegeirian fel cnydau bwyd yn gysylltiedig â'u bywydau rhywiol hynod. Mae blodau tegeirian yn arbennig o gymhleth ac yn nodweddiadol wedi eu cymhwyso ar gyfer eu peillio gan un rhywogaeth o bryf. Mae'r tegeirian a'r pryfyn ddibynol y naill ar y llall er mwyn goroesi. Os ceisiwch chi dyfu tegeirian allan o gyrraedd ei beillydd sydd wedi ei addasu'n arbennig, ni fydd yn datblygu hadau a bydd y cnwd yn fethiant. Felly mae'r unig rywogaeth o degeirian sy'n cael ei dyfu'n fasnachol yn dibynnu ar beillio â llaw. Y rhywogaeth hon yw'r tegeirian fanila ac mae'n dal i fod yn gnwd ymarferol oherwydd bod codau fanila yn hawlio pris digon uchel i dalu'r gost y mae peillio â llaw yn ei olygu.




Os yw cnydau yn mynd i gael eu tyfu'n llwyddiannus dros amrediad daearyddol eang, mae gofyn iddynt feddu ar fecanwaith peillio cyffredinol sy'n dibynnu naill ar y gwynt neu ar wasanaeth pryfed cyffredin megis gwenyn. Y deg cnwd pwysicaf ar y ddaear yw: india corn, gwenith, reis, tatws, casafa, ffa soia, tatws melys, sorgwm, iamau a bananas gwyrdd. Allan o'r rhestr yna mae'r mwyafrif yn rawnfwydydd sy'n cael eu peillio gan y gwynt neu'n gnydau gwraidd sydd ddim yn dibynnu ar gael pryfed i'w peillio. Ffrwythau sydd ddim yn cynnwys hadau yw banas gwyrdd (bananas sy'n cael eu bwyta fel llysiau). Allan o'r rhestr hon dim ond ffa soia sy'n cynhyrchu cnwd hadau nad yw'n ddibynnol ar y gwynt. Fodd bynnag mae ffa soia yn dueddol o hunanbeillio hen fod angen pryfed.

Os nad yw cnydau bwyd pwysicaf y byd yn dibynnu ar gael eu peillio gan bryfed, pam mae'r Cenhedloedd Unedig yn haeru, "mae 70 allan o'r 100 uchaf o gnydau bwyd dynol sy'n cyflenwi tua 90 y cant o faeth y byd, yn cael eu peillio gan weny'n"?

Er bod y mwyafrif o'n prif gnydau yn rhai a beillir gan y gwynt, mae'n drawiadol bod llawer o gnydau eraill yn cael eu peillio gan bryfed, gan gynnwys bron y cyfan o goed ffrwythau tymherus. Mae hyn yn arbennig o ryfedd gan i'r mwyafrif o'r coed hyn esblygu yn wreiddiol mewn cotiroedd collddail sy'n cael eu dominyddu gan rywogaethau mawr a beillir gan y gwynt megis derw, ynn, ffawydd ayyb. Yn eu cynefinoedd naturiol, nid yw hynafiaid afalau, gellyg, ceirios, almonau, eirin gwlanog ayyb byth mor niferus na chyn daled â'r rhywogaethau a beillir gan y gwynt. Mae eglurhad biolegol syml am hyn. Mae peilliad gwynt yn fecanwaith effeithiol i sicrhau ffrwythloniad os oes digonedd ohonoch. Ond ni all rhywogaethau llai a phrinach ddibynnu ar dull o hapdrosoglwyddo o'r fath a rhaid iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth trosglwyddo pail mwy cywir a weithredir gan bryfed.

Mae'r sylw hwn yn codi'r cwestiwn – pam mae cymaint o gnydau ffrwyth yn deillio o rywogaethau llai a phrinach sy'n cael eu peillio gan bryfed yn hytrach nag o'r coed mwy a mwy niferus a beillir gan y gwynt megis derw, ynn a ffawydd? Er enghraifft pam rydyn ni wedi cynefino'r almon yn hytrach na'r fesen? Hyd yn oed heb eu cynefino, mae'r ddwy rywogaeth yn cynhyrchu cnau mawr maethlon ac fel mae'n digwydd mae'r naill a'r llall yn naturiol wenwynig. Mae almwynau gwyllt yn llawn cyanid ac mae mes yn llawn tannin chwerw. Mae'r ateb yn un syml, pe bai ein hynafiaid wedi bod yn ddigon ffodus i ddod o hyd i dderwen heb dannin ynddi ac wedi ceisio sefydlu fferm mes bwytdwy, yna buasai'r amrywiad newydd blasus hwn wedi ei fodd gan baill o'r fforestydd derw lleol a byddai'r genhedlaeth nesaf o dderw wedi troi'n ôl i'r math chwerw gwyllt. Mewn cyferbyniad, pe baech chi'n dod ar draws coeden almon sydd heb cyanid, tasg gymharol hawdd fyddai ei rhwystro rhag croesi gyda'i pherthnasau gwyllt gwenwynig, gan fod y rhain yn llawer llai cyffredin yn y gwyllt na



Hop

choed derw. Os byddech yn sefydlu perllan almon mae'n eithad annhebyg y byddai unrhyw un o'ch coed yn croesi gyda choeden almon wyllt wenwynig.

Mae'n ymddangos felly bod gan lawer o'n cnydau ffrwyth fywydau rhywiol llai egsoftig na rhai'r tegeirianau ond sy'n llai diwahaniaeth na choed derw sy'n malio dim. Yn anffodus mae yna reswm arbennig o daer y tu ôl i'r voyeuriaeth biolegol hwn. Mae'n ymddangos bod poblogaeth llawer o bryfed peillio'r byd yn lleihau a gallai hyn fod â goblygiadau pwysig i'n sicrwydd am fwyd. Fel y gwelwyd nid yw ein cnydau bwyd pwysicaf yn dibynnu ar bryfed i'w peillio. Felly'r newyddion da yw ei bod yn annhebyg y byddwn yn newynu pe bai gwenyn yn diflannu. Fodd bynnag, mae llawer o'n cnydau o ffrwythau angen eu peillio gan bryfed. Yn y gwyllt, mae'r rhywogaethau hyn yn dueddol o ymddangos fel coed gwasgaredig mewn fforestydd, ac felly maent yn ffocws i lawer o weithgarwch pryfed. Heddiw i'r gwrthwyneb mae llawer o'r cnydau hyn yn cael eu tyfu ar raddfa ddiwydiannol fel unllystyfiant yn aml y tu allan i gyrhaeddiad eu peillwyr cynhenid. Felly, hyd yn oed heb y problemau sy'n deillio o blaladdwyr cemegol, clefydau a newid hinsawdd, mae pryfed bob amser yn mynd i gael trafferth i beillio'r holl flodau rydyn ni eu hangen er mwyn cynnal deiet gytbwys a diddorol. 🍷

**Mae Dr John Warren yn Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu ac yn Uwch Ddarlithydd Ecoleg yn IBERS. Mae'n darlithio ar theori ac agweddau ymarferol ecoleg a chadwraeth â blas amaethyddol arnynt. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys cynnal amrywiaeth a datblygiad gwerth cadwraeth, yn arbennig o fewn i ecosystemau amaethyddol. Gallwch ddilyn myfyrdodau botanegol John ar ei flog <http://johnscroblog.wordpress.com/>**




# COD GENETIG Y PRYFYN TSETSE WEDI'I CWBLHAU

Dr Martin Swain o Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth (IBERS), yw un o awduron papur a gyhoeddir heddiw yn y cyfnodolyn uchel ei barch Science ar gwblhau cod genetig y pryfyn Tsetse. Mae'r papur, "Genome Sequence of the Tsetse Fly (*Glossina morsitans*): Vector of African Trypanosomiasis", ar gael ar-lein [www.sciencemag.org/lookup/doi/10.1126/science.1249656](http://www.sciencemag.org/lookup/doi/10.1126/science.1249656)

Pryfaid Tsetse yw'r pryfaid sy'n cludo trypanosomau - parasitiaid - Affricanaidd i bobl ac anifeiliaid yn Affrica Is-Sahara. Mae trypanosomiasis Affricanaidd, neu'r clefyd cysgu, yn glefyd trofannol eang a all fod yn anghueol os na chaiff ei drin. Caiff ei ledaenu gan frathiad tsetse sydd wedi'i heintio â pharasit bach ac mae'n achosi haint difrifol i'r ymennydd a'r meninges (gorchudd yr ymennydd a madruddyn y cefn).

Bydd cwblhau y cod genetig ar y pryfyn Tsetse yn cyflymu'r gwaith ymchwil ar fioleg sylfaenol tsetse, ac yna gellir cymhwyso canlyniadau'r ymchwil i wella dulliau rheoli tsetse ar hyn o bryd.



Dr Martin Swain

Stori llawn: [www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/04/title-149506-cy.html](http://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/04/title-149506-cy.html)

## AILASESU'R DIWYGIWR EINGL-AMERICANNAIDD MAWR, GEORGE WHITEFIELD



Dr David Ceri Jones

**Crefydd efengylaidd yw un o'r mudiadau crefyddol mwyaf deinamig, cyflymaf ei dwf yn y byd heddiw.**

Mae gwreiddiau mudiad efengylaidd byd-eang y cyfnod hwn yn y diwygiadau crefyddol a ysgubodd byd yr Iwerydd

Prydeinig yn negawdau canol y ddeunawfed ganrif.

Mae Dr David Ceri Jones o Adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth wedi derbyn grant o £115,527 gan Ymddiriedolaeth Leverhulme i ddeall y mudiad efengylaidd cynnar yn well drwy ailasesiad o fywyd, cyd-destun ac etifeddiaeth ei dyfeisiwr a'i brif ysbrydoliaeth, y diwygiwr traws-Iwerydd, George Whitefield (1714-1770).

Yn ôl pob tebyg George Whitefield, a groesodd yr Iwerydd o leiaf ddwsin o weithiau rhwng 1738 a 1770, oedd ffigur crefyddol enwocaf y ddeunawfed ganrif. Roedd yn bregethwr carismataidd a byddai'n annerch rhai o'r cynulleidfaoedd mwyaf a gofnodwyd erioed yn Llundain, Bryste, Boston a

Stori llawn: [www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/04/title-148655-en.html](http://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/04/title-148655-en.html)

## MYFYRWYR TALENTOG UNOL DALEITHIAU YN YMWELD Â PHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

**Mae Sefydliad Haf Fulbright Comisiwn Cymru, sydd bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, yn rhaglen ddiwylliannol ac academaidd chwe wythnos ar gyfer myfyrwyr o'r Unol Daleithiau sy'n cael ei gynnal mewn tair prifysgol yng Nghymru sy'n adnabyddus yn rhyngwladol: Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol Caerdydd.**

Mae wyth o fyfyrwr talentog o'r Unol Daleithiau i archwilio daearyddiaeth, diwylliant, treftadaeth a hanes Cymru, yn ymweld ag amgueddfeydd, oriellau a thirnodau twristiaeth rhwng 21 Mehefin - 2 Awst 2014.

Mae'r israddedigion eisoes wedi ymweld â Chaerdydd a Phrifysgol Bangor ac maent bellach yn treulio pythefnos yn Aberystwyth a byddant yn edrych ar newidiadau ym materion economaidd a chymdeithasol canolbarth Cymru.

Eglurodd Gillian McFadyen o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol: "Nod y rhaglen yw darparu myfyrwyr gyda rhaglen academaidd gyffrous, i archwilio daearyddiaeth, diwylliant, treftadaeth a hanes Cymru, yn ogystal â datblygu eu medrau dysgu, ymchwil a chyfathrebu."



Y myfyrwyr Fulbright a Gillian McFadyen

# GRADDIO 2014

*Fe yr hyn sy'n arferol roedd Wythnos Graddio eleni yn un o uchelbwyntiau gwirioneddol calendr y Brifysgol, gyda deg seremoni yn cael eu cynnal o'r 14eg hyd y 18fed o Orffennaf. Bu carfan 2014 o 3,026 o raddedigion yn datblu eu llwyddiant yng nghwmni eu cyfeillion a'u teuluoedd a'u cefnogwyr, ac roedd y rhai na allai fod yn bresennol yn dilyn y seremonïau drwy gyfrwng y gwasanaeth ffrydio byw.*



## CYMRODORION 2014

Yn ystod seremonïau Graddio eleni, braint a phleser y Brifysgol oedd anrhydeddu un ar ddeg o Gymrodyr newydd. Cyflwynir y teitl Cymrawd er mwyn anrhydeddu pobl adnabyddus sydd â chysylltiad agos â Phrifysgol Aberystwyth neu sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i fywyd proffesiynol neu gyhoeddus yng Nghymru. Cymrodyr Anrhydeddus 2014 Prifysgol Aberystwyth yw:

### D GERAINT LEWIS



Mae'r awdur D Geraint Lewis, cyn Lyfrgellydd Addysg a Phlant Dyfed a chyn Gyfarwyddwr Addysg gyda Chyngor Sir Ceredigion, D Geraint Lewis, wedi ei urddo'n Gymrawd Prifysgol Aberystwyth. Yn wreiddiol o Ynys-y-bwl yng Nghwm Clydach, derbyniodd D Geraint Lewis ei addysg ym Mhrifysgol

Aberystwyth. Ef yw awdur *Geiriadur Cynradd Gomer, Y Llyfr Berfau, Pa Arddodiad?, Y Treigludur, a Geiriau Lletchwith*. Mae wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Er Anrhydedd Cyngor Llyfrau Cymru ers 1986 ac enillodd wobwr Tir na n-Og yn 1996 am ei eiriadur Geiriadur Gomer i'r Ifanc. Gwnaeth Geraint Lewis gyfraniad amhrisiadwy i eiriaduraeth Gymreig, ac mae ei gyhoeddiadau niferus yn llafur cariad ac yn dystiolaeth o'i genhadaeth a'i frwdfrydedd wrth gyflwyno'r Gymraeg a'i gramadeg i blant ac oedolion fel ei gilydd.


### YR ATHRO JOHN HARRIES



Yr Athro John Harries sy'n adnabyddus am ei waith ar ffiseg atmosfferig oedd Prif Ymgynghorydd Gwyddonol cyntaf Cymru (2010-2013), ac ef a arweiniodd y tîm a ddaeth o hyd i'r dystiolaeth arsylwol gyntaf bod effaith tŷ gwydr y Ddaear wedi cynyddu rhwng 1970 a 1997. Mae'n gyn-Lywydd y

Gymdeithas Feterolegol Frenhinol, a'r Pwyllgor Ymbelydredd Rhyngwladol ac yn gyn-aelod o fwrdd y Cyngor Ymchwil i'r Amgylchedd Naturiol. Ac yntau'n Athro Emeritws a Chymrawd Ymchwil yn y Coleg Imperial, mae hefyd yn Gymrawd y Sefydliad Ffiseg, y Gymdeithas Feterolegol Frenhinol, Undeb Geoffisegol America ac yn aelod o Gymdeithas Feterolegol America.

### JEREMY BOWEN



Ganwyd Jeremy Bowen, y newyddiadurwr a chyflwynydd teledu uchel ei fri, yng Nghaerdydd, ac ar ôl graddio o UCL a Phrifysgol John Hopkins, ymunodd â'r BBC yn 1984. Wedi treulio llawer o'i yrfa'n ohebydd rhyfel, daeth yn ohebydd y BBC i'r Dwyrain Canol yn 1995, gan weithio o

Jerusalem tan 2000. Ers 2005 ef yw Golygydd y BBC i'r Dwyrain Canol ac mae wedi cyflwyno adroddiadau o fwy na 70 o wledydd, a hynny yn aml o ganol maes y gad. Roedd ymhlith yr ychydig newyddiadurwyr a fu'n gweithio ar yr argyfwng yn Syria yn ddiweddar. Oherwydd ymrwymadau gwaith – mae ar hyn o bryd yn adrodd i'r BBC o'r gwrthdaro yn Gaza – nid oedd modd iddo fynychu'r seremoni. Anfodd neges fideo a oedd wedi ei recordio ychydig cyn y seremoni: <http://youtu.be/BKam3ousucE>

### SIR MICHAEL MORITZ



Mae Syr Michael Moritz, y cyfalafwr menter a dyngarwr sydd yn wreiddiol o Gaerdydd, yn gadeirydd Sequoia Capital yn Silicon Valley, California, lle bu'n gweithio ers 1986. Ar ôl astudio hanes ym Mhrifysgol Rhydychen, symudodd i UDA lle bu'n gweithio am gyfnod gyda'r cylchgrawn Time cyn creu gyrfa iddo'i

hun fel un o fuddsoddwyr mwyaf poblogaidd Silicon Valley. Mae'n gyn aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Google, ac mae ei fuddsoddiadau yng nghwmnïau'r rhyngwlad yn cynnwys Google, Yahoo!, PayPal, Webvan, YouTube, eToys, a Zappos. Cafodd ei benodi'n Farchog Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (KBE) yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2013 am ei wasanaethau i hyrwyddo buddiannau economaidd Prydain a'i waith dyngarol.

## RHODRI MEILIR



Graddiodd Rhodri Meilir, sy'n raddedig o Brifysgol Aberystwyth o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn 2000 ac mae wedi ymddangos mewn nifer o raglenni teledu poblogaidd gan gynnwys rhan Alfie Butts yng nghyfres *My Family* y BBC, *Afterlife* ar ITV a *Hogfather* Terry

Pratchett ar Sky One. Mae hefyd wedi ymddangos mewn nifer o ffilmiau gan gynnwys *The Baker*, *Y Syrcas* gan Kevin Allen yn ogystal â phennod arbennig y Nadolig o *Doctor Who*, *The Runaway Bride*. Yn ystod yr hydref eleni, ymddangosodd ar y sgrin fawr yn *ffilm newydd Pathé Films*, *Pride*. Mae'n adnabyddus ar y teledu yng Nghymru am ei rolau yn *Y Pris*, *Caerdydd*, *Teulu*, *Tipyn o Stad* ac fel *Rapskaliwn*.

## ED THOMAS



Mae Ed Thomas, y dramodydd, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd, yn un o sylfaenyddwyr ac yn gyfarwyddwr creadigol ar y cwmni cynhyrchu Fiction Factory, ac mae wedi ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu dros 120 awr o ddramâu sydd wedi ennill gwobrau ym mhob genre. Mae hefyd wedi

cynhyrchu nifer o raglenni drama ar gyfer S4C gan gynnwys *Caerdydd*, *Y Pris*, *Pen Talar*, *Gwaith/Cartref*, ac yn fwyaf diweddar *Y Gwyll/Hinterland*, cyfres dditectif a gynhyrchwyd yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer S4C a'r BBC ac a ddosbarthwyd yn rhyngwladol gan All3Media. Cafodd llawer o'r gyfres *Y Gwyll/Hinterland* ei ffilmio yn y Brifysgol a'r cyffiniau, a bu Ed yn gyfrifol am drefnu nifer o leoliadau gwaith i fyfyrwyr y Brifysgol wrth i'r gyfres gael ei ffilmio.

## RHOD GILBERT



Mae'r comeiwr a'r cyflwynydd radio a theledu, Rhod Gilbert, yn fab i ddau o gyn-fyfyrwyr Aber. Mae Rhod yn fwyaf adnabyddus am ei athrylith comedi. Ar ôl gweithio fel ymchwilydd marchnadol fe ddechreuodd ar ei yrfa fel digrifwr yn 2002.

Yn 18 mis cyntaf ei yrfa, ef oedd yr un cyntaf

ym Mhrydain i gyrraedd rowndiau terfynol pob cystadleuaeth talent newydd o bwys ac fe lwyddodd i gipio pedair gwobr. Yn 2010, cyflwynodd Rhod gyfres gan y BBC o'r enw Rhod Gilbert's Work Experience lle y rhoes gynnig ar amryw swyddi. Mae'n cyfrannu'n rheolaidd at amrywiaeth o wahanol sioeau comedi ac erbyn hyn mae'n cyflwyno'r Rhod Gilbert Show ar Radio Wales y BBC ar fore Sadwrn.

## YR ATHRO BONNIE BUNTAIN



Yr Athro Bonnie Buntain yw'r Athro Ddeon Cynorthwyol Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol Calgary yng Nghanaada. Cyn ymuno â'r Gyfadran, yr Athro Buntain oedd y Prif Filfeddyg Iechyd Cyhoeddus yng Ngwasanaeth Bwyd a Diogelwch ac Archwilio yr Unol Daleithiau lle roedd hi'n cynghori'r

Swyddfa Gweithrediadau Maes ar yr holl faterion milfeddygol perthnasol i ddiogelwch bwyd, lladd ac ymdrin ag anifeiliaid heb greulondeb, yn ogystal â materion cyflogaeth, recriwtio a chadw milfeddygon iechyd cyhoeddus. Mae'r Athro Bonnie Buntain yn ddoethor mewn meddygaeth filfeddygol, a bu'n Brif Filfeddyg Iechyd Cyhoeddus i lywodraeth yr UD am saith mlynedd ac yn ddiweddarach yn un o ddeoniaid sefydlol ysgol filfeddygol ddiweddaraf Gogledd America yn Calgary, Canada.

## DR JOHN SHEEHY



Mae Dr John Sheehy, yn Bennaeth Emeritws y Labordy Ffotosynthesis Cymhwysol a Modelu Systemau yn y Sefydliad Ymchwil Reis Rhyngwladol (IRRI). Mae Dr Sheehy yn gyn-fyfyrwr o Brifysgol Aberystwyth ac wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa fel gwyddonydd yn arwain timau amlddisgyblaethol yn y

sector gyhoeddus yn arbenigo mewn ffisioleg cnydau, eu cynnyrch a'r amgylchedd. Cyflawnodd waith arloesol ar raglen ymchwil flaengar a sefydlodd dim o wyddonwyr rhyngwladol i dorri tir newydd ar ymchwil i blanhigion reis, a chynnyddu'r cynhaeaf drwy atgyfnerthu ffotosynthesis. Ariannwyd y fenter gan Sefydliad Bill a Melinda Gates ac, yn fuan wedi iddo ymddeol, dyfarnwyd OBE iddo.

## BRIAN JONES



Yr amaethwr a'r entrepreneur o Orllewin Cymru, Brian Jones, yw Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Bwydydd Castell Howell a ffurfiwyd yn y 1980au. Dros y 20 mlynedd diwethaf, mae Castell Howell wedi sefydlu ei hun fel un o brif gyfanwerthwyr bwyd annibynnol y wlad ac mae'n arbenigo

mewn cynnyrch Cymreig ac yn cyflogi 400 o staff. Maent yn gwasanaethu dros 4,500 o gwsmeriaid ar draws ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys ysbtyai, gwestai, bwytai, tafarndai, caffis, ysbtyai, ysgolion a sefydliadau hamdden. Mae Brian yn Gymrawd o'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol ac ar hyn o bryd yn Llywydd Clwb Rygbi Charitables Cymru a Chlwb Rygbi Quins Caerfyrddin. Mae'r cwmni yn un o bartneriaid diwydiannol IBERS ac mae'n cefnogi yr ymchwil a'r datblygiad i wella ansawdd bwyd a chadwyni cyflenwadau cynaladwy.


## Y FARWNES KAY ANDREWS



Y Farwnes Kay Andrews oedd y wraig gyntaf i'w phenodi'n Gadeirydd English Heritage (2009-2013). Hi hefyd yw awdur adroddiad diweddar i Lywodraeth Cymru ar Ddiwylliant, Treftadaeth a Thlodi, ac mae hi hefyd wedi ysgrifennu llyfrau ac erthyglau ar bolisi gwyddoniaeth, polisi cymdeithasol ac

addysg. Mae'r Farwnes Andrews yn gyn-fyfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth, a raddiodd â BA mewn Gwleidyddiaeth Rhyngwladol ym 1964.

## EI UCHELDER BRENHINOL TUANKU MUHRIZ IBNI ALMARHUM TUANKU MUNAWIR



Ym mis Tachwedd, urddwyd ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz ibni Almarhum Tuanku Munawir, yr unfed-ar-dddeg Yang di-Pertuan Besar o Negeri Sembilan, Maleisia, mewn seremoni yn Kuala Lumpur. Graddiodd Ei Uchelder Brenhinol o Aberystwyth yn y Gyfraith yn 1970 ac ef yw

Noddwr Brenhinol Clwb Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ym Maleisia. Mae wedi gwneud cyfraniad pwysig i fywyd masnachol a busnes y wlad. Cydnabyddir ei lwyddiant ym myd busnes yn eang ym Maleisia a'r tu hwnt. Yn ogystal â'i diddordebau proffesiynol, mae Ei Uchelder Brenhinol yn adnabyddus am ei gyfraniadau at achosion elusenol.

# ADUNIADAU

## ABERORIGINALS



Fe welir yn y llun, o'r chwith i'r dde:

**Richard Sanders** - Daearyddiaeth 1974-1977, cyn-aelod o staff Prifysgol Aberystwyth. Chwarae i Glwb Hoci Aberoriginals (ers 1998) ac yn trefnu'r gemau yn erbyn y myfyrwyr presennol ar ddiwedd Mai bob blwyddyn. Chwaraeodd 6 gêm yng Nghwpan y Byd ar gyfer Dreigiau Cymru.

**Dr Antony Wyatt** - Aelod o staff Daeareg tan 1997 ac is-warden Neuadd John Williams rhwng 1976 a 1984, warden Neuaddau Carpenter a Cheredigion rhwng 1984 a 1986. Chwaraeodd 8 gêm ryngwladol dros Gymru dros 60 oed yn 2014, ac mae'n chwarae i Glwb Hoci Aberoriginals hefyd.

**Dr Ben Johnson** - PhD Daeareg, 1979. Capten CPC 69/70. Chwarae i Glwb Hoci Aberoriginals (Capten ers 1977) a Chaptan Cymru dros 65.

**Glyn Thomas** - Cymraeg i Oedolion. Glyn yw Rheolwr a gôl-geidwad Cymru dros 65. Mae'n 73 oed ac ef yw'r aelod hynaf o'r Aberoriginals sydd yn chwarae hoci o hyd. Chwaraeodd 8 gêm ryngwladol dros Gymru dros 65 yn cynnwys pob un o'r 6 gêm yng Nghwpan y Byd yn Yr Hag (gan ildio 3 gôl yn unig yn ystod y gystadleuaeth).

**Jeff Robinson** - PhD Daearyddiaeth, 1976. Capten CPC 73/74, chwaraeodd i dîmau staff CPC yn ystod blynyddoedd olaf y 70au

Ffurfiwyd Clwb Hoci Aberoriginals yng nghanol y 1970au ac roedd yn dîm ar gyfer staff a chyn-fyfrwyr Aberystwyth. Bydd aelodau'r clwb yn dod at ei gilydd i chwarae yn erbyn myfyrwyr presennol ar ddiwedd Mai bob blwyddyn; eleni roedd y myfyrwyr yn wrthwynebwyd cryf gan sicrhau gêm gyfartal ar borfa a chan guro'r Aberoriginals o 5 i 2 ar y cae chwarae ym mhob tywydd. Mae'r tîm hefyd yn cynrychioli Cymru yn y Gystadleuaeth Hoci Ryngwladol flynyddol i Chwaraewyr Hŷn a gynhelir ym mis Awst.

Gwnaeth yr Aberoriginals gyfraniad sylweddol i Dîmau Cymru yng Nghwpan Hoci'r Byd a gynhaliwyd yn Yr Hag ym Mehefin 2014, a chymerodd saith o'n cyn-fyfrwyr ran yn 7fed Gystadleuaeth Cwpan y Byd y Prif Feistri.

a'r 80au. Ysgrifennydd Aberoriginals ers 1977 ac ef yw Rheolwr presennol Dreigiau Cymru. Chwaraeodd 8 gêm ryngwladol dros Gymru dros 65 yn 2014, gan sgorio'r gôl gyntaf yn erbyn yr Eidal yng Nghwpan y Byd.

**Gareth Hughes** - Daearyddiaeth 1970. Cwrddodd â'i wraig yn Nawns y Glas yn Hydref 1967 ac mae'r ddau dal yn briod ar ôl 44 o flynyddoedd. Mae'n chwarae i Glwb Hoci Aberoriginals a chwaraeodd 8 gêm ryngwladol dros Gymru dros 65 yn 2014.

**Ian Johnson** - Amaethyddiaeth 1975 a staff CPC. Chwarae dros Lanllieni a Chlwb Hoci Aberoriginals. Chwaraeodd 8 gêm ryngwladol dros Gymru dros 60 yn 2014.

## DOSBARTH FFISEG 1964

**Ddydd Sadwrn 21 Mehefin 2014, daeth grŵp o bedwar ar bymtheg, yn cynnwys un aelod o staff a chwe chymar, at ei gilydd yn yr Adeilad Gwyddorau Ffisegol i ddathlu 50 mlynedd, i'r diwrnod, ers iddynt dderbyn eu canlyniadau gradd. Trefnwyd y digwyddiad gan William Williams ac ef fu'n crynhoi gweithgareddau'r dydd:**

Rhoddodd yr Athro Evans (Pennaeth presennol yr Adran) gyflwyniad ardderchog yn y brif ddarlithfa ar strwythur presennol yr adran a'i gwaith ymchwil parhaus. Aethom wedyn i'r Labordy Anrhydedd i rannu llawer iawn o atgofion. Ein Dosbarth ni oedd y cyntaf i ddefnyddio'r labordy hwn ac roeddem yn rhan o seremoni agoriadol swyddogol yr adeilad, a oedd yn cynnwys ymweliad â'r dosbarth gan EUB Dug Caeredin. Roedd llawer yn cofio ei gwestiynau diddorol!

Yn ystod y prynhawn, aethom i'r Hen Goleg ac yna i'r Ddarlithfa Ffiseg i weld casgliad o luniau a phethau cofiadwy. Roedd yr aelodau wrth eu bodd yn nodi enwau a gwybodaeth ar gyfer archif y Brifysgol. Cyn i'r diwrnod ddoed i ben, ymwelwyd â'r ddarlithfa Mathemateg Gymhwysol a'i golygfeydd dros Fae Ceredigion, gan ddwyn i gof y darlithoedd a gweld dolffiniaid yn y bae!

Diwrnod i'w gofio – diolch i bawb am wneud ymdrech i fod yno.



Yr Athro Andy Evans a dosbarth Ffiseg 1964, 50 mlynedd yn ddiweddarach..

# CLWB MERCHED 1955–2014

*Sefydlwyd Clwb Merched Prifysgol Aberystwyth yn 1955 er mwyn hybu cyfeillgarwch rhwng y merched a oedd yn gysylltiedig â'r Brifysgol. Mae bron i drigain mlynedd wedi mynd heibio, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae rôl merched yn y Brifysgol wedi newid yn sylweddol. Yma mae Margaret Bates yn edrych yn ôl ar hanes y Clwb a'r penderfyniad i ddod â'r bennod hon yn hanes y Brifysgol i ben.*



*Wendy Davies, Gillian Manton, Margaret Bateman, Judith Bray (Llywydd), Dwynwen Belsey, Elgan Davies, Leontia Slay, Shan Hayward, Mercedes Mills, Hazel Binding.*



Roedd Clwb Merched y Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn drigain oed ym 2014. Roedd y cyfansoddiad gwreiddiol yn adlewyrchu'r angen am sefydliad i hyrwyddo cyfeillgarwch ymysg merched a oedd yn gysylltiedig â'r sefydliad, (fe'i ehangwyd yn ddiweddarach i gynnwys sefydliadau arall yn Aberystwyth), ac i sefydlu system i geisio cyflawni hyn.

Bob tymor yr hydref a'r gwanwyn byddai'r pwyllgor etholedig yn trefnu cyfarfodydd misol gyda sgwrs gan ymwelydd amlwg cyn cael coffi a chlonc. Roedd y siaradwyr yn cynnwys PD James, Mary Warnock, Iarll Powys, Arglwydd Elystan Morgan, a Susi Madron, sylfaenydd Cycling for Softies.

Roedd tymor yr haf ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ac amser gwibdaith.

Roedd hi'n arferol i wraig Pennaeth/Is-Ganghellor y coleg/y brifysgol i fod yn llywydd anrhydeddus y Clwb Merched. Pan ddaeth yr Is-Ganghellor yr Athro April McMahon i Aberystwyth a chytuno i fod yn llywydd anrhydeddus y clwb, roedd yn rhaid addasu ein cyfansoddiad, newid a oedd yn un o gyfres o newidiadau a wnaed yn raddol wrth i'r rôl ac anghenion merched yn y brifysgol newid.

Mae bywydau merched wedi newid yn sylweddol ers 1955; mae mwy yn gweithio tu allan i'r cartref ac yn cael cyfleoedd eang i ddod o hyd i gyfeillgarwch drostynt eu hunain. O ganlyniad, roedd llai o alw am angen canfyddedig y clwb a daeth yn anodd dwyn perswâd ar i unrhyw un ymgymryd gyda'r swyddi trefnu.

O ganlyniad, yn y 2014 penderfynodd aelodau CCB i weithredu'r darpariaethau yn y cyfansoddiad ar gyfer diddymu'r clwb a gofynnwyd i Mr Elgan Davies, Llyfrgellydd y Brifysgol i lunio hanes y clwb, Clwb Merched Prifysgol, Aberystwyth University Women's Club 1955-2015.

Meddai Elgan: "Mae'r hyn mae aelodau Clwb Merched y Brifysgol wedi'i gyflawni dros y 60 mlynedd diwethaf yn aruthrol. Roeddwn i eisioes yn ymwybodol o rai o'u gweithgareddau, ond dim ond pan ddechreuais i fynd drwy'r llyfrau cofnodion, adroddiadau blyneddol a thoriadau papur newydd y des i'n ymwybodol o ehangder eu cyfraniad i'r Brifysgol ac i Aberystwyth ei hun. Maent yn sicr yn haeddu cydnabyddiaeth, ac rwy'n gobeithio y bydd yr hanes cryno hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni hynny."

Er gwaethaf y tristwch o fethu parhau, gwerthfawrogi atgofion o dros drigain mlynedd. Mae llawer i gyfeillgarwch gref yn eu lle, a bydd cyfeillion y Clwb yn parhau i gyfarfod am goffi ar drydydd dydd Mawrth y mis yng Ngwesty'r Marine am 10.30am.

Mae cofnodion y clwb a nodiadau swyddogion ac ati i gyd ar gael yn archif y brifysgol at ddibenion ymchwil.

# CYMDEITHAS Y CYN-FYFYRWYR

STEPHEN LAWRENCE, LLYWYDD CYMDEITHAS Y CYN-FYFYRWYR 2014 / 2015

Ym Mai 1880 sefydlwyd Clwb Coleg Aberystwyth yn Rhydychen. Roedd yr aelodau yn gyn-fyfyrrwyr y 'Coleg ger y Lli' a ddilynodd eu trwynau i 'ddinas y tyrau breuddwydiol'. Wedi hynny, yn 1892, galwodd Tom Ellis, AS Meirionnydd ar y pryd, gyfarfod yn Aber o hen fyfyrwyr y Coleg. Bu'r cyfarfod yn llwyddiant ysgubol, a ffurfiwyd Cymdeithas ac iddi amcanion deublyg – galluogi cyn-fyfyrrwyr i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a hyrwyddo buddiannau'r Coleg. Yn ystod y 120 mlynedd a mwy a aeth heibio ers hynny, mae'r hyn a gyflawnwyd gan y Gymdeithas yn y ddau faes wedi bod yn neilltuol! Yn ôl Dr E.Ellis, yn ei lyfr, 'The University College of Wales, Aberystwyth 1872-1972', 'Ever since 1892 the Old Students' Association has been perhaps the most durable single support to the College'.

O ystyried yr hanes cloddiw hwn, roedd hi'n anrhydedd ac yn fraint i mi dderbyn y gwahoddiad i fod yn Llywydd y Gymdeithas eleni. Bûm yn aelod ohoni ers gadael Aber (ac yn aelod o'r Pwyllgor Cyffredinol ers canol y 1980au) ac rwy'n ymwybodol iawn o'r rhestr o bobl nodedig a fu'n dal swydd Llywydd y Gymdeithas, a gwnaf fy ngorau glas i gynnal y traddodiad a datblygu'r gwaddol grymus a adawyd ganddynt. Gellir gweld rhywfaint o'r gwaddol hwn ar draws Aberystwyth – ceir tîrnodau pwysig sy'n dyst i ymroddiad a brwdfrydedd y Gymdeithas – er enghraifft, yr Ystafelloedd Cynnull a brynwyd gan y Gymdeithas i'w defnyddio fel Undeb y Myfyrwyr (er cof am y cyn-fyfyrrwyr a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf). Cafodd datblygiad cynnar Campws Penglais, y pwll nofio, y labordai iaith a phrosiectau eraill hefyd eu cefnogi gan ymdrechion codi arian sylweddol y Gymdeithas. Os ystyriwch chi hefyd yr ysgoloriaethau a'r cymynroddion di-ri a wnaethpwyd yn bosibl oherwydd haelioni aelodau, mae gennyh gyfraniad enfawr tuag at lwyddiant y sefydliad. Wrth gwrs, yn ystod yr oes heriol sydd ohoni ar gyfer addysg uwch, rhaid parhau'r ymdrech ac adeiladu arni. Yn y cyd-destun hwn mae'r Gymdeithas yn cydweithio â Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumnî'r Brifysgol er mwyn sicrhau bod pob cyn-fyfyriwr yn cael y cyfle i gadw cysylltiad (a pherthynas) â'i hen goleg.

Fel nifer o bobl sydd wedi elwa o awyrgylch cymdeithasol ac academiaidd arbennig Aber, rwy'n ddiolchgar iawn am y blynyddoedd a dreuliais yn y Brifysgol. Hyd yn oed yn 2014 mae agosrwydd (cymharol) ei maint, ansawdd bugeiliol ei lleoliad a chryfder ei rhaglenni academiaidd yn meithrin teyrngarwch ymhlith myfyrwyr ddoe a heddiw sy'n anodd ei guro.

Rhaid i'r Gymdeithas barhau i feithrin y teyrngarwch hwn os yw Aber am elwa ar ewyllys da ac arbenigedd ei chyn-fyfyrrwyr. Bydd gwireddu'r amcan hwn o fudd i'r Brifysgol ac yn sicrhau ein bod ni'n glynu wrth egwyddorion sefydlol y Gymdeithas.



Enillodd Steve radd BSc(Econ) yn 1977 a gradd ymchwil Meistr yn 1979. Dychwelodd i Aber yn 1983 fel Rheolwr Cynadleddau a Chyrsiau Byr cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr cyntaf y Swyddfa Datblygu a Materion Allanol newydd, cyfnod y mae'n dwyn i gof gyda Louise Jagger, y Cyfarwyddwr presennol, ar dudalennau 6 a 7. Roedd Steve yn Brif Weithredwr Llyfrgell Chawton House tan yn ddiweddar ac ef bellach yw Cyfarwyddwr Sefydliad Cyfiawnder Affrica.



## REUNION 2015:

A DATE FOR YOUR DIARY, JUNE 26 – 28TH

Following a very successful Reunion 2014, this year the Association will time Reunion 2015 to coincide with the University's open day for the local community, Access All Areas, on Saturday 27 June. The Committee has arranged to start the weekend's activities with an exclusive tour of the National Library of Wales on the afternoon of Friday 26 June (huge thanks to John Hughes who has organised this as a Friend of the Library). The college reception where the University formally welcomes OSA members back to Aber will be held on Friday evening in Old College, and this year we are delighted to be able to feature a performance of some recently-restored operatic duets from the George Powell music collection held in the Hugh Owen Library. In the glorious setting of Old College, Aber Opera, a local group of talented enthusiasts, will give the first performance in perhaps 200 years of this rare music from the collection of treasures in the University archive.

The AGM of the Association will be held at 10.00am on Saturday 27 June offering a warm welcome to all members, giving you the chance to have your say about the future of the OSA. Then at 11.00am the University will be open to all visitors for Access All Areas, with displays and hands-on activities to show off the wonderful range and depth of work carried out on a daily basis in our modern, research-led institution. There will be something for everyone to see and do, both on Penglairs and at other locations.

The Annual Dinner of the Association will be held in Medrus on Penglairs Campus; a formal occasion heavily laced with a great deal of happy reminiscing and catching up with old friends against a background of excellent hospitality from the Conference Team.

On Sunday the Committee has arranged a visit to a local attraction, but this won't start too early in the morning to give you a chance to recover from Saturday's packed programme!

We would love to welcome you back to Aber; if you would like more information and details of how to book your place at Reunion, please get in touch with the Honorary Secretary or colleagues in the Development and Alumni Relations Office on [development@aber.ac.uk](mailto:development@aber.ac.uk) or 01970 621568.

## ACTIVITIES

As well as the OSA's regular annual activities at the Eisteddfod (5 August), Royal Welsh Agricultural Show (21 July) and Llandovery Lecture (Saturday 30 May), there are local branches organising events in their area too, for example the London Branch's programme of guided walks: St Paul's and Blackfriars on 16 April 2015 and the origins of the Port of London on 6 May 2015. If you would like to know more about any OSA activities please get in touch at the addresses above or see the web page [www.aber.ac.uk/alumni](http://www.aber.ac.uk/alumni) and follow the links.

### London Branch's Guided walks:

St Paul's and Blackfriars	- 16 Ebrill
The origins of the Port of London	- 6 Mai
Llandovery Lecture	- 30 Mai
<b>OSA Reunion 2015</b>	<b>- 26 - 28 Mehefin</b>
Access All Areas	- 27 Mehefin
Royal Welsh Agricultural Show	- 21 Gorffennaf
Eisteddfod	- 5 Awst

# PENODIADAU

*Mae gennym lawer o resymau i ddatblu cyn-fyfyriwyr; staff a myfyriwyr Aber. Dim ond detboliad obonynt sydd yma; llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.*

## YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

### Penodiadau Newydd



Penodwyd yr **Athro Richard Beardsworth** i Gadair

Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym mis Medi 2013. Cyn

hyn roedd yn Athro Theori Ryngwladol ym Mhrifysgol Ryngwladol Fflorida (2012-2013) ac yn Athro Athroniaeth Wleidyddol a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Americanaidd Paris (2005-2011).



Cafodd yr **Athro Mike Gooding** ei benodi'n Gyfarwyddwr Athrofa Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig.

Cyn hyn roedd yr Athro Gooding yn Athro Gwyddor Cnydau ac Agronomeg, a Phennaeth yr Ysgol Amaethyddiaeth, Polisi a Datblygu ym Mhrifysgol Reading.



Penodwyd **Louise Jagger** yn Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni ym mis Mawrth 2014. Yn gyn-

fyfyrwr o brifysgolion Caerfaddon ac Aberystwyth, a chanddi dros 25 mlynedd o brofiad o ymgyrchoedd codi arian yn y Deyrnas Gyfunol, mae Louise wedi arwain apeliadau cyfalaf sylweddol, ymgyrchoedd codi arian a rhaglenni rhoddi rheolaidd i nifer o elusennau, gan gynnwys Scope, NCH a'r NSPCC.



Penodwyd **Phil Maddison** yn Gyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

Cyn ymuno â'r Brifysgol, gweithiai Phil mewn diwydiannau rheoledig, gan gynnwys gweithio i'r llywodraeth a'r sectorau cyhoeddus yn y Dwyrain Canol a'r Deyrnas Gyfunol.



Cafodd yr **Athro Mustapha Kamal Pasha** ei benodi i Gadair Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym mis Hydref

2013, ar ôl bod yn ddeiliad Cadair y Chweched Ganrif a Phennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol

Aberdeen ers 2006, a chyn hynny'n dysgu yn yr Ysgol Gwasanaeth Cyhoeddus, Prifysgol American, yn Washington, DC.



Penodwyd yr **Athro Gary Rawnsley** yn Athro Diplomyddiaeth Gyhoeddus. Daw i Aberystwyth o

Sefydliad Astudiaethau Cyfathrebu ym Mhrifysgol Leeds, lle'r arbenigai mewn diplomyddiaeth gyhoeddus, pŵer meddal, rhyfela propaganda a gwybodaeth, gyda phwyslais arbennig ar Tsieina a Thaiwan.



Cafodd **Gareth Lloyd Roberts** ei benodi'n Gyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau ym mis Tachwedd 2013. Cyn

hynny roedd Gareth yn Gynhyrhydd yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, lle treuliodd 9 mlynedd yn gweithio mewn swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys Swyddog Rhaglennu a Rhaglennwr.



Ymunodd yr **Athro Kevin Shingfield** â'r Brifysgol yn Athro Ffisioleg Maethol yn Athrofa Astudiaethau

Biologol, Amgylcheddol a Gwledig. Yn ei swyddogaeth newydd bydd yn canolbwyntio ar ddeall ymatebion ffisiolegol, biologol ac economaidd bwysig, mewn anifeiliaid a'r effeithiau ehangach ar yr amgylchedd, ansawdd cynnyrch ac iechyd pobl.



Penodwyd **Mark Taylor** yn Gyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau. Mae'n gyn-fyfyrwr o Brifysgol Westminster lle graddiodd â BSc mewn Rheoli Ystadau Trefol, ac o Brifysgol de Cymru lle'r enillodd Ddiploma Ôl-raddedig mewn Rheolaeth. Mae gan Mark tua 30 mlynedd o brofiad yn y sector Ystadau.

### Penaethiaid Adrannau



**Yr Athro Simon Cox**  
Adran Mathemateg



**Dr Nigel Holt**  
Adran Seicoleg



**Dr Anwen Jones**  
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



**Dr Louise Marshall**  
Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol



**Dr Bernard Tiddeman**  
Adran Cyfrifiadureg



**Yr Athro John Williams**  
Adran y Gyfraith a Throsedddeg

### Uwch Benodiadau



**Yr Athro Kate Bullen**  
Cyfarwyddwr Moeseg a Chydraddoldeb



**Caryl Davies**  
Cyfarwyddwr Cymorth i Fyfyriwyr



**Tim Davies**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth



**John Glasby**  
Prif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyriwyr



**Alwena Hughes Moakes**  
Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus



**Ruth Owen Lewis**  
Cyfarwyddwr Swyddfa Rhyngwladol



**Yr Athro Colin McInnes**  
Cyfarwyddwr Ymchwil, Effaith a Rhagoriaeth



**Yr Athro Sarah Prescott**  
Cadair Rendel mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg



**Yr Athro Michael Woods**  
Athro Gwyddor Weddnewidiol y Gwyddorau Cymdeithasol



## Cadeiriau Personol



**Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones**

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



**Yr Athro Alun Hubbard**

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



**Yr Athro Luis Mur**

Iathrofa Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig



**Yr Athro Martyn Powell**

Adran Hanes a Hanes Cymru



**Yr Athro Malcolm Thomas**

Yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes

## A THU HWNT I BRIFYSGOL ABERYSTWYTH



Penodwyd yr **Athro John Williams** o Adran y Gyfraith a Throseddeg ar banel ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu a chefnogi oedolion sy'n agored i niwed, gyda chyfrifoldeb arbennig am fframwaith cyfreithiol amddiffyn oedolion a Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.



Mae'r **Athro John Grattan**, Dirprwy Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol, wedi ei benodi i Fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA).



Mae **Sue Chambers**, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, wedi ei phenodi'n Gadeirydd ar Adnoddau Dynol Prifysgolion (UHR) (Cymru), ac yn aelod o Weithrediaeth UHR y DG.



Mae'r **Athro Tony Jones**, Athro Emeritws yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, wedi ei benodi yn Brif Aseswr ar gyfer y 7fed Cyfnod o Raglen Hydrolegol Ryngwladol UNESCO (International Hydrological Programme IHP).



Penodwyd **Dr John Scally** (Diploma mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, 2007), yn Brif Weithredwr a Llyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol yr Alban. Mae'n dilyn ôl troed cyn-fyfyrwr arall o Aber, Martyn Wade a ymdeolodd ddiwedd mis Mawrth.



Mae'r **Athro David Trotter**, Pennaeth yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd a Chyfarwyddwr prosiect y Geiriadur Eingl-Normaneg, wedi ei ethol yn aelod anrhydeddus tramor (*correspondant étranger*) o'r *Académie des Inscriptions et Belles-Lettres ym Mharis*.

## GWOBRAU A CHYFLAWNIADAU



**Charmian Gooch** (Hanes, 1987) yw enillydd y Wobr TED flynyddol ar gyfer 2014.

Gwobr yw hon a ddyfernir i unigolyn eithriadol â gweledigaeth greadigol a mentrus i ysbrydoli newid byd-eang. Trwy ddylanwadu ar adnoddau cymunedol TED a buddsoddi \$1 miliwn mewn syniad grymus, mae Gwobr TED yn cefnogi un dymuniad i ysbrydoli'r byd. Gallwch weld ei darlith yma: [www.ted.com/talks/charmian\\_gooch\\_my\\_wish\\_to\\_launch\\_a\\_new\\_era\\_of\\_openness\\_in\\_business](http://www.ted.com/talks/charmian_gooch_my_wish_to_launch_a_new_era_of_openness_in_business)




**Lillian Stevenson**, Llyfrgellydd Pwnc ar gyfer Adran y Gyfraith a Throseddeg, Gwleidyddiaeth

Ryngwladol a Rheolwr Gwasanaethau Academaidd, yw enillydd Gwobr Llyfrgellydd Cyfraith y Flwyddyn Wildy BIALL 2014 (Cymdeithas Llyfrgellwyr y Gyfraith ym Mhrydain ac Iwerddon). Llongyfarchiadau i **Peter Keelan** (MSC Gweinyddu Archifau, 2007), a gafodd ei anrhydeddu fel Llyfrgellydd y Flwyddyn yng Nghymru yng nghynhadledd flynyddol Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP) Cymru.




**Tudur Parry** (Amaethyddiaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad), yw enillydd Ysgoloriaeth

Ffermio Llyndy Isaf ar gyfer 2014/5. Dechreuodd Tudur ar ei gyfnod yn rheoli Llyndy Isaf, fferm fynydd 614 acer, ym mis Medi. Tudur hefyd oedd enillydd gwobr Myfyrwyr Amaeth y Flwyddyn IBERS ar gyfer 2014 ac mae e'n dilyn ôl troed Caryl Hughes, enillydd y llynedd, sydd hefyd yn gyn-fyfyrwraig.



Dyfarwydd statws Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch i **Dr Debbie Nash** o'r Athrofa Gwyddorau Biologol Amgylcheddol

a Gwledig. Mae Debbie'n Uwch Diwtor a Darlithydd mewn Gwyddor Ceffylau ac Anifeiliaid yn IBERS ac mae'n un o ddwy fenyw yn unig yn y Brifysgol i dderbyn y Wobr.



Enillodd yr actor o Gaerdydd a'r cyn-fyfyrwr o Aber **Mathew David** (Drama, 2009) wobwr yng Ngŵyl Ffilm

Sundance yn Utah yn Ionawr 2014 am ei rôl yn y ffilm *Burger*. Cafodd y ffilm fer 11 munud, a ariannwyd gan Wobr Ffilm Iris, ei saethu ar leoliad yng Nghaerdydd ac mae'n

dilyn unigolion sy'n ymweld â bar byrgyr hwyr yn y nos. Enillodd Mathew, ynghyd â'r cast a'r cyfarwyddwr Magnus Mork, wobwr am actio ensemble a chyfarwyddwyd yn yr ŵyl.

Llongyfarchiadau i gyn-fyfyrwraig o Aber, **Lleucu Roberts** (BA, PhD Y Gymraeg 1989), ar ei llwyddiant ym maes llenyddiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cipiodd Lleucu y ddwy brif wobwr i lenorion, sef Gwobr Goffa Daniel Owen am y nofel *Rhwng Edafedd* a'r Fedal Ryddiaith am y gyfrol *Saith Oes Efa*.

Llongyfarchiadau i gyn-fyfyrwr o Aber, y bardd nodedig **Ceri Wyn Jones** (Saesneg, 19\*\*?), ar ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli eleni. Teitl y gystadleuaeth eleni oedd 'Lloches'. Dyma'r eildro i Ceri ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol.



Roedd **Stephen Jones**, cynbostmon a chyn-fyfyrwr o Aber (Ffiseg, 2005), ymhlith chwe enillydd Gwobr Dysgu

Ffiseg 2013. Mae ef bellach yn Bennaeth Ffiseg yn Ysgol Penglais, Aberystwyth, ac mae wedi cael ei ddisgrifio fel athro eithriadol o dda.



Mae **Kate Hamer** (MA Ysgrifennu Creadigol, 2014) wedi cael ei harwyddo ar gyfer dau lyfr gan Faber.

Bydd nofel gyntaf Kate, *The Girl in the Red Coat*, yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2015.



Arwyddwyd nofel gan **Eliza Granville**, myfyrwraig PhD Ysgrifennu Creadigol, gan un o brif gyhoeddwr y

DU. Cyhoeddwyd *Gretel and the Dark* gan Hamish Hamilton, argraffnod Penguin, yn Chwefror 2014.



Derbyniodd **Dr Huw Morgan**, darlithydd yn yr Adran Ffiseg, wobwr a sefydlwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

er cof am Dr Eilir Hedd Morgan, darlithydd ym Mhrifysgol Bangor dan nawdd y Coleg Cymraeg, a laddwyd mewn damwain yn 2013. Bydd y wobwr flynyddol yn cael ei chyflwyno i unigolyn o dan ddeugain mlwydd oed sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol ym maes gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.



Llongyfarchiadau i **Lucy-Jane Newman** (Rheolaeth a Busnes, 2014) a enillodd WobrCaisDyfeisio 2014,

fersiwn Prifysgol Aberystwyth o Dragon's Den sydd werth £20,000 i'r enillydd. Derbyniodd ei syniad buddugol, 'Florence Taylor' - menter i weithgynhyrchu a gwerthu offer harddwch wedi eu gwneud â llaw ym Mhrydain, glod mawr gan y panel.



Llongyfarchiadau i **Dr Anja Gebel** (PhD, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 2012) ar gael ei gwobrwyo â

Gwobr Traethawd Hir Arglwydd Bryce yn ddiweddar gan y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol. Cyflwynir y wobwr am y traethawd hir PhD gorau ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol / Gwleidyddiaeth Gymharol.



Cyhoeddwyd mai **Gruffudd Antur** (Ffiseg, 2013) oedd prifardd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Meirionnydd 2014. Mae Gruffudd yn fardd nodedig sydd wedi ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri yn 2012, a chadair yr Eisteddfod Ryng-golegol dros Aberystwyth yng Nghaerdydd yn 2011 ac ym Mangor yn 2012. Ef hefyd oedd bardd cadeiriol Eisteddfod Llanuwchllyn yn 2011.



**Dr Sarah Taylor from the University's Planning, Governance and Business Information Department won the Firefly Children's**

**Book Prize 2014, with *Arthur and Me a 21<sup>st</sup> century take on a rather grumpy King Arthur and his squabbling knights.***

Yn Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru 2014, enillodd **Meic Stephens** (Ffrangeg, 1961) y categori Ffeithiol Creadigol am Rhys Davies: *A Writer's Life*; enillodd Francesca



Rhydderch (PhD, Saesneg 2001) y categori Ffuglen gyda *The Rice Paper Diaries* ac enillodd Tyler Keevil, myfyriwr PhD, Wobr Dewis y Bobl am *The Drive*.




Cafodd cyn-fyfirwraig, **Francesca Rhydderch** (PhD, Saesneg 2001), ei gosod ar restr fer Gwobr

Genedlaethol Stori Fer y BBC 2014, am ei stori fer 'The Taxidermist's Daughter', sydd wedi'i lleoli yn Aberystwyth. Roedd Tessa Hadley, Lionel Shriver, Zadie Smith a Rose

Tremain hefyd ar y rhestr fer.



Llongyfarchiadau i **Dr Susan J Davies** (Darlithydd Cysylltiol yn yr Adran Astudiaethau


Gwybodaeth) ar ennill Gwobr Ellis, a ddyfarnwyd iddi gan y Gymdeithas Archifau a Chofnodion. Mae'r Wobr yn cael ei rhoi i gydnabod gwaith rhagorol yn y sector a 'chyfraniad sylweddol at theori ac ymarfer archif'. Bu Dr Davies yn dysgu yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru rhwng 1979 a 2008, ac ynghlwm wrth yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth rhwng 1998 a 2008. 

## AWARDS AND ACHIEVEMENTS

### AR GYFER PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

The **BEACON Biorefining Centre of Excellence**, an innovative Welsh research partnership between Aberystwyth, Bangor and Swansea Universities, has won a prestigious European Commission RegioStars Award for 2014. Led by IBERS at Aber, BEACON is dedicated to developing industrial products from plants. Further information is available online at [beaconwales.org/en/](http://beaconwales.org/en/)

Cyrhaeddodd yr **Ysgol Rheolaeth a Busnes** y rhestr fer ar gyfer gwobr **Ysgol Fusnes y Flwyddyn** yng ngwobrau'r *Times Higher Education* 2014.



Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cyrraedd y rhestr fer mewn dau gategori yn y Gwobrau Cadwedigaeth Ddigidol eleni. Crëwyd y Gwobrau yn 2004 gan y Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol ac maent yn ddathliad o lwyddiant y bobl a'r sefydliadau hynny sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol ac arloesol i sicrhau bod ein cof digidol yfory yn hygyrch.

Mae'r Brifysgol wedi cael ei chydabod am ei chynnydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb rhyw yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol gyrfaoedd mewn addysg uwch drwy sicrhau'r lefel Efydd ym **Marc Siarter Cydraddoldeb Rhyw** treialu'r Uned Herio Cydraddoldeb - y cynllun gwobrau cyntaf o'i fath ar gyfer y disgyblaethau hyn.



Mae'r Brifysgol hefyd wedi derbyn ei **Gwobr Siarter Athena SWAN** gyntaf sydd yn cydnabod ymrwymiad i hyrwyddo gyrfaoedd menywod mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth (STEMM) mewn addysg uwch ac ymchwil.

Mae'r Brifysgol wedi ennill **Gwobr Efydd yn y Safonau Iechyd Corfforaethol**, menter sy'n cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a'r marc ansawdd am hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru.



# Y SILFF LYFRAU


*Dim ond amlinelliad byr yw'r canlynol o rai o'r lliaws o lyfrau a gynbyrchwyd gan academyddion Aberystwyth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:*



## The Bible as Visual Culture: When Text Becomes Image

**John Harvey, Celf**

Astudiaeth ryngddisgyblaethol o'r Beibl a gweledolrwydd sy'n cymhwyso dulliau damcaniaethol a methodolegol – o'r brodorol i gelfyddyd gain, hanes celf, ac astudiaethau diwylliannol gweledol ond newydd i astudiaethau Beiblaidd – i archwilio arwyddocâd delweddau i esboniadau Beiblaidd a sut y mae delweddau yn egluro'r Ysgrhythrau.



## Claudia Williams: An Intimate Acquaintance

**Robert Meyrick a Harry Heuser, Celf**

Mae'r artist ffigurol Claudia Williams yn peintio'n reddfol, gan gymryd themâu ac ysbrydoliaeth o agweddau o'i bywyd personol. Mae'r llyfr hwn yn rhoi golwg agosach ar ddatblygiad a dylanwadau artistig Williams, ei deunydd addurnol o weadedd a phatrymau, yn ogystal â'i dulliau amrywiol o drin pethau sy'n cyfleu mor graff ymdeimlad o undod a thosturi.



## So Many Moving Parts (casgliad o gerddi)

**Tiffany Atkinson, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Myfyrdod ecsentrig yr 21ain ganrif ar letchwithdod y corff a'r ysbryd a'u hymyraeth annisgwyl a diangen mewn llawer i fusnes bywyd bob dydd. Yn delynegol ac arbrofol yn eu tro, mae'r cerddi hyn yn peri i ddigwyddiadau cyfarwydd – cymundo, teleffonau, gwarchod plant, teithio dramor – agor allan tuag at gwestiynau na ellir eu hateb a chysylltiadau sylfaenol gyda byd materol anwadal.



## Reading Poetry

**Peter Barry, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Mae'r llyfr hwn yn darlunio elfennau allweddol barddoniaeth ar waith, gan gynnwys llawer math gwahanol o farddoniaeth o ffurfiau traddodiadol hyn fersiynau arloesol o'r gelfyddyd, megis barddoniaeth 'goncridd', minimaliaeth a cherddi geiriau rhydd.



## The Visitor (nofel)

**Katherine Stansfield,  
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**


Tyfodd Katherine Stansfield i fyny ar Bodmin Moor yng Nghernyw. Symudodd i Gymru yn 2002 i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth lle mae hi nawr yn gweithio fel darlithydd ar Ysgrifennu Creadigol. *The Visitor* yw ei nofel gyntaf ac mae wedi ei thrwytho yn arfordir a phobl Cernyw.



## Marlford (nofel)

**Jacqueline Yallop,  
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Nofel wedi ei lleoli yn haf 1969, yn archwilio'r berthynas rhwng gorffennol strwythuredig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gofynion newydd yr ugeinfed ganrif. Mae'r nofel yn pwysu ar ymchwil i dai bonedd Seisng, pentrefi model a chloddio halen.



## Open Problems in Spectral Dimensionality Reduction

**Harry Strange a Reyer Zwiggelaar,  
Cyfrifiadureg**

Mae'r ychydig flynyddoedd diweddaraf wedi gweld cynnydd mawr ym maint y data sydd ar gael i wyddonwyr, er hynny ni all llawer o'r technegau a ddefnyddir i ddadansoddi'r data ymdopi â chronfeydd data mor fawr. Mae gostyngiad dimensiynoldeb rhithiol yn un offeryn o'r fath ar gyfer y biblinell prosesu data, a bydd y llyfr hwn yn gymwys i unrhyw un gyda seiliau cadarn mewn ystadegau a chyfrifiadureg sy'n ymfyn gweithredu dimensiynoldeb rhithiol yn ei waith.



## Small Screen Aesthetics: From TV to the Internet

**Glen Creeber, Astudiaethau Theatr, Film a Theledu**

Mae'r astudiaeth arloesol hon yn darparu disgrifiad beirniadol a hanesyddol o estheteg sgrin fach, gan olrhaid ei darddiad o ddyddiau cynnar teledu hyd oes y rhyngwrwyd, You Tube a thu hwnt.



## Cult Film Stardom: Offbeat Attractions and Processes of Cultification

**Golygwyd gan Kate Egan a Sarah Thomas,  
Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Mae'r casgliad golygedig hwn yn darparu golwg gyffredinol yr oedd mawr ei hangen o'r amrywiaeth o brosesau drwy'r rhai y mae sêr y ffilmiau ac actorion yn cael eu cysylltu â'r label cwt. Mae'n cyfuno penodau gan grŵp rhyngwladol o ysgolheigion sy'n canolbwyntio ar ystod eang o sêr ac actorion cwt.



## Theatre and Event:

*Staging the European Century*

**Adrian Kear,  
Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Mae'r llyfr hwn yn archwilio sut, yn negawdau cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, mae gwneuthurwyr theatr Ewropeaidd cyfoes wedi ceisio ystyried digwyddiadau trychinebus yr ugeinfed ganrif fel 'busnes anorffenedig' y cyfoes.



## Social Media and Minority Languages: Convergence and the Creative Industries

**Golygydd gan Elin Haf Gruffydd Jones, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys astudiaethau achos, dadleuon damcaniaethol, cymariaethau rhyngwladol ieithoedd lleiafrifol, ac yn cynnwys agenda ymchwil ar gyfer datblygu maes astudiaeth Cyfryngau Ieithoedd Lleiafrifol. Mae'n rhoi sylw i'r sialensau sydd ymhlyg mewn amgylcheddau cyfathrebu symudol aml-lwyfan, ac yn canolbwyntio ar y peryglon a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgîl cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni Web 2.0 eraill.



## Gwenlyn Parry

**Roger Owen, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Gwenlyn Parry oedd un o ddramodwyr Cymraeg pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Yr astudiaeth hon yw'r driniaeth estyniedig gyntaf o'i fywyd a'i waith yn Saesneg, ac mae'n archwilio'r berthynas gymhleth a pharadocsiaidd rhwng agweddau hunangofiannol ei waith a'i ddefnydd o'r ffurf theatrig.



## Contemporary Military Strategy and the Global War on Terror: US and UK Armed Forces in Afghanistan and Iraq 2001-2012

**Alastair Finlan, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**


Mae'r testun hwn sy'n darparu dadansoddiad trylwyr o strategaeth yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig yn Affganistan ac Irac o 2001 hyd heddiu, yn archwilio datblygiad strategaeth filwrol gyfoes yn y Gorllewin yn yr oes fodern cyn cwstyngu'r deunydd ohono yn y Rhyfel Fyd-eang yn erbyn Terfysgaeth.



## Unwanted Visionaries: The Soviet Failure in Asia at the End of the Cold War

**Sergey Radchenko, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r llyfr hwn sy'n archwilio polisi Sofietaidd tuag at Asia yn y 1980au yn dod â hanesion dwyochrog – hanes perthnasau Sofietaidd gyda Tsieina, India, Japan a gwledydd Asiaidd eraill – yn fetanaratif sy'n dangos sut roedd yr arweinyddion Sofietaidd, o Brezhnev i Gorbachev, yn ystyried Asia yn theatr ar gyfer dadlau rhwng y pwerau mawr, a sut y bu i'w polisiau rhanbarthol fethu yn y pen draw.



## Armed Drones and the Ethics of War: Military Virtue in a Post-Heroic Age

**Christian Enemark, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r llyfr hwn yn asesu goblygiadau moesegol defnyddio cerbydau awyr arfog di-griw ('hunter-killer drones') yn ystod gwrthdaro cyfoes, yng ngoleuni egwyddorion moesegol a fwriadwyd i warchod rhag cynnydd annheg yn nifer yr achosion ac angeuoldeb gwrthdaro arfog.



## Democracy Promotion: A Critical Introduction

**Jeff Bridoux a Milja Kurki, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r cyflwyniad pwysig hwn i hyrwyddiad democratiaeth yn ceisio darparu ar gyfer myfyrwyr ddealltwriaeth o beth o'r ddynameg a'r cynhennau allweddol sy'n cylchdroi o amgylch yr agenda polisi dadleuol hwn.



## The Sword and the Shield: Britain, America, NATO and Nuclear Weapons 1970-1976

**Kristan Stoddart, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Ceir yma ddirnadaeth newydd o bolisiau arfau niwclear llywodraeth Heath a'r anawsterau a brofwyd ganddynt hwy a llywodraeth Lafur Wilson yn ystod hanner cyntaf y 1970au mewn perthynas â pholisi cenedlaethol a chysylltiadau gyda chynghreiriaid.




## Turkey facing east:

*Islam, modernity and foreign policy*

**Ayla Göl, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r lyfr hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd perthynas Twrci gyda'i chymdogion Dwyreiniol - Azerbaijan, Armenia a'r Undeb Sofietaidd – yn y cyfnod pan oedd y wladwriaeth genedlaethol Dwrciaidd yn ymddangos allan o adfeilion yr Ymerodraeth Ottoman.




## Political Leadership:

*Themes, Contexts and Critiques*

**Michael Foley, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae arweinyddiaeth, yn arbennig arweinyddiaeth wleidyddol, yn faes hynod o ddi-ddal sy'n creu lliaws o wahanol safbwyntiau ffocws eglurhaol.

Mae'r astudiaeth newydd hon yn cysylltu ag ystod eang o ymchwil empirig, damcaniaethol a dehongliadol i fater arweinyddiaeth ond mae'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau bod cymeriad gwleidyddol y gwrthrych yn cael ei gadw'n ddiogel yn y blaen.



## The Celtic Balkans

**Alexander Falileyev, Cymraeg**

Mae'n wybyddus bod pobl oedd yn siarad Celtaidd wedi ymsefydlu yn y Balcanau o'r drydedd ganrif C.C. ymlaen. Mae'r llyfr hwn yn darparu'r astudiaeth gynhwysfawr gyntaf o enwau lleol ac enwau pobl perthnasol yn Albania, Bwlgaria, Groeg, Kosovo, Macedonia, Montenegro, Serbia a'r rhan o Dwrci sydd yn Ewrop.



## Pygiana ac Obsesiynau Eraill

**Mihangel Morgan, Cymraeg**

Casgliad o erthyglau ar y celfyddydau yng Nghymru, Lloegr a'r Unol Daleithiau – astudiaeth bersonol o rai o'r enwau mwyaf mewn ffilmiau a'r celfyddydau gwledol.

# TEYRNGEDAU

*Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi ar y tudalennau hyn golli alumni, myfyriwyr, Cymrodwr ac aelodau staff, sydd, neu a fu'n astudio yma, ac yr bysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.*

## Yr Arglwydd Wyn Roberts, (1930 – 2013)



Ganwyd Ieuan Wyn Roberts yn Llansadwrn, Ynys Môn ac enillodd ysgoloriaethau i astudio yn Ysgol Harrow ac yna yng Ngholeg Prifysgol Rhydychen lle'r astudiodd hanes. Aeth ymlaen i ddilyn gyrfa ym myd newyddiaduraeth a darlledu lle y daeth yn amlwg yn fuan iawn fod ganddo ddawn aruthrol ac addewid mawr. Yn ystod y 1950au a'r 1960au bu'n is-olygydd ar y Liverpool Daily Post, yn gynorthwydd newyddion i'r BBC ac yn swyddog rhaglenni gyda sianel Television Wales and the West (TWW), ac yna sianel deledu Harlech.

Yn 1970 cafodd ei ethol yn Aelod Seneddol Ceidwadol dros Gonwy. Bu'n AS yno am 27 o flynyddoedd, a bu'n ddigon ffodus i gael dewis pryd i ildio'i sedd (braint

anghyffredin i Aelod Seneddol!). Am bedair ar hugain o'r saith mlynedd ar hugain hynny bu'n ymwneud yn agos mewn un ffordd neu'r llall â'r Swyddfa Gymreig, yn Ysgrifennydd Preifat Seneddol i bedwar o Ysgrifenyddion Gwladol Cymru o dan ddau Brif Weinidog. Y Gymraeg oedd ei famiaith, sgil gwerthfawr iawn wrth iddo gynorthwyo'r Ysgrifenyddion di-Gymraeg hynny. O 1974 – 79 ef oedd llefarydd swyddogol mainc flaen yr wrthblaid ar Faterion Cymreig. Bu'n Weinidog yn y Swyddfa Gymreig am bymtheg mlynedd, o 1979 – 1994, y cyfnod di-dor hiraf a dreuliwyd gan unrhyw weinidog yn yr un adran. Os yw wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth, mae'n rhaid bod degawd a hanner yn hydoedd.

Roedd ganddo allu i ddadansoddi hanfodion problem ac yna ddod o hyd i ateb a oedd yn briodol o safbwynt Cymru. Does ryfedd felly y byddai pobl yn dweud wrth sôn am ei berfformiad fel gweinidog ei fod yn “bâr diogel o ddwylo”, nad oedd “dim cynhyrfu arno” a'i fod yn “cadw'i ben mewn argyfwng”. Gwelwyd sawl ymosodiad gan ei wrthwynebwyr yn toddi yn wyneb ei wedd hawddgar a'i wên hynaws dros y blwch dogfennau.

Yn 1990 cafodd ei urddo'n farchog am ei wasanaeth i wleidyddiaeth a'r flwyddyn wedyn fe'i penodwyd yn aelod o'r Cyfrin Gyngor. Yn 1997 daeth yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn y flwyddyn honno hefyd rhoddwyd iddo deitl Barwn Roberts o Gonwy. Ef oedd llefarydd yr wrthblaid ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Arglwyddi tan 2007. Ar ôl ymddeol bu hefyd yn Llywydd ar Ysgol Feddygaeth Prifysgol Cymru.

Dywedodd yr Arglwydd Elystan Morgan wrth gynnig yr Arglwydd Roberts yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth: “Mae gwleidyddiaeth, fel sawl maes dyrys arall, yn dangos pobl ar eu gorau ac ar eu gwaethaf. Yn achos Wyn Roberts does dim dwywaith amdani – fe'i dangosodd ar ei orau. Roedd cyn gydweithwyr a gwrthwynebwyr iddo fel ei gilydd yn y Senedd yn cyfeirio ato fel bonheddwr cwrtais a dymunol. Peth prin iawn yw canmoliaeth mor uchel â hynny.”

Mae'r Arglwydd Roberts yn gadael gwraig, Enid, a dau fab, Huw a Geraint. Bu farw ei fab Rhys yn 2004.

## Torin Lakeman (1995 – 2014)

Bu farw Torin Lakeman, myfyriwr ffiseg yn ei ail flwyddyn, ym mis Rhagfyr 2014. Dywedodd yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg: “Roedd Torin yn fyfyrwr deallus, a gafodd farciau rhagorol yn ei flwyddyn gyntaf, ac yn arbennig felly mewn modiwlau ffiseg Gymhwysol a Seryddiaeth. Bydd staff a myfyriwyr yr Adran yn gweld ei goll'i'n fawr a bydd ganddynt atgofion annwyl amdano.”

## Ern Nian Yaw (1991 – 2014)

Ymunodd Ern Nian Yaw, myfyriwr a raddiodd yn y Gyfraith gyda 2 (1) LLB, â rhaglen Meistr Hawliau Dynol a Chyfraith Dyngarol Adran y Gyfraith a Throsedddeg. Dychwelodd Ern i Malaysia ym mis Mehefin 2014 i gwblhau ei draethawd hir ac i fanteisio ar leoliad gwaith gyda Chomisiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, ond bu farw yn drasig mewn damwain car ym mis Gorffennaf 2014, tra'n dychwelyd i Kuala Lumpur o Malacca ar ôl sicrhau rhyddhau deugain o ffoaduriaid o ganolfan gadw. Mewn teyrnged, dywedodd yr Athro John Williams, Pennaeth Adran y Gyfraith a Throsedddeg: Wedi iddo gyrraedd Aberystwyth yn 2012, gwnaeth Ern argraff fawr ar fywyd yr adran, nid yn unig fel myfyriwr brwd, ond hefyd fel unigolyn unigryw ac arbennig. Roedd ei bersonoliaeth gynnes, ei wên lachar a'i ddihymongarwch digamsyniol yn swyno pawb y gyfarfu ag ef. Heb os, byddai Een wedi bod yn ymgyrchydd rhagorol dros hawliau dynol. Byddai wedi gwneud gwahaniaeth - byddai wedi gweithio i lunio cymdeithas decach a mwy cyfiawn.

# STAFF

## Yr Athro Dave Barnes (1955 – 2014)



Roedd Dave Barnes yn Athro Roboteg y Gofod a'r Planedau yn yr Adran Gyfrifiadureg.

Yn wreiddiol o Blackburn, graddiodd o Brifysgol Bradford cyn mynd ymlaen i gwblhau gradd Meistr mewn Deallusrwydd a Roboteg Beirianyddol o Goleg y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain, ac yna

Doethuriaeth mewn Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg yma yn Aberystwyth yn 1985.

Chwaraeodd Dave rol allweddol yn natblygiad y fraich robotig a oedd yn rhan o daith Beagle 2 i'r blaned Mawrth a bu'n gweithio'n agos gyda'r diweddar Athro Colin Pillinger. Roedd Dave yn aelod o Bwyllgor Cynghori Aurora Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Deyrnas Gyfunol (AurAC) ers 2005, ac roedd yn cynrychioli buddiannau cymuned Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirianyddol a Ffisegol ar faterion yn ymwneud a Rhaglen Ymchwil i'r Planedau Aurora yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

Roedd yn aelod ac yn un o sefydlwyr Rhwydwaith Roboteg y Gofod a'r Planedau y Deyrnas Gyfunol, ac yn aelod o Bwyllgor Gwyddoniaeth Ffiseg Gronynnau, Seryddiaeth a Ffiseg Niwclear Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Deyrnas Gyfunol - PANN.

Roedd yn aelod o dim Crwydryn ExoMars yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, ac yn ymchwilio i ddulliau caffael samplau gwyddonol ymreolaethol ar gyfer taith ofod ExoMars yn 2018. Roedd yn Gydymchwilydd ar Gamera Panoramig y daith (PanCam).

Fel aelod o'r Tim Golwg 3D PanCam, roedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys modelu, efelychu, prosesu data delweddau a delweddau data gwyddonol PanCam.

Yn fwy diweddar, bu'n ganolog i ddatblygiadau cychwynnol y cynllun Gofodborth arfaethedig drwy ei waith gyda Phartneriaeth Academaidd y Gofod Cymru.

Bu farw Yr Athro Dave Barnes ar 25 Gorffennaf 2014, yn 58 mlwydd oed.

## John Basterfield (1941 – 2014)



Roedd Dr John Basterfield yn gyn ddarlithydd yn yr Adran Ystadegaeth ac yna'r Adran Mathemateg.

Yn wreiddiol o Barrow-In-Furness, derbyniodd John radd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg o Gaergrawnt yn 1963. Parhaodd i astudio yng Nghaergrawnt tan 1967 gan gwblhau'r Tripos

Mathemateg yn 1964, ac yna tair blynedd fel myfyrwr ymchwil. Dyfarnwyd Doethuriaeth iddo o Gaergrawnt yn 1972 a chafodd ei waith mewn damcaniaeth tebygolrwydd bur ei ddefnyddio yn ddiweddarach mewn geometreg feidraidd, mathemateg arwahanol a damcaniaeth codio.

Ym 1967 penodwyd John yn Ddarlithydd Cynorthwyol mewn Ystadegaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yna yn Ddarlithydd. Drwy'r cyfuniad o'i frwdfrydedd, eglurder ei fynegiant a'i hiwmor

da daeth John yn ddarlithydd poblogaidd boed hynny'n trafod prosesau stocastig neu gasgliadau ystadegol, ei hoff bynciau, neu yn ei sesiynau cyfrifiadurol ymarferol.

Roedd parch mawr i'w modd yr oedd yn ymdrin â materion academaidd, a gwnaeth John gyfraniad sylweddol i lwyddiant y gwaith uno a greodd yr Adran Mathemateg.

Roedd John yn barod i drafod mathemateg ar unrhyw adeg, ac roedd ei adnabyddiaeth o'r pwnc yn eang a dwfn. Parchwyd ei sylwadau a'i ddirnadaeth bob amser. Ymddeolodd yn 1997 ond parhaodd i ddarlithio yn rhan amser ac yn wirfoddol tan yn ddiweddar iawn.

Yn ei amser hamdden, roedd yn chwaraewr gwyddbwyll brwd ac yn gefnogwr mawr o glybiau lleol.

## Geoff Constable (1957 – 2014)



Ymunodd Geoff Constable a'r Brifysgol yn 1995, gan gyflawni sawl swyddogaeth yn ystod y pedair blynedd ar ddeg hynny. Yn fwyaf diweddar, ef oedd Swyddog Cyswllt Porth Dysgu CADARN sy'n cael ei ariannu gan CCAUC ac sy'n brosiect cenedlaethol yn gweithio gyda staff academaidd sy'n creu cyfryngau addysgiadol i ysbrydoli myfyrwyr newydd i ddod i addysg uwch.

Roedd Geoff yn athro cymwysedig ac yn raddedig o Brifysgol Caint, Caergaint a Phrifysgol Aberystwyth, lle cwblhaodd MSc mewn Cyfrifiadureg yn 1994.

Ymunodd Geoff a'r Adran Gyfrifiadureg yn 1995, gan gyflawni sawl swyddogaeth a gweithio ar sawl prosiect, gan gynnwys y prosiect "MICE-NSC", gwfeistr, gosod aml-lediad IP, lle bu'n hyrwyddo ac yn gwerthuso'r defnydd o gyfathrebu aml-lediad IP, Gwasanaeth Cynghori Technoleg Fideo ledled y Deyrnas Unedig, astudiaethau "Ansawdd Gwasanaeth" IP, gosod rhwydwaith wledig, y defnydd o gyfathrebu a TG, a phrosiect peirianeg meddalwedd mawr o'r enw SCREEN wedi ei gyllido gan arian Ewropeaidd.

Yn 2001, ymunodd Geoff a'r Ganolfan Cefnogi Rhwydwaith Fideo Cymru, menter flaengar a byd-arweiniol a sefydlwyd gyda'r staff wedi'u lleoli yn Abertawe ac Aberystwyth. Penodwyd Geoff yn Swyddog Cynorthwyo Gwasanaethau Fideo, a bu'n gweithio yno tan 2012 gan gefnogi rhai miloedd o ddefnyddwyr y rhwydwaith.

Ers tro bu Geoff yn aelod o Dim Rheoli Lleol UCU ac yn gynrychiolydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Gweithiodd yn ddiflino yn y swyddi hyn gan gefnogi'r Undeb a buddiannau ei haelodau yn Aberystwyth.

Roedd yn gefnogwr brwd o achosion gwyrdd ac amgylcheddol a bu'n llwyddiannus wrth godi proffil y materion hyn o fewn y Brifysgol. Roedd Geoff yn ymwneud a dau brosiect TGCh Gwyrdd a oedd yn ymchwilio i'r arbedion mewn allyriadau carbon a allai gael eu gwneud trwy ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol. Yn ddiweddar, ef oedd yn gyfrifol am sefydlu'r cynllun bocs llysiâu organig ac roedd yn rhan ganolog o dim Effaith Gwyrdd Gwasanaethau Gwybodaeth.

Bu farw Geoff Constable ar 30 Gorffennaf 2014, yn 57 oed.

## ESTYNWN GYDYMDEIMLAD Â THEULUOL A CHYFEILLION Y CANLYNOL:

(\* aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr)

**Anthony, Mr David G\***, bu farw Mawrth 2014 (Hanes, 1953)

**Atherton, Mr Gary**, bu farw Mai 2013

(Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1977)

**Barnes, Mrs Gwyneth\***, née Roberts,

bu farw Awst 2013 (Ffrangeg, 1962)

**Bevan, Mr Derek R B\*** (Y Gyfraith, 1959)

**Bleines, Mr David Norman**, bu farw

Chwefror 2014 (Athroniaeth, 1969)

**Cann, Mr Richard David Michael**,

bu farw Medi 2014 (Ymddygiad

Anifeiliaid, 2012)

**Cartwright, Mr Raymond**, dyddiad ei farwolaeth yn anhysbys (Mathemateg, 1952)

**Chandler, Mr Ian**, bu farw Mehefin 2013 (1982)

**Chilton, Mr Stephen**, bu farw Tachwedd 2014 (Celf 2004, MA 2013)

**Cwyfan Hughes, Mr Dafydd Emrys\***, bu farw Mehefin 2014 (Y Gyfraith, 1944)

**Davies, Mrs Eleanor Nesta\***, née Lewis (Saesneg, 1947)

**Davies, Miss Sharon**, dyddiad ei marwolaeth yn anhysbys (Addysg, 2005)

**Elfyn, Miss Maree**, bu farw Rhagfyr 2013 (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, 2011, TAR 2012)

**Evans, Mr Hywel Griffiths\***, bu farw Ionawr 2014 (Economeg, 1956)

**Felton, Mr Michael**, bu farw Ionawr 2014 (cyn aelod o staff)

**Fidler, Mr Douglas N\***, bu farw Rhagfyr 2013 (Amaethyddiaeth 1945, MSc 1947)

**Flynn, Mrs Vivica Jane**, née Nielsen, bu farw Mai 2014 (Drama, 1981)

**Fuller, Mr Terry**, bu farw Chwefror 2014 (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1967)

**Gardner, Mr Howard Stuart\***, bu farw Ionawr 2014 (Cemeg, 1949)

**Gibbon, Mr Richard John**, bu farw Rhagfyr 2013

**Gillespie, Mrs Margaret Gwennant\***, née Davies, bu farw Awst 2014 (Y Gymraeg, 1935)

**Hawkes, Yr Athro Terence**, bu farw Ionawr 2014 (Staff Saesneg 1961)

**Howell, Mr Christopher John**, bu farw Mawrth 2014 (Economeg, 1990)

**Hughes, Dr Elinor\***, bu farw Ionawr 2014 (gweddw'r Dr John Hughes)

## Paul Davis (1977 – 2014)



Roedd Paul Davies yn dafluniwr a thiwtor yng Nghanolfan y Celfyddydau. Wrth dalu teyrnged i Paul, dywedodd ei gydweithwyr yng Nghanolfan y Celfyddydau: "Roedd Paul yn aelod hynod boblogaidd o dîm Canolfan y Celfyddydau. Roedd yn barod iawn ei gymwynas ac yn mynd i'r afael â phob tasg yn gadarnhaol a chyda brwdfrydedd; wrth weithio yn y cafes yn gynnar yn ei yrfa, yna fel aelod ymroddedig o dîm y sinema, ac fel tiwtor ysbrydoledig yn nosbarthiadau animeiddio'r plant neu fel arweinydd cefnogol yn y Digilab.

Roedd bob amser yn barod i fynd y tu hwnt i'r hyn oedd yn ddisgwyliedig, ac roedd yn ddyn gwirionedd hyfryd. Bydd ei ffrindiau yng Nghanolfan y Celfyddydau, a'r holl bobl a ddaeth i gysylltiad ag ef, yn gweld ei eisiau yn fawr."

Dyn teulu, cariadus oedd Paul ac yn dad arbennig i'w fab ifanc, Sam. Bu farw Paul ar 13 Medi, yn 37 oed, yn dilyn salwch byr.

## Annwen Frost (1946 – 2014)



Ymunodd Annwen â'r Adran Addysg Barhaus fel Ysgrifenyddes Cymraeg i Oedolion yn 1995, a bu'n gweithio am gyfnod yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg, ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gyda'r Darlithydd â Chyfrifoldeb dros Gymraeg i Oedolion.

Bu cyfraniad Annwen yn dra phwysig i ddatblygu rôl Prifysgol Aberystwyth fel darparwr cyrsiau Cymraeg i Oedolion dwys ac uwch, a hynny dros ardal eang a ymestynnai o Harlech yn y gogledd i Landeilo yn y de ac i Dyddewi yn y gorllewin. Symudodd Annwen i wneud yr un gwaith yn y Ganolfan Addysg Barhaus newydd, yn 10 Maes Lowri, Aberystwyth, yn 2003.

Annwen hithau a wasanaethai'r Cwrs Haf (Wlpan Awst gynt), sef y cwrs haf preswyl i ddysgwyr Cymraeg o bob safon, a gynhelir ar gampws Prifysgol Aberystwyth, bob haf, nes iddi hi gymryd ymddeoliad cynnar, yn 2011, oherwydd salwch tymor hir.

Caiff Annwen ei chofio fel person hynod o weithgar a chydwybodol, oedd yn hoff iawn gan bawb a ddaeth i gysylltiad â hi. Roedd ei brwdfrydedd dros y gwaith a wnâ'n heintus. Câi ei phersonoliaeth siriol a'i hagwedd gadarnhaol ei gwerthfawrogi'n fawr iawn gan ei chydweithwyr a myfyrwyr fel ei gilydd. Roedd hi'n fodlon mynd y filltir ychwanegol i helpu eraill, ac i hyrwyddo'r achos Cymraeg i Oedolion bob amser.

Bu farw Mrs Annwen Frost ar 10 Medi 2014, yn 67 mlwydd oed.

## Yr Athro Ivor Gowan (1922 – 2014)

Yn gyn-bennaeth yr Adran Gwyddor Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth o 1965 tan 1988, bu'r Athro Ivor Gowan hefyd yn Ddirprwy Brifathro am gyfnod.

Bu Ivor a'i wraig, Gwen, yn driw i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth fel y'i gelwid a chwaraeodd ran fawr yn y gwaith o lywodraethu'r Coleg. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn datganoli yng Nghymru. Bu hefyd yn allweddol yn annog myfyrwyr o dramor i astudio yn Aberystwyth.

Bu farw Yr Athro Ivor Gowan ar 8 Awst 2014, yn 92 mlwydd oed.

## Yr Athro David Gwilliam (1953 – 2014)



Bu'r Athro Gwilliam yn gweithio i'r Brifysgol o 1978 hyd 1989, gan ddod yn ôl yn 1992 pan apwyntiwyd ef i Gadair Ernst a Young. Bu yma nes iddo gael Cadair ym Mhrifysgol Caerwysg

Ile y bu'n Bennaeth Adran tan iddo ymddeol ym mis Hydref 2013.

Ganed David Gwilliam yn Bromsgrove, Swydd Caerwrangon, ar ddydd Iau 12 Mawrth, 1953. Ar ôl symud i Lundain aeth i ysgol Dulwich Hamlet ac yna i Ysgol Birkenhead yng Nghilgwri.

Aeth ymlaen i Goleg y Drindod, Caergrawnt yn 1971. lle yr enillodd Ysgoloriaeth i ddarlenn Economeg. Dychwelodd i Gaergrawnt yn Gymrawd yng Ngholeg Churchill ar ol iddo gymhwyso'n Gyfrifydd Siartredig gyda Price Waterhouse.

Ar ôl hynny, cafodd Gadeiriau mewn Cyfrifeg ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Chaerwysg, a bu'n athro ymweld yn Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Monash ym Melbourne Awstralia, ac yn aelod o Banel Cyfrifeg a Chyllid yn Asesiad Ymchwil 1998.

Traddododd 7fed Ddarlith Goffa Tom Robertson ym Mhrifysgol Caeredin yn 1989 a Darlith PD Leake yn Sefydliad Cyfrifeg Siartredig Cymru a Lloegr yn 2003.

Yn 2013, cafodd Wobr Cyflawniad Oes gan Gymdeithas Cyfrifeg a Chyllid Prydain, ac yntau'n aelod gweithgar a dylanwadol iawn o Gynhadledd Athrawon Prifysgolion y Gymdeithas honno.

Bu farw'r Athro David Robert Gwilliam ar 31 Awst 2014 yn 61 mlwydd oed.

## Mariaine Victorine (Peggy) Jones (1948 – 2014)



Ganed Peggy yng Ngwlad Belg, a dechreuodd ar ei gyrfa fel nyrs yn hyfforddi yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Yn ddiweddarach, astudiodd radd mewn nyrsio yn Llundain a dychwelodd i Aberystwyth i ymgymryd â rôl Metron ym Modlondeb.

Ar goresffordd gyrfa, cyfarfu Peggy â Dr Kemp, a oedd ar y pryd yn Warden Cwrt Mawr, a gofynnodd iddi a fyddai hi'n hoffi bod yn 'yn fam i 1,300 o fyfyrwyr y Brifysgol'. Bu'r cyfarfod damweiniol hwn yn ysgogiad i ddechrau ar fywyd newydd a hapus fel Rheolwraig Preswylfeydd gyda'r Brifysgol.

Ymddeolodd Peggy ar ôl 16 mlynedd hir o wasanaeth yn 2007.

**Hurley, Mrs Margaret Maurine\***, née Thomas, bu farw Mehefin 2014 (Daearyddiaeth, 1949)

**Isaac, Dr Philip John**, bu farw Hydref 2013 (Ffiseg, 1953 a PhD 1956)

**James, Mr Owain Richard**, bu farw Gorffennaf 2013 (Ffiseg, 2004)

**Johnston, Dr Charlotte S\***, née Ware, bu farw Mehefin 2014 (Athroniaeth, 1947, MA Saesneg, 1948)

**Jones, Mr Owen Evan**, bu farw Chwefror 2013 (1951)

**Kabbah, Mr Alhaji Ahmad Tejan**, bu farw Mawrth 2014 (Economeg 1959)

**Lewis, Mrs Kathleen\***, née Oldaker, bu farw Hydref 2013 (1948)

**Lewis, Mrs Ann**, née Harries, bu farw Ionawr 2014 (Y Gymraeg, 1954)

**Lindley, Yr Athro Dennis**, bu farw Rhagfyr 2013 (Staff Ystadegaeth 1960-1967)

**Martin, Mr Raymond Joseph**, bu farw Tachwedd 2013 (Economeg, 1972)

**Millar, Mrs Freda\***, née Poley, bu farw Mehefin 2014 (1952)

**Morris, Mr John Rhys Oakley**, bu farw Mawrth 2013 (Lladin, 1938)

**Pritchard, Mrs Lilian Mary\***, née Roylance, bu farw Ionawr 2014 (Hanes, 1956)

**Prothero, Yr Athro Ralph Mansell\***, bu farw Rhagfyr 2013 (Daearyddiaeth,

1945, MA 1947)

**Roberts, Mr Daniel**, bu farw Ebrill 2013 (Addysg, 1974)

**Roberts, Mr Brian Guest\***, bu farw Ionawr 2014 (Ffiseg, 1956)

**Samuel, Mr Michael Robert**, bu farw Ebrill 2014 (Saesneg, 1998)

**Smith, Mrs Elinor Gwenda, née Jones**, bu farw Mai 2013 (Ffrangeg, 1951)

**Sullivan, Mr Gordon David\***, bu farw Medi 2014 (Botaneg Amaethyddol, 1948)

**Thomas, Mr John Rees**, bu farw Tachwedd 2013 (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1980 a 1984)

**Thomas, Mr David Roy\***, bu farw Ebrill 2014 (1962)

**Wilkerson, Mr Ted Levin\***, bu farw Gorffennaf 2014 (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1977)

**Williams, Dr Vivian\***, bu farw Mawrth 2014 (Daearyddiaeth, 1952)

**Williams, Mr John David Thomas\***, bu farw Gorffennaf 2014 (Swoleg, 1959)

**Wilson, Yr Athro David\*** (PhD Botaneg Amaethyddol 1968)

**Wootton, Dr Robert John**, bu farw Mawrth 2014, (Staff Swoleg)

**Yeoman, Dr Glyndwr**, bu farw Chwefror 2014, (Cemeg, 1949 a PhD 1952)

## Dr Richard Kemp (1941 – 2014)



Cafodd Richard Kemp yrfa hir a llwyddiannus ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y gwyddorau biolegol. Daeth i Aberystwyth gyntaf yn 1962 yn fyfyrwr israddedig i astudio sŵoleg. Aeth ymlaen i fod yn fyfyrwr olraddedig, yn ddarlithydd ac yna'n uwch ddarlithydd yn yr Adran Sŵoleg, cyn ei benodi'n

Ddarllenydd mewn Sŵoleg, ei swydd tan ei ymddeoliad yn ddiweddar o IBERS. Ei brif faes ymchwil oedd y problemau sy'n gysylltiedig â chanser sy'n deillio o ymlyniad celloedd anifeiliaid, Yn ddiweddarach canolbwyntiodd ar allbwn gwres o gelloedd unigol sy'n cael eu monitro gan microcalorimetreg. I ffwrdd o'i waith academaidd, bu'n Drysorydd Clwb Cymdeithasol Brynamlwg a Warden neuadd breswyl Cwrt Mawr am gyfnodau maith.

Yr oedd hefyd yn hoff iawn o griced ac yn ddyfarnwr. Yn sgil ei waith ar y cyd gyda labordai yn Georgia, y Crimea a Rwsia trefnodd ei gydweithwyr yno deithiau uchelgeisiol i lawr afon Volga ac ar draws y Môr Du i Sevastopol ar y cwch araf o Istanbul.

Cyflawnodd hyn er gwaethaf anabledl sylweddol ers ei blentyndod.

## Graham Lloyd Rees

Gyda thristwch y nodwn farwolaeth yr Athro Graham Lloyd Rees, cyn bennaeth yr Adran Economeg a Dirprwy Brifathro y Brifysgol.

## Dr Boris Mitavskiy (1976 – 2014)



Dechreuodd Dr Boris Mitavskiy ei gyflogaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 1 Mai 2011 fel Cynorthwydd Ymchwil gyda Chyfrifo Esblygol a ariennir gan yr EPSRC o fewn yr Adran Gyfrifiadureg.

Cafodd PhD mewn Mathemateg o Brifysgol Michigan ar ol cwblhau Baglor yn y Gwyddorau mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Talaith Arizona.

Gweithiodd Dr Mitavskiy i sawl prifysgol cyn dod i Aberystwyth gan gynnwys Prifysgol Sheffield, Birmingham a'r Sefydliad A\* Biowybodeg yn Singapore. Ynghyd a dau awdur arall, enillodd Boris y papur gorau yng ngwobr y flwyddyn yn 2009 gan yr International Journal on Intelligent Computing and Cybernetics.

Roedd yn gweithio ar brosiect Evolutionary Approximation Algorithms for Optimization: Algorithm Design and Complexity Analysis. Canolbwyntiodd y prosiect ar ddylunio a dadansoddi algorithmau esblygol brasamcan ar gyfer problemau anodd optimeiddiaeth megis amserlennu a llwybro.

Roedd y prosiect yn golygu astudio a chymharu gwahanol fathau o algorithmau esblygol, gan gynnwys algorithmau genetig, algorithmau imiwnedd artiffisial, optimeiddiaeth

nythfa morgrug ac amcangyfrif o algorithmau dosbarthu, ac yn cyfuno gwyddoniaeth gyfrifiadurol ddamcaniaethol draddodiadol a chyfrifiant esblygol. Mae'r prosiect hwn yn un

ar y cyd a phartneriaid ym Mhrifysgol Birmingham.

Bu farw Dr Boris Mitavskiy ar 10 Gorffennaf 2014, yn 38 mlwydd oed.

## Michael John (Mike) O'Hara (1933 – 2014)



Yr Athro Michael O'Hara FRSE FLSW FRS, cyn Athro Daeareg a Phennaeth Adran ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mike O'Hara oedd un o betrolegwyr mwyaf blaenllaw ei genhedlaeth. Dywedir y byddai geocemeg a phetroleg igneaidd modern yn wahanol iawn

heb amryfal ddarganfyddiadau Mike, ei ymdrechion creadigol, a'i graffter dwys. Ef oedd y cyntaf i ddefnyddio petroleg arbrofol a damcaniaethol i ddeall prosesau ffurfio cramen y cefnfor o'r fantell waelodol. Roedd hefyd yn un o wyddonwyr gwreiddiol yr Apollo a

fu'n archwilio'r creigiau a ddaeth o'r Lleuad. Dyfarnwyd iddo Fedal Murchison Cymdeithas Ddaeareg Llundain a Medalau N L Bowen a Hess Undeb Geoffisegol America.

Wrth wraidd llwyddiant Michael John O'Hara fel gwyddonydd roedd ei weledigaeth a'i ffordd ddihafal o fynd ati bob amser i herio traddodiad ac awdurdod. Roedd yn ddyn hoffus ac agos-atoch a lwyddai i guddio'i ysgolheictod aruthrol a'i ofalon ysol am y pwnc dan fantell o hiwmor. Mae llawer o wyddonwyr daear ym mhob cwr o'r byd yn fawr eu dyled iddo am ei anogaeth a'i gyngor diflino. Bydd colled fawr ar ei ôl.

*David Rickard*

## David Williams (1973 – 2014)



Roedd David Williams yn Diwtor Iaith yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes.

Talodd yr Ysgol Rheolaeth a Busnes y deyrnged ganlynlol:

'Ymunodd David â'r Ysgol ar adeg hollbwysig pan roedd yn paratoi ar gyfer ei ail-achredu gyda Chymdeithas MBA. Efen hanfodol o'r achrediad hwn oedd cymorth iaith Saesneg ar gyfer y nifer fawr o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yn yr Ysgol.

Roedd ei waith diweddar ar baratoi strwythur cymorth cwbl newydd i fyfyrwyr rhyngwladol yr Ysgol, wedi cael ei gydnabod yn benodol yn adroddiad cadarnhaol yr AMBA ar yr Ysgol. Roedd addysg a phrofiad blaenorol David mewn busnes ac economeg yn ei wneud yn diwtor delfrydol i fyfyrwyr yr Ysgol Rheolaeth a Busnes.

Yr oedd yn broffesiynol tu hwnt ac yn dangos dewrder anhygoel wrth weithio drwy nifer o rowndiau o gemotherapi. Roedd David yn uchel ei barch ac roedd pawb yn hoff iawn ohono yn y gymuned ac fe fydd golled fawr.'

## Robert John Wootton (1942 – 2014)



Yn frodor o Birmingham, astudiodd am ei radd gyntaf ym Mhrifysgol Caergrawnt, gan fynd ymlaen i gwblhau PhD yn UBC, Vancouver. Dechreuodd ei yrfa hir mewn ymchwil ac addysgu yma yn Aberystwyth yn yr Adran Sŵoleg, gan orffen fel Darllenydd yn IBERS.

Roedd Bob yn cael ei adnabod yn rhyngwladol am ei ymchwil ar bysgod, a chrethyll yn benodol. Roedd yn awdur nifer o bapurau a llyfrau yn y maes hwn a chafodd ei ethol i Gymrodoriaeth Cymdeithas Linnean. Yn 2010 dyfarnwyd iddo Fedal Le Cren Cymdeithas Pysgodfeydd Ynysoedd Prydain. Roedd yn gwbl ymroddedig i addysgu ac roedd yn allweddol wrth sefydlu'r cyrsiau gradd arloesol a elwid yn Wyddor yr Amgylchedd a Bywydeg Dyfrol. Mae'r cyrsiau a olynodd, Biowyddorau Amgylcheddol a Morol a Bywydeg Dŵr Croyw, yn parhau i ddenu myfyrwyr i IBERS.





Bethan Gwanas

# O BANTY I BENTAN

*Er mai niwlog yw rhai o'r atgofion bellach, mae'n falch gen i ddweud mod i'n cofio cryn dipyn am y tair blynedd dreuliais i ym Mhantycelyn rhwng 1980 a 1984 (mi fydd y rhai mathemategol yn eich mysg wedi sylwi'n syth mai pedair blynedd sydd rhwng 80 ac 84, ond Ffrangeg oedd fy mhwnc gradd, felly roedd fy nbrydedd blwyddyn yn Ffrainc, tu vois).*

Mae'r enw 'Pantycelyn' yn dod ag arogl disinfectant yn ôl i'm ffoenau; sŵn y ffonau (oedd yn cymryd darnau 10c) yn canu ar y llawr gwaelod, ac yn canu a chanu nes i rywun gwirion ei ateb ac yna gorfod trotian i fyny ac i lawr y grisiau yn chwilio am fab/merch/cariad y galwr; ciwiau hirfaith am y tri ffôn ar nos Sul ac ochneidio o glywed y bobl o'ch blaen yn gwneud galwadau 'reverse charge' gan y golygai hynny alwadau o hanner awr a mwy; ciwiau hirach fyth ar gyfer y bath a'r ddefod reolaidd o orfod chwilio am blwg, gan fod y bechgyn yn hoffi dwyn plwgiau'r merched am ryw reswm. Mi fydden nhw hefyd yn hoffi llenwi bath gyda dŵr oer a thafu rhyw greadur diniwed i mewn iddo, yn ei ddillad. O, roedd o mor ddoniol.

Dwi'n dal i gofio'r wefr o weld llythyrau yn fy nhwll colomen yn y lolfa, llythyrau mawr tew wedi eu sgwennu â llaw gan gyfeillion a theulu, llythyrau oedd gymaint mwy diddorol nag unrhyw tecst neu neges Facebook; sŵn 'Stondin Sulwyn' a 'Galw Gari' (Williams) yn treiddio o stafelloedd ganol wythnos, a 'Sosban' Richard Rees ar ddydd Sadwrn; ymarferion côr yn codi croen gwydd wrth basio, a llond y lolfa yn gwylio Grange Hill yn y pwn.

O, a dwi'n cofio'r peiriannau Space Invaders a Pacman yn y stafell pool drws nesa i'r lolfa. Mae'n gas gen i feddwl faint o oriau, naci, dyddiau, a darnau 10c wastraffais i yn fan'no. Roedd y Space Invaders wedi cydio ynof fi o ddifri, ro'n i mor gystadleuol, yn benderfynol o gael y sgôr ucha a churo Huw

Chambers. Yn anffodus, mi fyddwn yn saethu'r 'Invaders' yn hytrach na gwneud fy nhraethodau, yn hytrach na mynd i arholiadau hyd yn oed, ac mi ges fy hel o flaen y Deon ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf. Llwyddais – o drwch blewyn – i'w berswadio y byddwn yn rhoi'r gorau i gêm y diafol ac yn gweithio'n galetach ac na ddylwn i orfod ail-wneud fy mlwyddyn gyntaf. Ffiw.

Byddai cylchgrawn 'Llais y Lli' yn ymddangos bob tymor, yn llawn lluniau ac erthyglau difyr, amrywiol eu safon, ac weithiau, byddai awduron di-enw yn cyhoeddi tudalen A4 o 'Sŵn Drwg', sef rhestr o glecs a sgandals oedd weithiau'n ddigri ac weithiau'n hynod greulon: sylwadau fyddai'n ddigon enllibus i hel rhywun o flaen ei well y dyddiau yma.

Dwi'n cofio darllen a thorheulo ar y parapet ar ddyddiau heulog, a sylu ar yr haul yn machlud dros fae Ceredigion o ffenest y llofft fawr sengl ges i yn fy mlwyddyn olaf, pan ddois i'n ôl o Ffrainc, yn berson callach, aeddfetach oedd wedi dysgu bod mwy i fywyd nac yfed yn wirion. Nes i rywun ddeud "Cŵps? Hanner awr wedi pump?"

Mae gen i atgofion melyn o'r sgysiau dros baned efo'r 'gens' drannoeth y sesh, pawb wedi gwasgu i mewn i un llofft fechan yn eu pyjamas, yn rhowlio chwerthin a chochi wrth gael eu hatgoffa neu eu goleuo o'u hamrywiol anturiaethau meddw.

Ond mae gen i hefyd atgofion melyn hefyd o ysgrifennu cerddi a straeon ar gyfer y Steddfod Ryng-gol, o ganu cerdd dant gydag angerdd dan ofal Bethan Bryn, o wisgo fel cath mewn siaced ledr ar gyfer rhyw gystadleuaeth Noson Lawen, o wneud y sblits mewn sgets (nes i mi rwygo llinyn y gâr), ac o wrando gyda llygaid soseri ar un o areithiau huawdl y warden, Dr John Davies, Bwlchllan, a Hywel Teifi, pan ddaeth i'n hannerch yn y Cinio Nadolig, cyn i bethau fynd yn rhemp ac i'r arogl disinfectant dreiddio drwy'r cynteddau eto drannoeth.

Do, mi fuon ni'n wirion; ydw, dwi'n falch bod ambell beth yn niwlog; ond mi ddysgais gymaint am bobl a bywyd, ein gwlad, ein iaith a'n diwylliant, a dwi'n cofio'r cyfan gyda gwên. 📖



# CICIO'R BAR

*Balad y bwyty trist | Russell Davies*

Mae'n debyg eich bod yn disgwyl stori. Os felly, mae'n ddrwg gen i eich siomi. Nid stori ydy hon mewn gwirionedd. Does yma ddim dechrau, canol a diwedd go iawn. Dydy hi ddim wedi ei rhannu i'r drindod o adrannau roedd gweinidogion anghydfurfiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg mor hoff ohonynt ac mor barod i'w defnyddio hyd syrffed. Mae'n sôn yn syml am y dydd, a minnau'n fyfyrwr yn Aberystwyth yn 1977, pan ddois i wyneb yn wyneb â'r dyfodol.

Cychwynnais gan fwriadu mynd i ddarlith yn yr Hen Goleg (wir i chi, yr Athro Ieuan Gwynedd Jones) ond, yn ôl yr arfer, fe aeth rhywbeth arall â'm sylw'n llwyr.

Roedd hi'n un o'r boreau llonydd, iachus, tryloyw, teg hynny pan mae'r gaeaf yn gwrthod ildio i'r gwanwyn. Roedd y môr yn dawel a chyn lased â'r awyr, gyda rhesi linc-di-lonc glasddu ynddo fel gwythiennau tywyll a symudai'n synhwyrs fel pe mewn dawns araf ddwyreiniol. Felly yn hytrach na'i hanelu hi at yr Hen Goleg, i mewn â fi i fwyty – o'r enw addas ddigon 'Y Dewin'.

Roedd y bwyty yn newydd ac yn llawn addewid am afiaith, gwarineb a chyfeillgarwch wrth y bwrdd a oedd yn rhagfynegi llwyddiant y fenter. Yna, y ffactor unigol a fyddai'n sicrhau hynny – y weinyddes, un o'r creaduriaid mwyaf odiaeth o hardd a welais i erioed. Roedd hi'n object d'art. Gyda'm gên yn is na godre fy nhrowsus llongwr, rhythais mewn parchedig ofn ar y prydfwrthwch ysbrydol digyffelyb. Hedfanodd angel heibio, yn araf bach, tra oeddwn i'n ceisio adfer fy nghydbwysedd a'm hunanfeddiant. (Dywed rhai ffrindiau creulon na fu gen i rai erioed i'w hadfer). Dyna oedd lletchwithdod annioddefol bodolaeth. Yna mewn llais fel yr eos neu dyner law y gwanwyn, llefarodd wrthyf. Llefarodd wrthyf. Mae'n wir mai dim ond gofyn os oeddwn am gael rhywbeth i yfed wnaeth hi. Ond fe lefarodd hi wrthyf. Archebais goffi. "Ac i'w fwyta?" Wrth iddi estyn y fwydlen i mi dyna pryd y dois i wyneb yn wyneb â'm dyfodol.

Gallai'r fwydlen fod wedi ei hysgrifennu mewn Swahili neu Gymraeg y Gogledd. Doedd dim tebygrwydd rhyngddi ag unrhyw fwyd roeddwn i wedi dod ar ei draws erioed. Yn y dyddiau hynny uchafbwynt haute cuisine yn ein hardal ni oedd rôl selsig neu lard ar dost neu fantam yn y bwced yn y lolfa os oeddech chi am fod yn grand. Roedd y lluniaeth ragweledol hon yn gymysgfa o bistro / brasserie / fusion / fast casual / Mongolian BBQ / Teppanyaki. Perlysiau! – roedden nhw'n rhoi perlysiau yn y bwyd! Roedd yn rhyfeddod epicureaidd, yn syth allan o fasedd picnic Glyndebourne yn yr unfed ganrif ar hugain. Ond roedd hyn yn 1977.

Hyd yn oed ar ôl yr holl flynyddoedd, rydw i'n dal i deimlo cysylltiad emosiynol, corfforol bron, o frisson gyda'r foment honno. Os yw teithio drwy amser yn bosibl, yna mae'n debyg mai dyma fy nghyfle gorau i fynd drwy ryw dwll pryf i'r gorffennol, i groesi'r Bont Einstein-Eosen i ddyddiau x-ddynion y dyfodol orffennol. Er mor od y mae'n swnio rwy'n teimlo y gallaf siarad bron â'r glaslanc a fûm i unwaith yn yr amser hwnnw.

eth ddylwn i ei ddweud wrthyf fy hunan? Beth fydddech chi'n ei ddweud wrth fersiwn ieuangach ohonoch eich hunan? Ar ôl 38 blwyddyn ar lawr isaf y Tŵr Ifori, beth ydw i wedi ei ddysgu?



Pa berlau o ddoethineb hoffwn i eu rhannu? Beth am?

'Mwynhewch brydferthwch a nerth eich ieuencid, byddwch yn hiraethu amdanynt wedi iddynt gilio.'

neu

'Cofiwch y rhifau hyn, byddant yn ddefnyddiol ar 19.11.1994 – 30, 3, 5, 44, 14, 22 a 10.'

neu

'Mae dafnau'r glaw sy'n dal i syrthio ar eich pen yn asidig: maent yn lladd y pysgod, y coed a'r anifeiliaid – a byddant yn y diwedd yn eich taro hyd yn oed yn agosach, achos mae eich gwallt am ddiflannu.'

Dyw rhywun byth heb gyngor i'w gynnig, a hwnnw fel rheol yn tarddu o'r Beibl, ond mae pobl yn aml yn ychwanegu sylwadau gwamal – "Jesus saves" – "but Keegan scores on the rebound"; "An eye for an eye" – "makes the world go blind". Mae graffiti yn ffynhonnell doethineb arall, canys mae geiriau'r proffwydi yn ysgrifenedig ar furiau toiledau – "In the land of the blind the one-eyed man is king"; "If at first you don't succeed, skydiving might not be for you".


Mae diarhebion yn darparu hyd yn oed fwy o gyngor, boed o natur ysbrydol neu seciwlar, ond mae bob amser yn wrthgyferbyniol. Gall dyn megis Sancho Panza, sy'n gyfarwydd â llên o'r fath ddod o hyd bob amser i ryw wireb hynafol i gadarnhau'r farn y mae'n digwydd ei harddel. Yn achos rhagolwg, dywedir wrthym: 'Make hay while the sun shines'; 'A stitch in time saves nine'; 'Woe unto you, ye hypocrites.' Ond mae'r un awdurdodau yn darparu gwirebau gwrthgyferbyniol, sy'n awgrymu bod pwyll moesol yn ffaeledig, - 'Mae aderyn mewn llaw yn werth dau mewn llwyn'; 'Carpe diem'; 'Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.' Neu'r cyngor Cymreig ardderchog: 'Cos din taeg: efe a gach yn dy ddwrn'.

Does fawr o bwynt mewnn cogio – "What's bred in the bone.....". Mae'r cof yn blasu siampên, ond ar yr union bryd roedden ni'n yfed seidr llonydd. Hyd yn oed pe gallwn siarad dros gagendor amser; hyd yn oed pe bai'r fi ieuangach wedi gallu cael cip ar silwét o ddyn a oedd wedi teithio o'i ddyfodol i gynnig ychydig gyngor, rwy'n eithaf siwr beth fyddai'r gŵr ieuangaf wedi ei wneud: gwenu'n gwrtais, rhythu ar y weinyddes ac anwybyddu pob cyngor (hyd yn oed y rhifau) oherwydd roeddwn i wedi gweld y dyfodol yn 1977 yn Aberystwyth yn y bwyty trist.

Yn eisiau telepath – fe wyddoch i ble mae anfon eich cais. 📧

# Postgraduate opportunities at Prifysgol Aberystwyth

*With a broad range of research and taught postgraduate courses available as full time, part time and distance learning, there are several ways to advance your academic career with Aberystwyth University.*



Financial support and scholarships available  
(find the full listing at [www.aber.ac.uk/en/postgrad/funding-fees/calculator](http://www.aber.ac.uk/en/postgrad/funding-fees/calculator))

## **Aberystwyth Graduate Scholarship**

For graduates with a 2:1 or 2:2 Bachelor (Hons), the scholarship value is 10% of your proposed Masters fees.

For graduates with a First class Bachelor (Hons), the scholarships value is 20% of your proposed Masters fees.

## **Aberystwyth Masters Scholarship 2015**

Students from the UK/EU studying an on campus taught Masters, and who have good results from their undergraduate degree, will be entitled to an Aberystwyth Masters Scholarship worth around £1000!

## **International Postgraduate Excellence Scholarship (IPES)**

Non-UK/EU students commencing full-time taught Masters courses in September 2015 are able to apply for scholarships worth £2500. The scholarships will be awarded for academic excellence.

**For further details and information on scholarships please contact:**  
Postgraduate Admissions Office

**Tel:** 01970 622270 | **Email:** [pg-admissions@aber.ac.uk](mailto:pg-admissions@aber.ac.uk)

For a full list  
of courses:

[www.aber.ac.uk/en/postgrad/](http://www.aber.ac.uk/en/postgrad/)

# CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

01970 62 32 32

    /aberystwytharts  
[www.aber.ac.uk/artscentre](http://www.aber.ac.uk/artscentre)



**THEATR  
THEATRE**

**COMEDI  
COMEDY**



**EXHIBITIONS  
ARDDANGOSFEYDD**

**CERDDORIAETH FYW  
LIVE MUSIC**



**DAWNS  
DANCE**

**CERDDORIAETH GLASUROL  
CLASSICAL MUSIC**



**CAFFIS A BARRAU  
CAFÉS AND BARS**

**SIOPAU GREFFTAU A LYFRAU  
CRAFT AND BOOK SHOPS**



**A LLAWER MWY!  
PLUS MUCH MORE!**